Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 78/2014

# Ymchwil i weithrediad y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol

# Ymchwil i weithrediad y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol

## BMG Research

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

David Roberts, Uwch Swyddog Ymchwil
Ymchwil ar gyfer Addysg a Sgiliau, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol
Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
Rhif ffôn: 0300 062 5485
Ebost: david.roberts@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 20 Awst 2014
ISBN 978-1-4734-1949-0

© Hawlfraint y Goron, 2014

## Tabl cynnwys

1 Cyflwyniad i'r gwaith ymchwil ........................................................................ 1

2 Sut cafodd y PDRhC eu cyflwyno a'u gweithredu yn ymarferol........................... 7

3 Sut mae ysgolion yn defnydddio ac yn bwriadu defnyddio canlyniadau'r PDRhC . ................................................................................................................. 52

4 Casgliadau ac argymhellion ................................................................................ 65

## Cydnabyddiaethau

Hoffai’r awduron gydnabod y gefnogaeth a’r cyngor a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod cyfnod y prosiect. Yn benodol, hoffem ddiolch i David Roberts, Anthony Jordan, a Jayne Baxter am eu harbenigedd a’u cefnogaeth i’r prosiect ymchwil hwn.

Hoffem ddiolch yn arbennig i’r holl arweinwyr PDRhC mewn ysgolion a gymerodd ran mewn arolygon a’r Cefnogwyr Profion, Swyddogion Monitro Profion Consortia Rhanbarthol, arweinwyr PDRhC ac aelodau staff yn SCYA ac Accumina a gymerodd ran mewn cyfweliadau trylwyr.

# Crynodeb Gweithredol

### Cyflwyniad

Sefydlwyd y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (PDRhC) ym mis Mai 2013 i gefnogi'r broses barhaus o asesu i ba raddau y cyflawnir y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, er mwyn sicrhau bod disgwyliadau eglur a manwl gywir ar waith ar gyfer gwella llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan BMG Research ar ran Llywodraeth Cymru i weithrediad y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (PDRhC). Nod y gwaith ymchwil yw:

- Archwilio sut mae'r PDRhC wedi cael eu cyflwyno a'u gweithredu'n ymarferol.
- Archwilio'r effaith y bwriedir i'r PDRhC ei chael i gefnogi addysgu a dysgu.

### Dull gwaith

Defnyddiwyd dull cymysg i fodloni nodau ac amcanion y gwaith ymchwil ac roedd yn cynnwys:

- Adolygu dogfennau perthnasol yn ymwneud â'r PDRhC.
- Cynnal arolwg ffôn o 550 o ysgolion.
- Cynnal cyfweliadau trylwyr gyda rhanddeiliaid allweddol (gan gynnwys 8 arweinydd PDRhC mewn ysgolion, 8 Cefnogwr Profion, 7 Swyddog Monitro Profion Consortia Rhanbarthol, a chynrychiolwyr o SCYA ac Accumina).

### Canfyddiadau allweddol

*Sut y cafodd y PDRhC eu cyflwyno a'u gweithredu yn ymarferol*

- Roedd yr ymatebwyr i gyd bron (97 y cant) wedi gwneud defnydd o'r llawlyfr gweinyddu profion. Gwnaed llawer o ddefnydd o gefnogaeth arall (50 y cant neu fwy ar gyfer pob elfen, gan gynnwys 88% yn defnyddio deunyddiau sampl y PDRhC, 87% yn defnyddio canllawiau ar drefniadau

mynediad a datgymhwyso’r PDRhC, ac 87% yn defnyddio’r nodiadau cwblhau technegol ar gyfer casglu data cenedlaethol a threfniadau adrodd); fodd bynnag, gwnaed llai o ddefnydd o gysylltiadau nad oeddent yn rhai lleol, gan gynnwys consortia rhanbarthol (42 y cant), Cefnogwyr Profion (25 y cant), a chysylltiadau cenedlaethol (16 y cant).

- Roedd mwy na hanner y cynrychiolwyr o’r ysgolion a arolygwyd (56 y cant) wedi bod mewn cynhadledd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd/Rhaglen Gymorth Genedlaethol; fodd bynnag, daeth i’r amlwg yn y cyfweliadau trylwyr nad oedd pobl yn gwerthfawrogi’r rhain yn fawr gan fod y rhai a fu’n bresennol o’r farn bod y cynadleddau’n rhy fawr ac nad oedd digon o amser i feithrin dealltwriaeth ddyfnach nac i ofyn cwestiynau.
- Dywedodd Cefnogwyr Profion bod ysgol yn fwyaf tebygol o gysylltu â nhw ar ôl i’r arweinydd PDRhC adolygu’r canllawiau gan Lywodraeth Cymru a bod ganddo gwestiynau penodol neu eisiau sicrwydd bod ei ddehongliad o’r canllawiau’n gywir. Yn fwyaf aml, dywedodd Cefnogwyr Profion bod ysgolion yn cysylltu â nhw’n bennaf gydag ymholiadau am y broses ddatgymhwyso.
- Roedd tri o bob pum ymatebwr (59 y cant) o’r farn bod y canllawiau a’r llawlyfrau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn berthnasol iawn, ac roedd ychydig dros ddau o bob pump (44 y cant) o’r farn eu bod yn effeithiol iawn. Roedd ymatebwyr o ysgolion cyfrwng Saesneg yn fwy tebygol na’r rhai o ysgolion cyfrwng Cymraeg o fod o’r farn bod y rhain yn berthnasol iawn (63 y cant, o’i gymharu â 52 y cant)
- Roedd bron i ddau o bob pump o’r ymatebwyr (38 y cant) o’r farn bod y deunyddiau prawf sampl yn berthnasol iawn, ac roedd tua chwarter (24 y cant) o’r farn eu bod yn effeithiol iawn. Roedd y rhan fwyaf o’r gweddill o’r farn bod y deunyddiau sampl yn weddol berthnasol (57 y cant) neu’n weddol effeithiol (64 y cant).
- Roedd hanner yr ymatebwyr (50 y cant) o’r farn bod y negeseuon a’r canllawiau a dderbyniwyd wedi bod yn berthnasol iawn i’r hyn roedd angen iddynt ei wybod (50 y cant) ac yn rhwydd iawn eu dilyn yn ymarferol (49 y cant). Roeddent leiaf tebygol o fod o’r farn bod y negeseuon a’r canllawiau’n amserol iawn (20 y cant). Roedd ymatebwyr mewn ysgolion

uwchradd yn llawer mwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion cynradd o fod o'r farn bod negeseuon a chanllawiau gan Lywodraeth Cymru yn eglur a chydlynol (51 y cant, o'i gymharu â 35 y cant).

- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (95 y cant) yn teimlo bod eu hysgol yn gallu cydymffurfio'n llawn â'r canllawiau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Llawlyfr Gweinyddu Profion; fodd bynnag, roedd ymatebwyr mewn ysgolion arbennig yn llai tebygol na'r cyfartaledd o deimlo bod eu hysgol yn gallu cydymffurfio'n llawn (39 y cant).
- Y dull mwyaf cyffredin o roi gwybodaeth i rieni am y PDRhC oedd trwy lythyr (79 y cant) er bod hyn yn llawer mwy tebygol ymhlith ysgolion uwchradd nag ysgolion cynradd (90 y cant, o'i gymharu â 78 y cant). O roi awgrymiadau, dywedodd 64 y cant o'r holl ysgolion y byddent wedi hoffi cael rhagor o wybodaeth neu ddeunyddiau gan Lywodraeth Cymru i'w darparu i rieni. Athrawon dosbarth yn bennaf (82 y cant) a roddodd wybodaeth i'r disgyblion am y profion.
- Cynhaliodd 81 y cant o ysgolion y PDRhC ar gyfer dosbarthiadau cyfan. Lle na chynhaliwyd PDRhC ar gyfer dosbarthiadau cyfan, fe'u darparwyd i grwpiau blwyddyn cyfan neu i grwpiau llai yn seiliedig ar oedran.
- Roedd y profion fwyaf tebygol o gael eu cynnal yn yr ystafell ddosbarth (59 y cant), ac yna cyfuniad o ystafelloedd dosbarth ac ystafelloedd mwy (22 y cant).
- Roedd mwyafrif yr ysgolion cynradd (83 y cant) wedi cynnal y profion mewn 'talpiau' byrrach a gwelwyd bod hynny'n ddefnyddiol gan fod y dull hwn yn cyd-fynd â'u harferion dysgu safonol.
- Yn y mwyafrif o achosion, gweinyddwyd y profion gan athrawon cymwysedig a gyflogir yn yr ysgol yn rheolaidd (91 y cant). Fodd bynnag, roedd ysgolion uwchradd yn llawer mwy tebygol nag ysgolion cynradd o ddefnyddio aelodau staff eraill sy'n gweithio yn yr ysgol yn rheolaidd (34 y cant, o'i gymharu â 14 y cant).
- Dywedodd mwy nag un o bob pum ymatebwr (22 y cant) fod eu hysgol wedi defnyddio PDRhC wedi'u haddasu; gwnaeth y mwyafrif (87 y cant) hynny i ddarparu ar gyfer anghenion disgyblion ag anghenion arbennig ac anableddau corfforol (fel namau ar y clyw neu'r golwg). Fodd bynnag,

defnyddiodd llai na hanner yr ysgolion (47 y cant) yr holl brofion wedi'u haddasu a archebwyd ganddynt.

- Dywedodd dau o bob pum ymatebwr (40 y cant) fod eu hysgol wedi defnyddio'r trefniadau datgymhwyso ar gyfer y PDRhC ac o'r rhain, gwnaeth hanner (51 y cant) hynny er lles disgyblion ag anghenion arbennig/anawsterau dysgu. Fodd bynnag, ystyriwyd mai trefniadau datgymhwyso oedd yn achosi'r dryswch a'r pryder mwyaf wrth gynnal y profion ymhlith pawb a gyfwelwyd yn drylwyr, a chodwyd dau gwestiwn penodol yn gyffredin: 1.Pwy allai/ddylai gael eu datgymhwyso, a 2. Beth fyddai effaith datgymhwyso ar sgoriau wedi eu cyfuno?
- Nodwyd y byddai rhai dysgwyr a ddatgymhwyswyd wedi gallu cymryd rhan yn y profion pe bai cyfieithiadau i amrywiaeth ehangach o ieithoedd ar gael neu pe gallai'r ysgolion ddewis pa brofion i'w cynnal ar sail gallu'r plentyn yn hytrach na'i oed, yn enwedig mewn ysgolion arbennig.
- Roedd mwy nag un o bob pump o ysgolion yr ymatebwyr wedi defnyddio cwestiynau ymateb estynedig; fodd bynnag, ychydig o'r rhai a gyfwelwyd oedd yn ymwybodol o'r rhain.
- Amcangyfrifwyd mai 23 awr oedd yr amser a neilltuwyd gan ysgolion ar gyfartaledd i'r broses brofi (gan gynnwys paratoi gweinyddol a gweithredu ond heb gynnwys paratoi'r dysgwyr); roedd y cyfnod yn hwy mewn ysgolion uwchradd (29 awr) ac ar ei isaf mewn ysgolion arbennig (20 awr), ac amcangyfrifwyd cyfartaledd o 22 awr gan ymatebwyr mewn ysgolion cynradd. Yr uwch dîm rheoli a roddodd yr amser hwn yn bennaf.
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (91 y cant) yn fodlon ar y ffordd y gweithredwyd ac y gweinyddwyd y PDRhC yn eu hysgol. Roedd mwy na hanner yr holl ymatebwyr (53 y cant) yn fodlon iawn yn hyn o beth.
- Dywedodd un o bob pump (21 y cant) nad oeddent wedi wynebu unrhyw heriau wrth weithredu'r PDRhC. Y brif her a nodwyd gan ymatebwyr i'r arolwg oedd diffyg amser/aelodau staff (26 y cant), ac roedd hyn yn arbennig o wir mewn ysgolion uwchradd o'u cymharu ag ysgolion cynradd (35 y cant, o'i gymharu â 25 y cant). Tueddodd y rhai a gyfwelwyd yn drylwyr i nodi mai'r brif her oedd deall a dehongli trefniadau datgymhwyso.

- Er bod y mwyafrif o ysgolion yr ymatebwyr (88 y cant) wedi defnyddio athrawon cymwysedig sy'n gweithio yn yr ysgol yn rheolaidd i farcio eu PDRhC, roedd y gyfran hon yn sylweddol uwch ymhlith ymatebwyr a oedd yn gweithio mewn ysgolion cynradd na'r rhai mewn ysgolion uwchradd (93 y cant, o'i gymharu â 55 y cant).
- Ychydig yn llai na thair awr oedd yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i farcio 30 papur Prawf Darllen Cenedlaethol. Mae hyn o leiaf awr yn hwy na'r 90–120 munud a amcangyfrifwyd yn y Llawlyfr Gweinyddu Profion. Cymerwyd llai o amser ar gyfartaledd i farcio 30 papur Prawf Rhifedd Cenedlaethol – dwy awr a 29 munud – ond mae hyn hefyd yn hwy na'r 30-45 munud a amcangyfrifwyd.
- Wrth farcio'r profion, yr her fwyaf cyffredin oedd dod o hyd i amser ac aelodau staff i'w wneud (31 y cant o'r holl ymatebwyr); fodd bynnag, dywed 93 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn weddol fodlon/bodlon iawn ar sut y cynhaliwyd y gwaith marcio yn eu hysgol.
- Roedd gwaith cofnodi data yn fwyaf tebygol o gael ei gwblhau gan aelodau staff, ar wahân i athrawon, sy'n gweithio yn yr ysgol yn rheolaidd (System Gwybodaeth Reoli'r Ysgol: 63 y cant, porth SCYA: 63 y cant). Ar gyfartaledd, treuliwyd ychydig yn llai na phum awr (4.7) yn cofnodi canlyniadau PDRhC ar System Gwybodaeth Reoli'r ysgol a 4.4 awr ar gyfer porth SCYA.

*Sut y mae ysgolion yn defnyddio ac yn bwriadu defnyddio canlyniadau'r PDRhC*

- Mae 93 y cant o ysgolion wedi anfon sgoriau'r profion unigol at rieni'r disgyblion. Roedd yr ysgolion o'r farn ei bod yn bwysig i rieni dderbyn y canlyniadau PDRhC ar yr un pryd â'r adroddiad ysgol fel y gellid dehongli a thrafod y rhain yn yr adroddiad neu mewn nosweithiau rhieni. Mae ysgolion o'r farn y derbyniwyd y sgoriau'n rhy hwyr yn y tymor yn 2013 i'w galluogi i wneud hyn.
- Mae 86 y cant o ysgolion wedi defnyddio sgoriau profion unigol wrth baratoi cynlluniau addysgu; 85 y cant wedi'u defnyddio wrth bennu

targedau disgyblion, nodi gwendidau disgyblion a chynllunio ymyriadau; ac 82 y cant wedi'u defnyddio i ddarparu mwy o gymorth wedi'i dargedu i ddysgwyr.

- Roedd ysgolion arbennig yn llai tebygol o fod wedi defnyddio sgoriau'r disgyblion; mae'r cyfweliadau trylwyr yn awgrymu y gallai hyn fod oherwydd bod mwy o ddysgwyr yn cael eu datgymhwyso mewn ysgolion arbennig, sy'n golygu bod ganddynt lai o ddata i'w ddefnyddio.
- Mae arweinwyr PDRhC a gyfwelwyd yn drylwyr yn bwriadu defnyddio'r sgoriau unigol yn fwy eang i fesur cynnydd disgyblion unigol pan fydd data cymharol ar gael ar ôl profion yn y dyfodol.
- Roedd ysgolion fwyaf tebygol o ddefnyddio marciau wedi eu cyfuno i hysbysu cynlluniau addysgu (86 y cant) ac i hysbysu datblygiad y cwricwlwm (86 y cant).
- Roedd ymatebwyr mewn ysgolion cynradd yn llawer mwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd o ddweud bod eu hysgol yn bwriadu defnyddio'r data i nodi meysydd ar gyfer datblygiad staff (78 y cant, o'i gymharu â 64 y cant) ac i fonitro perfformiad staff (61 y cant, o'i gymharu â 30 y cant).
- Roedd yn well gan Swyddogion Monitro Profion y Consortia Rhanbarthol a gyfwelwyd yn drylwyr ddefnyddio'r sgoriau safonedig yn hytrach na'r sgoriau yn ôl oedran gan eu bod yn credu bod y rhain yn eu galluogi i wneud cymariaethau tecach a oedd yn llai agored i ddehongliad.
- Pan ofynnwyd iddynt sut y gellid gwneud y canlyniadau'n fwy cyfleus iddynt eu defnyddio, roedd yr ymatebwyr yn fwyaf tebygol o nodi yr hoffent gael gwybodaeth/canlyniadau yn gynharach (19 y cant).

**Casgliadau ac argymhellion**

*Y graddau y cafodd y PDRhC eu gweinyddu fel a ragwelwyd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru.*

Dywedodd mwyafrif llethol yr ysgolion a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod yn cydymffurfio'n llawn â chanllawiau Llywodraeth Cymru; pan nad oedd ysgolion yn cydymffurfio'n llawn, roedd hyn yn ymwneud â'r ffaith eu bod yn ceisio

diwallu anghenion plant â gofynion penodol (fel y rhai ag anghenion addysgol arbennig). Roedd yr holl ymatebwyr wedi defnyddio rhyw fath o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru i'w cynorthwyo i weithredu'r profion. Roedd yr ysgolion a gyfwelwyd yn drylwyr yn tueddu i ystyried mai'r llawlyfr oedd ffynhonnell graidd y wybodaeth a chanfuwyd ganddynt yn gyffredinol y gallent ddod o hyd i'r atebion i unrhyw gwestiynau yn hwn.

- **Argymhelliad: Parhau i ddarparu amrywiaeth o ddeunyddiau cyfredol i ysgolion ar weithredu'r PDRhC, gan egluro lle y gellir cael mwy o wybodaeth os bydd ei hangen.**

*Barn rhanddeiliaid a gymerodd ran ar y broses o weinyddu'r PDRhC a'r trefniadau a'r canllawiau i gefnogi hyn.*

Roedd mwyafrif llethol y rhai a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil yn hapus gyda'r canllawiau a oedd yn cefnogi'r broses o weinyddu'r PDRhC. Roedd yr ymatebwyr yn llai bodlon ar y deunyddiau prawf sampl. Mae canfyddiadau o'r cyfweliadau trylwyr yn awgrymu y byddai ysgolion wedi hoffi cael amrywiaeth ehangach o ddeunyddiau sampl i'w defnyddio fel papurau ymarfer i helpu eu disgyblion i baratoi'n well ar gyfer y profion.

Roedd y rhai a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil yn hapus gyda'r negeseuon a oedd yn dod gan Lywodraeth Cymru. Y prif bryder oedd prydlondeb y wybodaeth. Byddai wedi bod yn well gan y mwyafrif dderbyn gwybodaeth yn ymwneud â'r profion yn gynharach yn y flwyddyn er mwyn eu helpu i baratoi.

- **Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag ysgolion er mwyn cyflwyno cymorth a chyfarwyddyd yn gynharach yn y flwyddyn ysgol i sicrhau bod athrawon a disgyblion yn y sefyllfa orau i baratoi ar gyfer y PDRhC.**

*Y patrymau a'r rhesymeg ar gyfer defnyddio profion wedi'u haddasu, trefniadau mynediad arbennig a datgymhwyso dysgwyr.*

Y brif her yr oedd yr ysgolion yn eu hwynebu wrth weithredu'r profion oedd datgymhwyso ac, yn benodol, pwy ellir/ddylid eu datgymhwyso a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ganlyniadau ysgol. Defnyddiwyd trefniadau datgymhwyso ar gyfer dysgwyr dan amgylchiadau arbenigol eraill yn bennaf, fel disgyblion newydd, disgyblion a oedd yn sâl (er bod hwn yn ddefnydd anghywir o ddatgymhwyso) a rhai nad Cymraeg na Saesneg oedd eu hiaith gyntaf.

- **Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried (1) sut y gellid bod yn fwy trylwyr, cyson ac eglur wrth benderfynu pwy sy'n gymwys i gael ei ddatgymhwyso a (2) ystyried sut y gellir ymdrin ag achosion o ddatgymhwyso wrth hysbysu ynghylch canlyniadau profion fel nad ydynt yn achosi pryder i ysgolion y gallai llwyddiannau a pherfformiad gwirioneddol fod yn aneglur.**
- **Argymhelliad: Efallai yr hoffai Llywodraeth Cymru, yng ngoleuni ei hamcanion ar gyfer y rhaglen brofi yn ei chyfanrwydd, ystyried safbwyntiau rhai ysgolion, yn enwedig ysgolion arbennig, y dylai disgyblion allu sefyll profion sy'n briodol i lefel eu gallu fel y'i cydnabyddir gan eu hysgolion yn hytrach nag yn ôl eu hoedran yn unig.**

Roedd un o bob pum ymatebwr wedi defnyddio'r PDRhC wedi'u haddasu ac roedd hyn yn tueddu i ddigwydd lle'r oedd gan yr ysgol ddysgwyr â namau ar eu golwg neu anghenion addysgol arbennig. Roedd bron i hanner yr ysgolion hynny a archebodd brofion wedi'u haddasu heb ddefnyddio pob un o'r rhain. Awgrymwyd yn rhai o'r cyfweliadau trylwyr mai problem gychwynnol yn ystod y flwyddyn gyntaf oedd hon yn ôl pob tebyg, er mwyn sicrhau y byddent yn barod yn y dyfodol.

*Sut y cafodd canlyniadau'r PDRhC eu prosesu a'u dosbarthu.*

Dywedodd mwyafrif yr ysgolion a arolygwyd eu bod wedi defnyddio athrawon cymwysedig a oedd yn gweithio yn yr ysgol yn rheolaidd i farcio'r PDRhC. Pan ddefnyddiodd ysgolion eu haelodau staff addysgu eu hunain i farcio'r profion, nodwyd ganddynt fod hyn yn fuddiol gan ei fod yn eu helpu i ddeall y profion a pherfformiad disgyblion unigol yn well. Fodd bynnag, mewn rhai achosion byddai wedi bod yn well gan ysgolion i'r profion gael eu marcio a'u cymedroli'n allanol er mwyn sicrhau bod y cynllun marcio'n cael ei ddefnyddio mewn ffordd gyson.

Roedd mwyafrif llethol yr ysgolion a arolygwyd wedi anfon sgoriau'r profion at y rhieni. Fodd bynnag, roedd yr ysgolion yn pryderu am amseriad cyhoeddi canlyniadau'r profion. Byddai wedi bod yn well gan fwyafrif y rhai a gyfwelwyd yn drylwyr dderbyn y rhain yn gynharach fel y gellid eu cynnwys mewn adroddiadau diwedd blwyddyn a nosweithiau rhieni.

- **Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gallai'r broses farcio fod yn gyflymach a mwy cyson er mwyn cael gwared ar unrhyw bryderon ynghylch sut mae ysgolion yn dehongli'r cynllun marcio a sicrhau bod canlyniadau ar gael yn gynharach yn nhymor yr haf.**

*Sut y bwriedir defnyddio'r PDRhC mewn ysgolion i addysgu, asesu, cynllunio cwricwlwm a monitro.*

Mae rhan fwyaf o'r gwaith a wnaed gan yr ysgolion ar ôl derbyn canlyniadau'r profion wedi canolbwyntio ar sgoriau profion unigol trwy anfon y canlyniadau at rieni, nodi gwendidau dysgwyr penodol a chynllunio ymyriadau a darparu mwy o gymorth wedi'i dargedu i ddysgwyr.

Nododd sawl ysgol a Swyddog Monitro Profion Rhanbarthol a gyfwelwyd ei bod yn gymharol gynnar o hyd o ran y cynlluniau ehangach ar gyfer datblygu cwricwlwm a monitro perfformiad. Roeddent o'r farn y gellid cyflawni mwy yn y meysydd hyn pan fyddai ganddynt ddata hydredol o ganlyniadau profion yn y dyfodol er mwyn gallu cymharu.

- **Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y mathau o ddata a gesglir yn gyson a sicrhau y gellir cymharu rhwng blynyddoedd er mwyn galluogi ysgolion a disgyblion i gael y budd mwyaf posibl o'r PDRhC.**
- **Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol nodi cyfleoedd i greu adnoddau cymharu data i alluogi ysgolion i wneud y defnydd gorau o ganlyniadau'r profion.**
- **Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu deunyddiau i sicrhau'n well y gall rhieni ddehongli'r canlyniadau'n gywir fel maent yn berthnasol i'w plentyn.**

# 1 Cyflwyniad i'r gwaith ymchwil

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan BMG Research ar ran Llywodraeth Cymru ar weithrediad y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (PDRhC).

**Cefndir**

1.2 Mae'r Cynllun Gweithredu Gwell Ysgolion[1] yn darparu cynllun ugain pwynt ar gyfer gwella ysgolion er mwyn mynd i'r afael â phryderon a godwyd ynghylch llythrennedd a rhifedd ymhlith y rhai sy'n gadael yr ysgol yng Nghymru.

1.3 Er mwyn cefnogi hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol i sicrhau y ceir disgwyliadau eglur a manwl ar gyfer gwella llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol wedi ei seilio ar yr egwyddor bod asesu parhaus yn elfen graidd o ymarfer addysgu da. Cefnogir yr asesu parhaus hwn gan y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (PDRhC) a sefydlwyd ym mis Mai 2013. Datblygwyd y PDRhC gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA) mewn partneriaeth ag Acumina ac fe'u bwriadwyd ar gyfer yr holl ddysgwyr ym Mlynyddoedd 2 i 9 ar draws pob ysgol a gynhelir yng Nghymru.

1.4 Nod y profion yw cynhyrchu data cyfunol, hynod ddibynadwy, cymharol a fydd yn galluogi ysgolion ac awdurdodau lleol i fesur cynnydd dysgwyr a chanolbwyntio sylw ar wella perfformiad. Maent hefyd yn cynnwys elfennau ffurfiannol i gynhyrchu data y gall athrawon ei ddefnyddio i ddod i ddeall sut mae sgiliau dysgwr yn datblygu, o ran y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, ac fel un elfen mewn dull diagnostig wrth gynllunio datblygiad dysgwyr. Mae'r profion hefyd yn ei gwneud yn bosibl i ddod i ddeall cyflawniad o'i gymharu â'r darlun cenedlaethol.

1.5 Mae Llywodraeth Cymru a SCYA wedi darparu amrywiaeth o ganllawiau a chefnogaeth i ysgolion ers cyflwyno'r PDRhC. Mae hyn yn cynnwys y 'Llawlyfr Gweinyddu Profion' sy'n cynnwys: gwybodaeth am y modd a'r dull o weinyddu'r

---

[1] http://learning.wales.gov.uk/news/sitenews/improvingschools/?lang=cy

profion (er enghraifft hyd y prawf, lleoliad a awgrymir ar gyfer y prawf a sut i storio deunyddiau prawf); canllaw ar drefniadau mynediad a datgymhwyso i gynorthwyo ysgolion pan fo rhai dysgwyr yn wynebu heriau o ran cwblhau'r profion; a rhagor o wybodaeth ar wefannau Dysgu Cymru a Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â hyn, cynigiwyd cymorth gan 'Gefnogwyr Profion' (cyn-Benaethiaid fel rheol). Unigolion y gallai ysgolion gysylltu â nhw i ofyn rhagor o gwestiynau neu i gael mwy o eglurhad yw Cefnogwyr Profion. Mae gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol swyddogaeth i'w chyflawni hefyd o ran monitro cynnydd ysgolion yn y PDRhC ac o ran darparu cefnogaeth a her briodol.

**Nodau ac amcanion y gwaith ymchwil**

1.6 Comisiynodd Llywodraeth Cymru y gwaith ymchwil hwn i weithrediad y PDRhC i gyfrannu at y gefnogaeth barhaus a ddarperir i'r sector addysg ar lythrennedd a rhifedd, at y trefniadau ar gyfer y PDRhC yn y dyfodol, ac at y canllawiau a'r gefnogaeth a ddarperir yn y dyfodol ar gyfer gweinyddu'r PDRhC, ac i sicrhau eu bod yn cefnogi ymarfer mewn ysgolion. Nod y gwaith ymchwil yw:

- Archwilio sut mae'r PDRhC wedi cael eu cyflwyno a'u gweithredu'n ymarferol.
- Ymchwilio i'r effaith y bwriedir i'r PDRhC ei chael i gefnogi addysgu a dysgu.

1.7 Yn benodol, mae'r gwaith ymchwil yn archwilio:

- I ba raddau y cafodd y PDRhC eu gweinyddu fel a ragwelwyd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru.
- Safbwyntiau rhanddeiliaid a gymerodd ran, ar y broses o weinyddu'r PDRhC a'r trefniadau a'r canllawiau i gefnogi hyn.
- Y patrymau a'r rhesymeg ar gyfer defnyddio profion wedi'u haddasu[2], trefniadau mynediad arbennig a datgymhwyso dysgwyr.
- Sut y cafodd canlyniadau'r PDRhC eu prosesu a'u dosbarthu.
- Sut y bwriedir defnyddio'r PDRhC mewn ysgolion ar gyfer addysgu, asesu, cynllunio cwricwlwm a monitro.

---

[2] Roedd profion wedi'u haddasu ar gael i gefnogi dysgwyr â namau ar eu golwg neu ddysgwyr sydd fel rheol yn defnyddio print bras neu braille yn rhan o'u harfer arferol yn yr ystafell ddosbarth.

1.8 Mae'r gwaith ymchwil hefyd yn darparu argymhellion ar sut y gall Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol ac ysgolion weithredu'r PDRhC yn well yn y blynyddoedd nesaf, ac yn darparu astudiaethau achos yn archwilio arfer da o ran gweinyddu'r PDRhC a'r heriau a wynebir gan ysgolion wrth wneud hynny.

1.9 Dylid nodi bod y gwaith ymchwil hwn yn canolbwyntio ar broses a gweithrediad y PDRhC ac ar gynlluniau ar gyfer defnyddio'r canlyniadau. Nid yw'n gwerthuso cynnwys a diben y profion. Comisiynwyd gwerthusiad ar wahân o'r Rhaglen Llythrennedd a Rhifedd Genedlaethol gan Lywodraeth Cymru a fydd yn archwilio sut mae'r rhaglen yn cael ei rhoi ar waith yn ymarferol, yn ogystal â'r effaith y mae'n ei chael ar arfer addysgu a safonau addysgol.

**Dull gwaith**

1.10 Er mwyn bodloni nodau ac amcanion y gwaith ymchwil, cytunwyd mai dull cymysg fyddai fwyaf priodol, gan gynnwys:

- Adolygiad o ddogfennau perthnasol yn ymwneud â'r PDRhC.
- Arolwg ffôn o ysgolion.
- Gwaith ymchwil ansoddol, gan gynnwys cyfweliadau trylwyr gyda rhanddeiliaid allweddol.

***Adolygiad o'r dogfennau***

1.11 Yn dilyn cyfarfod sefydlu cychwynnol rhwng BMG a Llywodraeth Cymru, cytunwyd y byddai dogfennau allweddol yn ymwneud â'r PDRhC yn cael eu hadolygu er mwyn cynorthwyo i ddatblygu cwestiynau arolwg a chanllawiau pwnc ar gyfer ymchwil ansoddol. Roedd y deunyddiau a adolygwyd yn cynnwys:

- Adroddiadau Llywodraeth Cymru ar barodrwydd ar gyfer y profion
- Llawlyfr Gweinyddu Profion PDRhC
- Enghreifftiau o Adroddiadau Disgyblion unigol
- Cwestiynau ac Atebion y Rhaglen Gymorth Genedlaethol
- Canllawiau i drefniadau mynediad a datgymhwyso'r PDRhC
- Cwestiynau Cyffredin Llywodraeth Cymru

***Arolwg meintiol***

*Proffil y rhai a ymatebodd i'r arolwg*

1.12 Roedd y ffrâm samplu ar gyfer yr arolwg hwn yn cynnwys yr aelod o staff a oedd yn gyfrifol am weithredu'r PDRhC ym mhob ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig yng Nghymru. Derbyniwyd 1,617 o gysylltiadau unigryw gan Lywodraeth Cymru.

1.13 Gan ddefnyddio'r data cyswllt hwn, lluniwyd sampl cymesur yn seiliedig ar gyfnod, math, rhanbarth, cyfrwng iaith a maint yr ysgolion (gweler Atodiad 1 am ddadansoddiad o nifer y cyfweliadau a gynhaliwyd) gyda'r nod o gynnal 550 o gyfweliadau.

1.14 Yn gyffredinol, darparwyd ymatebion (gan yr unigolion a oedd yn gyfrifol am weithredu'r PDRhC) ar lefel ysgol unigol gan 550 o ysgolion. Mae hyn yn cynrychioli cyfradd ymateb o 34 y cant o'r holl ysgolion yng Nghymru.

1.15 Er mwyn mynd i'r afael â mân amrywiadau o'u cymharu â thargedau penodol, cafodd y data a dderbyniwyd ei bwysoli yn ôl cyfnod, rhanbarth a chyfrwng iaith. Defnyddiwyd y wybodaeth am boblogaeth ysgolion a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn wreiddiol fel y sail ar gyfer y cynllun pwysoli, gan mai hwn oedd yr amcangyfrif mwyaf dibynadwy o nodweddion sylfaenol ysgolion. Defnyddir data a bwysolwyd trwy gydol yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau bod y data yn cynrychioli'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd. Cyflwynir y proffiliau sampl heb eu pwysoli ac wedi eu pwysoli yn Atodiad 2. Pan fo'r seiliau yn fach (e.e. ar gyfer ysgolion arbennig) nodir hyn ar siartiau a thablau a dylid bod yn wyliadwrus o'r canlyniadau hyn.

*Proses gwaith maes*

1.16 Cynlluniwyd holiadur yr arolwg (a ddarperir yn Atodiad 3) i ganfod sut aeth ysgolion ati i weithredu'r PDRhC ac i ba raddau yr oeddent yn gallu cael gafael ar gefnogaeth a dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru; ac archwiliwyd sut mae ysgolion wedi defnyddio a sut maent yn bwriadu defnyddio canlyniadau'r profion. Cynlluniwyd yr arolwg gan BMG Research, ac fe'i cytunwyd gan y grŵp prosiect yn Llywodraeth Cymru. Cafodd ei gynnal gan ddefnyddio Cyfweliadau

Dros y Ffôn gyda Chymorth Cyfrifiadur (CATI) yn defnyddio meddalwedd Confirmit, a hynny rhwng 22 Hydref a 13 Rhagfyr 2013.

1.17 Darparwyd yr arolwg yn Gymraeg a Saesneg ac roedd cyfle i'r ymatebwyr ddewis ym mha iaith yr hoffent gymryd rhan. Cynhaliwyd 72 y cant o'r cyfweliadau a gwblhawyd trwy gyfrwng y Saesneg a chwblhawyd 28 y cant trwy gyfrwng y Gymraeg.

1.18 Cynlluniwyd cyfweliadau'r arolwg i gymryd dim mwy na 15-20 munud. Ffoniwyd darpar ymatebwyr ar amrywiaeth o ddiwrnodau ac amseroedd hyd at 10 o weithiau cyn eu cofnodi fel dim ymateb.

*Cyflwyno data'r arolwg yn yr adroddiad hwn*

1.19 Darperir seiliau cwestiynau unigol ar y graffiau a'r siartiau yn yr adroddiad hwn. Cynhaliwyd croesdabliadau, yn seiliedig ar newidynnau allweddol fel cyfnod, math, rhanbarth, cyfrwng iaith a maint yr ysgol. Cynhaliwyd profion-t annibynnol[3] ar lefel hyder 95 y cant[4] i nodi lle'r oedd gwahaniaethau rhwng grwpiau yn ystadegol arwyddocaol.

1.20 Mae'r rhan fwyaf o'r data a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn wedi ei dalgrynnu i'r canran cyfan agosaf. Am y rheswm hwn, efallai na fydd tablau neu siartiau yn dod i gyfanswm o 100 y cant yn union weithiau.

***Ymchwil ansoddol***

1.21 I gefnogi'r arolwg meintiol ac ychwanegu rhagor o wybodaeth, cynhaliwyd nifer o gyfweliadau ansoddol hefyd gyda chynrychiolwyr grwpiau rhanddeiliaid amrywiol a gymerodd ran yng ngweithrediad y PDRhC. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Arweinwyr PDRhC ysgolion (8 cyfweliad ffôn), gan gynnwys:
    - x4 ysgol gynradd, x3 ysgol uwchradd, x1 ysgol arbennig.
    - x2 y De-orllewin a'r Canolbarth, x2 yn y De-ddwyrain, x2 yng Nghanol De Cymru, x2 yn y Gogledd.

---

[3] Prawf ystadegol a gyflawnir i ganfod a yw grwpiau o ddata yn sylweddol wahanol i'w gilydd yw prawf-T.

[4] Defnyddir lefelau hyder i ddynodi pa mor ddibynadwy yw amcangyfrif.

- Cefnogwyr Profion (8 cyfweliad ffôn).
- Swyddogion Monitro Profion y Consortia Rhanbarthol (7 cyfweliad ffôn).
- Arweinwyr PDRhC yn SCYA (cyfweliad grŵp wyneb yn wyneb gyda 5 unigolyn).
- Arweinydd PDRhC yn Accumina (1 cyfweliad ffôn).

1.22 Ym mhob achos, cymerodd y cyfweliadau rhwng hanner a thri chwarter awr ac fe'u cynhaliwyd gan ddefnyddio canllaw pwnc lled-strwythuredig (a gytunwyd ymlaen llaw gyda Llywodraeth Cymru ac a atgynhyrchir yn Atodiad 4). Roedd y canllaw yn gwneud yn siŵr bod atebion yn cael eu casglu i gwestiynau cyffredin penodol ond yn rhoi lle hefyd i'r rhai a oedd yn cael eu cyfweld wneud sylwadau ehangach. Felly, roedd y canllaw pwnc yn caniatáu iddynt archwilio eu profiadau o ran y PDRhC a thrafod unrhyw gynlluniau ar gyfer defnyddio canlyniadau'r profion ar hyn o bryd neu yn y dyfodol. Gwnaed recordiadau sain o'r cyfweliadau (gyda chaniatâd yr ymatebwyr) er mwyn eu cofio'n gywir wrth eu dadansoddi. Cynhaliwyd dadansoddiad ansoddol gan ddefnyddio grid dadansoddi a gynlluniwyd ac a lenwyd yn seiliedig ar y canllawiau pwnc a themâu cyffredin a ddaeth i'r amlwg yn y trafodaethau eu hunain. Ychwanegwyd y pwyntiau allweddol, wedi eu cefnogi gan ddyfyniadau air am air, at y grid ar gyfer pob thema ac ar gyfer pob cyfweliad i lunio cofnod cyflawn o'r holl bwyntiau a materion a godwyd ar gyfer pob thema. Defnyddir deunydd ymchwil a ddeilliodd o'r cyfweliadau hyn mewn gwahanol rannau o'r adroddiad i fwrw goleuni ar ganfyddiadau ystadegol o'r arolygon ansoddol.

1.23 Cynigiwyd yr opsiwn i'r ymatebwyr gymryd rhan trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Dewisodd tair ysgol o'r wyth a gymerodd ran yn y gwaith ansoddol hwn, un Cefnogwr Profion ac un Swyddog Monitro Profion y Consortia Rhanbarthol gymryd rhan mewn cyfweliadau trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Strwythur yr adroddiad**

1.24 Yn dilyn y cyflwyniad hwn, mae'r adroddiad wedi ei strwythuro fel a ganlyn: mae Pennod 2 yn archwilio sut y cafodd y PDRhC eu cyflwyno a'u gweithredu gan ysgolion; mae Pennod 3 yn archwilio'r effaith y bwriedir i'r PDRhC ei chael i gefnogi addysgu a dysgu; ac, yn olaf, mae Pennod 4 yn cyflwyno canfyddiadau allweddol a chasgliadau o'r gwaith ymchwil.

# 2 Sut cafodd y PDRhC eu cyflwyno a'u gweithredu yn ymarferol

2.1 Mae'r adran hon yn archwilio sut cafodd y PDRhC eu cyflwyno a'u gweithredu'n ymarferol. Mae hyn yn cynnwys archwilio sut y rhoddwyd gwybod amdanynt a sut y paratowyd ar eu cyfer, sut y cawsant eu gweinyddu a sut aeth ysgolion i'r afael â'r marcio a'r broses o gofnodi data ar byrth SCYA a Llywodraeth Cymru.

**Canllawiau a pharatoi**

*Ffynonellau gwybodaeth am broses a gweithrediad PDRhC*

2.2 Daw'r canfyddiadau yn yr adran hon o'r arolwg o ysgolion yn bennaf; gofynnwyd i'r ymatebwyr am y deunyddiau a'r ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd ganddynt i ddarganfod am y broses o weithredu'r profion cyn cyflwyno'r PDRhC.

2.3 Dywedodd bron i bob ymatebwr (97 y cant) ei fod wedi defnyddio'r llawlyfr gweinyddu profion. Roedd y ffigur hwn yn cynnwys yr holl ymatebwyr sy'n gweithio mewn ysgolion uwchradd neu arbennig.

2.4 Roedd ffynonellau gwybodaeth eraill arbennig o bwysig a gafodd eu crybwyll yn cynnwys deunyddiau sampl y PDRhC (88 y cant), canllawiau i'r trefniadau mynediad a datgymhwyso ar gyfer y PDRhC (87 y cant), a 'Casglu Data Cenedlaethol a Threfniadau Adrodd 2012/13 - Nodiadau Cwblhau Technegol ar gyfer Ysgolion ac Awdurdodau Lleol' (87 y cant).


2.5 Fesul rhanbarth, roedd ymatebwyr yn rhanbarth y De-orllewin a'r Canolbarth yn llawer mwy tebygol na'r rhai mewn mannau eraill o nodi cysylltiadau a rhwydweithiau lleol, e.e. awdurdodau lleol, fel ffynonellau gwybodaeth yr oeddent wedi eu defnyddio (82 y cant, o'i gymharu â chyfartaledd[5] o 70 y cant).

2.6 Roedd ymatebwyr yn y Gogledd yn llawer llai tebygol na'r rhai mewn mannau eraill o nodi cysylltiadau a rhwydweithiau rhanbarthol, e.e. consortia rhanbarthol, fel ffynonellau gwybodaeth (26 y cant, o'i gymharu â chyfartaledd o 42 y cant). Mae Ffigur 2.1 yn crynhoi'r deunyddiau/ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd gan yr ymatebwyr.

---

[5] Wrth gyfeirio at ffigur cyfartalog mae hyn yn dynodi'r ffigur cenedlaethol cyffredinol.

**Ffigur 2.1** **Deunyddiau/ffynonellau a ddefnyddiwyd i ddarganfod mwy am broses a gweithrediad y PDRhC, gydag awgrymiadau, ymatebion lluosog (yr holl ymatebwyr)**




Sail y sampl = 550

2.7 Roedd ymatebwyr o ysgolion cyfrwng Saesneg yn llawer mwy tebygol na'r rhai o ysgolion cyfrwng Cymraeg o grybwyll:

- Caglu Data Cenedlaethol a Threfniadau Adrodd 2012/13 (93 y cant, o'i gymharu â 74 y cant);
- canllawiau i drefniadau mynediad a datgymhwyso'r PDRhC (91 y cant, o'i gymharu ag 80 y cant);
- deunyddiau sampl y PDRhC (91 y cant, o'i gymharu ag 83 y cant);
- erthyglau yng nghylchlythyr Dysg neu ar wefan Dysgu Cymru yn ymwneud â'r PDRhC (82 y cant, o'i gymharu â 68 y cant);
- Casglu Data Cenedlaethol 2013 – Cwestiynau ac Atebion (77 y cant, o'i gymharu â 57 y cant);
- Cynadleddau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd /Rhaglen Gymorth Genedlaethol (60 y cant, o'i gymharu â 47 y cant); a
- datganiadau gweinidogol yn ymwneud â PDRhC (53 y cant, o'i gymharu â 40 y cant).

2.8 Roedd mwy na hanner (56 y cant) y cynrychiolwyr o'r ysgolion a arolygwyd wedi bod i gynhadledd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd /Rhaglen Gymorth Genedlaethol. Fodd bynnag, daeth i'r amlwg mewn cyfweliadau ansoddol gyda SCYA, Cefnogwyr Profion ac ysgolion bod y rhai a oedd yn bresennol o'r farn, mewn rhai achosion, nad oedd y cynadleddau yn arbennig o ddefnyddiol oherwydd maint y digwyddiad a'r angen i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Roedd y ddau ffactor hyn yn golygu mai prin oedd yr amser i feithrin dealltwriaeth fwy trylwyr neu i ofyn cwestiynau.

2.9 Yn ystod eu cyfweliadau, dywedodd Cefnogwyr Profion fod SCYA wedi neilltuo hyd at 30 o ysgolion iddynt gysylltu â nhw. Yna, anfonodd Cefnogwyr Profion e-bost at bob un o'r ysgolion a neilltuwyd iddynt er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol bod cefnogaeth ar gael. Yna, gallai ysgolion gysylltu â'r Cefnogwr Profion os oedd arnynt angen help i weithredu'r profion. Ar ôl yr e-bost cychwynnol, dywedodd y Cefnogwyr Profion y cysylltwyd â nhw wedyn gan gyfartaledd o tua un o bob tair o'u hysgolion, cyfran sydd ychydig yn uwch na'r 25 y cant o ymatebwyr i'r arolwg a ddywedodd eu bod wedi cysylltu â'u Cefnogwr Profion. Fodd bynnag, gellir ystyried bod hyn yn gyffredinol gyson o ystyried nad oedd y gwaith ymchwil ansoddol yn gynrychiadol yn ystadegol.

2.10 Yn dilyn cais am help gan ysgolion, roedd y Cefnogwyr Profion yn cyfathrebu gyda'r ysgolion gan ddefnyddio cyfuniad o alwadau ffôn, e-bost ac ymweliadau, yn dibynnu ar lefel y gefnogaeth y gofynnwyd amdani. Er enghraifft, dywedodd dau Gefnogwr Profion eu bod wedi mynd i ysgolion i gyfarfod â grwpiau o aelodau staff i esbonio'r broses gyfan. Fodd bynnag, dywedodd y Cefnogwyr Profion yn amlach eu bod yn cefnogi ysgolion trwy gadarnhau eu dehongliadau o'r canllawiau a ddarparwyd neu drwy roi cyngor ar faterion penodol, a datgymhwyso yn amlach na dim arall:

> 'Roedd angen mwy o eglurhad arnynt yn gyffredinol. Yr argraff a gefais i oedd nad oedd [Llywodraeth Cymru] yn rhoi digon i fanylion iddyn nhw am y broses, am ddatgymhwyso neu sut maent yn darparu'r data.' Cefnogwr Profion

> 'Neilltuwyd tua 30 o ysgolion i mi. Ymatebodd pobl i fy llythyr cychwynnol i ddweud fy mod i ar gael i'w helpu. O gymryd ymweliadau a galwadau ffôn gyda'i gilydd, byddwn yn dweud bod uchafswm o ddeg, deuddeg efallai, o ysgolion wedi gofyn am gefnogaeth.' Cefnogwr Profion

> 'Dim ond pethau ymarferol oedd yr ymholiadau a dweud y gwir, "Pwy sy'n marcio'r papurau, beth rydym ni'n ei wneud gyda phlant anghenion arbennig?" Cefnogwr Profion

2.11 Dywedodd sawl Swyddog Monitro Profion y Consortia Rhanbarthol hefyd eu bod wedi darparu cefnogaeth i ysgolion cyn gweithredu'r profion, er mai dim ond ymateb i ymholiadau yr oedd y rhan fwyaf ohonynt. Fodd bynnag, dywedodd dau eu bod wedi darparu gwybodaeth am y PDRhC yn ystod cyfarfodydd, gan gynnwys cyfarfodydd clwstwr bob hanner tymor a digwyddiadau hyfforddi penodol:

> 'Roedd ysgolion yn defnyddio hwn fel cyfle i rannu pryderon am ddatblygiadau, agweddau ar y profion. Dim ond cyfle i drafod materion fel roeddent yn codi oedd e. Ac yna i fynd â nhw yn ôl i Lywodraeth Cymru hefyd.' Swyddog Monitro Profion Rhanbarthol

> ‘Cawsom sesiynau hyfforddi cyn y profion a rhoddwyd cyfarwyddyd i athrawon ac ysgolion ar, ‘Dyma sut i archebu eich profion,’ ond y cwbl wnaethom ni oedd dilyn gwybodaeth o wefan Dysgu Cymru, gwefan Llywodraeth Cymru. Dim ond eu cyfeirio at y wefan lle’r oedd yn rhaid iddyn nhw archebu eu pecynnau. Pan roedd y canllawiau gennym ni ar y profion wedi’u haddasu, fe wnaethom ni eu tywys nhw trwy sut mae cael gafael ar brofion wedi’u haddasu.’ Swyddog Monitro Profion Rhanbarthol

2.12 Dywedodd ysgolion a SCYA hefyd fod arweinwyr PDRhC wedi cysylltu ag SCYA yn uniongyrchol i ofyn cwestiynau penodol am archebu papurau a sut i baratoi disgyblion ar gyfer y profion.


2.13 Nododd rhai Cefnogwyr Profion hefyd eu bod o’r farn bod ysgolion wedi elwa o’u gwybodaeth fewnol eu hunain mewn achosion lle’r oedd aelodau staff wedi bod yn eu swyddi pan gynhelid profion cenedlaethol eraill fel y TASau. O’r herwydd, roeddent o’r farn bod yr ysgolion hyn yn fwy hyderus wrth weithredu’r profion tra bod mwy o gwestiynau gan y rhai â chyfran uwch o aelodau staff iau nad oedd y wybodaeth na’r profiad hwn ganddynt.

*Adolygiad o ddeunyddiau prawf sampl*

2.14 Gofynnwyd i’r holl ymatebwyr pa mor berthnasol oedd y deunyddiau prawf sampl a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru o ran ymdrin â’r hyn yr oedd angen iddynt ei wybod a pha mor effeithiol oeddynt o ran paratoi eu hysgol ar gyfer y PDRhC. Roedd bron i ddau o bob pump o’r ymatebwyr (38 y cant) o’r farn bod y deunyddiau prawf sampl yn berthnasol iawn, ac roedd tua chwarter (24 y cant) o’r farn eu bod yn effeithiol iawn. Roedd y rhan fwyaf o’r gweddill o’r farn bod y deunyddiau prawf sampl yn weddol berthnasol (57 y cant) neu’n weddol effeithiol (64 y cant). Dim ond tri y cant o’r ymatebwyr oedd o’r farn nad oedd y deunyddiau prawf sampl yn berthnasol o gwbl, ac roedd naw y cant o’r farn nad oeddent yn effeithiol o gwbl.

2.15 Yn gyffredinol, nid oedd tri y cant o ymatebwyr wedi derbyn y deunyddiau hyn.

**Ffigur 2.2 Barn ar ddeunyddiau prawf sampl a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru (yr holl ymatebwyr)**




Sail y sampl = 550

2.16 Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol wrth ystyried yr ymatebion a roddwyd fesul cyfnod, rhanbarth neu gyfrwng iaith. Fodd bynnag, dywedodd un o bob tair ysgol arbennig (33 y cant) nad oeddent wedi cael y deunyddiau hyn.

2.17 Yn ystod y cyfweliadau trylwyr, dywedodd sawl ysgol y byddent wedi hoffi cael mwy o ddeunyddiau sampl ac ymarfer fel y gallent baratoi eu disgyblion yn well ar gyfer y profion:

> 'Rwy'n credu y byddai'r rhan fwyaf o ysgolion yn dweud mwy o ddeunyddiau sampl gan mai dyma'r tro cyntaf roedd unrhyw un ohonom ni wedi gweld y math yna o brawf, ond nawr ein bod ni wedi ei weld unwaith mae'n weddol syml.' Arweinydd PDRhC, Ysgol Uwchradd, cyfrwng Saesneg

*Adolygiad o ganllawiau a deunyddiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru (gan gynnwys y Llawlyfr Gweinyddu Profion)*

2.18 Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr pa mor berthnasol oedd y canllawiau a'r llawlyfrau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i'r hyn yr oedd angen iddynt ei wybod am y profion, a pha mor effeithiol oeddynt o ran paratoi eu hysgolion ar


gyfer y PDRhC. Roedd y canllawiau a'r llawlyfrau hyn yn cynnwys y Llawlyfr Gweinyddu Profion.

2.19 Roedd tri o bob pum ymatebwr (59 y cant) o'r farn bod y canllawiau a'r llawlyfrau yn berthnasol iawn, ac roedd ychydig dros ddau o bob pump (44 y cant) o'r farn eu bod yn effeithiol iawn. Roedd y rhan fwyaf o'r gweddill o'r farn bod y canllawiau a'r llawlyfrau'n weddol berthnasol (39 y cant) neu'n weddol effeithiol (52 y cant). Dim ond un y cant o'r ymatebwyr oedd o'r farn nad oedd y canllawiau a'r llawlyfrau'n berthnasol o gwbl, ac roedd pedwar y cant o'r farn nad oeddent yn effeithiol o gwbl.

2.20 Dywedodd llai nag un y cant o'r ymatebwyr nad oeddent wedi cael y deunyddiau hyn.

**Ffigur 2.3 Barn ar ganllawiau a deunyddiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru (yr holl ymatebwyr)**

* yn dynodi llai na 0.5 y cant




Sail y sampl= 550

2.21 Roedd ymatebwyr o ysgolion cyfrwng Saesneg yn llawer mwy tebygol na'r rhai o ysgolion cyfrwng Cymraeg i ystyried bod y canllawiau a'r llawlyfrau wedi bod yn berthnasol iawn i'r hyn yr oedd arnynt angen ei wybod (63 y cant, o'i

gymharu â 52 y cant). Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn eu barn ynglŷn â pha mor effeithiol oedd y canllawiau a'r llawlyfrau o ran paratoi eu hysgolion ar gyfer y PDRhC.

*Adolygiad o negeseuon a chanllawiau gan Lywodraeth Cymru*


2.22 Holwyd yr ymatebwyr ynglŷn â'r negeseuon a'r canllawiau yr oeddent wedi eu derbyn gan Lywodraeth Cymru cyn cyflwyno'r PDRhC. Gofynnwyd iddynt roi eu barn ar ba mor amserol yr oedd, pa mor eglur a chydlynol, pa mor hawdd ei ddilyn yn ymarferol, pa mor berthnasol i'r hyn yr oedd angen iddynt ei wybod, pa mor effeithiol o ran eu helpu i gyfathrebu'r PDRhC yn yr ysgol, a'i effeithiolrwydd o ran paratoi eu hysgol ar gyfer y PDRhC.

2.23 Fel y dengys Ffigur 2.4, roedd hanner yr ymatebwyr yn ystyried bod y negeseuon a'r canllawiau a dderbyniwyd yn berthnasol iawn i'r hyn yr oedd angen iddynt ei wybod (50 y cant) ac yn hawdd iawn eu dilyn yn ymarferol (49 y cant). Roeddent yn lleiaf tebygol o fod wedi ystyried y negeseuon a'r canllawiau yn amserol iawn (20 y cant).

2.24 Yn y cyfweliadau, dywedodd rhai o'r arweinwyr PDRhC a'r Swyddogion Monitro Profion Rhanbarthol y byddai wedi bod yn fuddiol derbyn rhywfaint o'r deunydd yn gynharach, yn arbennig y canllawiau datgymhwyso a'i effaith, a'r deunyddiau sampl.

> 'Mae angen i'r canllawiau ddod allan yn gynharach ac os oes disgwyl inni ateb yr ymholiadau hyn i ysgolion, rydw i'n meddwl bod angen inni gael ein briffio, os oes llinell ffôn genedlaethol ar ei ffordd, mae angen sefydlu hynny. Rydw i'n meddwl bod angen iddyn nhw feddwl am y math o gwestiynau y mae pobl yn mynd i fod yn eu gofyn a sut rydym ni am ateb yr her honno.'
>
> Swyddog Monitro Profion Rhanbarthol

**Ffigur 2.4 Barn am y negeseuon a'r canllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru (yr holl ymatebwyr)**




Sail y sampl = 550

2.25 Roedd ymatebwyr mewn ysgolion uwchradd yn llawer mwy tebygol na'r ymatebwyr mewn ysgolion cynradd o fod wedi ystyried y negeseuon a'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru yn eglur a chydlynol (51 y cant, o'i gymharu â 35 y cant). Mewn rhai achosion roedd arweinwyr PDRhC yr ysgol a Chefnogwyr Profion yn awgrymu bod ysgolion uwchradd yn fwy tebygol o ddeall negeseuon a chyfarwyddyd ar y broses PDRhC gan fod ganddynt fwy o brofiad o gynnal profion ac arholiadau'n gyffredinol (megis TGAU a Lefel A).

2.26 Dangosodd y cyfweliadau gydag ysgolion ar y cyfan fod y llawlyfr gweinyddu profion yn ffynhonnell dda o wybodaeth ynglŷn â sut i weinyddu'r profion. Roeddent yn eithaf bodlon ei fod wedi darparu digon o wybodaeth i'w tywys trwy'r broses:

> ‘Gyda'r wybodaeth yn y canllaw, llwyddais i'w ddeall fy hun.' Arweinydd PDRhC, Cynradd, cyfrwng Cymraeg

> ‘Roedd popeth yn iawn. Mae'n rhaid ei fod wedi bod yn ddigon eglur, oherwydd fe aethom ni trwy'r broses.' Arweinydd PDRhC, Uwchradd, cyfrwng Saesneg

2.27 Fodd bynnag, amlygodd y cyfweliadau rai meysydd lle'r hoffai ysgolion fwy o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru hefyd, gan gynnwys y broses ddatgymhwyso (yn benodol, mwy o wybodaeth am bwy y gellid eu datgymhwyso ac effaith hyn ar ganlyniadau ysgolion), sut y gellid defnyddio canlyniadau profion, a'r ffordd orau i baratoi disgyblion ar gyfer y profion.

**Gweithredu**

*Cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru*

2.28 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (95 y cant) yn teimlo bod eu hysgol yn gallu cydymffurfio'n llawn â'r canllawiau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Llawlyfr Gweinyddu Profion. Dywedodd pob un o'r arweinwyr PDRhC a gyfwelwyd eu bod wedi gallu cydymffurfio â'r canllawiau. Fodd bynnag, mewn rhai achosion dywedwyd eu bod wedi cael rhywfaint o anawsterau trefniadaethol wrth sicrhau eu bod yn cydymffurfio, yn arbennig o ran dod o hyd i le priodol i'r disgyblion sefyll y profion ac, mewn dwy ysgol uwchradd, dod o hyd i le diogel i gadw papurau'r profion pan oedd papurau arholiadau TGAU yn cael eu storio ar yr un pryd.


2.29 Roedd ymatebwyr mewn ysgolion arbennig yn llai tebygol na'r cyfartaledd o deimlo bod eu hysgol wedi gallu cydymffurfio'n llawn (39 y cant) ac yn fwy tebygol na'r cyffredin o deimlo bod eu hysgol wedi gallu cydymffurfio'n rhannol yn unig (42 y cant). Ar y llaw arall, oherwydd maint y sampl nid yw hwn yn wahaniaeth arwyddocaol.

2.30 Ar y cyfan, dim ond 26 o'r ymatebwyr[6] oedd yn teimlo nad oedd eu hysgol wedi gallu cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys 20 o ymatebwyr o ysgolion cynradd, 5 o ysgolion arbennig, ac 1 o ysgol uwchradd. Holwyd yr ymatebwyr hyn ynglŷn â'u hanawsterau. Dangosir y rhesymau a roddwyd am yr ymatebion hyn isod.

[6] 27 achos wedi'u pwysoli

**Ffigur 2.5** **Agweddau ar y canllawiau yr oedd ysgolion yn methu â chydymffurfio â nhw, ymatebion lluosog, heb roi awgrymiadau (yr ysgolion a oedd yn methu â chydymffurfio)**

*Cyflwyno ymatebion fel nifer yr achosion wedi'u pwysoli*




Sail y sampl = 26

2.31 Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â'r heriau, o ran cydymffurfio â'r canllawiau, a grybwyllwyd gan ddau o'r Swyddogion Monitro Profion Rhanbarthol a gafodd eu cyfweld yn drylwyr

> 'Dilynwyd y canllawiau ym mhob achos, sylwais fod ymatebion yr athrawon yn amrywio ynglŷn â pha mor addas oedd y profion ar gyfer eu disgyblion penodol nhw.' Swyddog Monitro Profion Rhanbarthol

> 'Roedd ychydig o ansicrwydd ynglŷn â beth sy'n digwydd os oes gennych chi grwpiau blwyddyn cymysg.' Swyddog Monitro Profion Rhanbarthol

*Rhoi gwybodaeth am y PDRhC*


2.32 Pan ofynnwyd sut yr oeddent wedi rhoi gwybodaeth ynglŷn â gweithrediad y PDRhC i rieni’r disgyblion, y dull mwyaf cyffredin o gyfathrebu â rhieni ar y cyfan oedd trwy lythyr (79 y cant), er bod hyn yn llawer mwy tebygol o ddigwydd mewn ysgolion uwchradd nag ysgolion cynradd (90 y cant o'i gymharu â 78 y cant).

2.33 Yr ail ddull mwyaf cyffredin o gyfathrebu'r wybodaeth hon oedd nosweithiau rhieni/athrawon (18 y cant). Roedd nosweithiau rhieni/athrawon yn llawer mwy tebygol o gael eu henwi gan ymatebwyr mewn ysgolion cynradd nag ymatebwyr mewn ysgolion uwchradd (20 y cant, o'i gymharu â chwech y cant).

2.34 Cyfathrebodd un o bob deg ymatebwr (10 y cant) y wybodaeth trwy gyhoeddiadau'r ysgol, megis cylchlythyrau, llyfrynnau, taflenni a phecynnau gwybodaeth; fodd bynnag, dim ond ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig a nododd eu bod yn gwneud hyn.

2.35 Mae Ffigur 2.6 yn crynhoi'r dulliau y dywedodd ysgolion eu bod wedi’u defnyddio i roi gwybodaeth am weithrediad y PDRhC i rieni.

**Ffigur 2.6 Ffyrdd y rhoddwyd gwybodaeth am weithrediad PDRhC i rieni'r disgyblion, ymatebion lluosog, heb roi awgrymiadau (yr holl ymatebwyr)**




Sail y sampl = 550

2.36 Pan ofynnwyd iddynt, dywedodd 64 y cant o bob ysgol y byddent wedi hoffi cael mwy o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru i'w rhoi i rieni. Nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl y math o ysgol, rhanbarth na chyfrwng iaith i'r ymateb hwn.

2.37 Dywedodd un ysgol, yn ystod y cyfweliad, y byddent wedi hoffi mwy o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â sut i ddehongli canlyniadau'r profion i'w ddarparu i rieni, ond ni chafodd hyn ei archwilio yn yr arolwg.

**Astudiaeth achos: Ysgol Cyfrwng Cymraeg, cynradd, y De-ddwyrain**

Goruchwyliodd Dirprwy Bennaeth Dros Dro yr ysgol y broses o weithredu a gweinyddu'r PDRhC ar ôl i'r ysgol glywed amdanynt gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2012. Roedd hyn yn golygu sicrhau:

> 'bod trefn a dealltwriaeth ymarferol ymysg y staff, a gymerodd ran mewn cyfnod hyfforddi cyn y profion.'

Er mwyn paratoi, defnyddiodd y Dirprwy Bennaeth Dros Dro y Llawlyfr Gweinyddu Profion a defnyddio deunyddiau ar-lein. Wedi hynny trefnodd ddull gweithredu a gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer y profion yn unol â'r canllawiau hyn er mwyn cydymffurfio'n llwyr.

Anfonodd yr ysgol lythyr at rieni i roi gwybod iddynt am y PDRhC. Roedd y llythyr yn nodi pa bryd y byddai'r profion yn cael eu cynnal a pham eu bod yn angenrheidiol; ac yn egluro natur genedlaethol y profion. Roedd y Dirprwy Bennaeth Dros Dro yn hyderus bod y dull hwn o weithredu'n effeithiol gan na dderbyniodd yr ysgol unrhyw geisiadau am fwy o wybodaeth na chwynion. Fodd bynnag, maent yn credu y byddai rhywfaint yn fwy o wybodaeth fwy penodol gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn ddefnyddiol:

> 'Byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael mwy o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru i'w rhannu gyda rhieni i egluro ynglŷn â meini prawf y profion ac i'w helpu i ddeall sut mae'r profion yn berthnasol i'w plentyn.'

Ni ddefnyddiwyd unrhyw PDRhC wedi eu haddasu gan nad oedd ar unrhyw rai o'u dysgwyr eu hangen. Fodd bynnag, roeddent yn ymwybodol o'r deunyddiau cyfarwyddyd a oedd ar gael iddynt pe byddent wedi dewis defnyddio'r profion wedi eu haddasu. Dim ond un dysgwr o'r ysgol a gafodd ei ddatgymhwyso ac roeddent yn teimlo bod y cyfarwyddyd ar gyfer gwneud hyn yn eglur.

Cynhaliwyd y profion mewn ystafelloedd dosbarth ac mewn 'talpiau' o 20 munud ar gyfer Blynyddoedd 2 a 3 fel yr awgryma Llywodraeth Cymru yn y canllawiau. Teimlai'r ysgol fod y dull hwn yn arbennig o effeithiol ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 2 am nad ydynt, oherwydd eu hoed, yn gallu canolbwyntio cyn hired â phlant eraill.

Goruchwyliwyd y profion gan athrawon yr ysgol. Roedd y Dirprwy Bennaeth Dros Dro yn teimlo bod y dull hwn wedi tarfu cyn lleied â phosibl ar aelodau staff a dysgwyr:

> 'Mae'r dull hwn yn golygu nad yw dyddiau profion yn torri ar draws y dosbarthiadau eraill nad ydynt yn sefyll y profion. Mae'n golygu y gall athrawon barhau i weithio o fewn eu hamserlen arferol.'

Yn y dyfodol, mae'r Dirprwy Bennaeth Dros Dro yn credu bod lle i'r Consortia Rhanbarthol helpu ysgolion i gynllunio eu cwricwlwm er mwyn paratoi ar gyfer y profion:

> 'Mae yna gonsortiwm ar gyfer y De-ddwyrain ac mae ganddyn nhw ran i'w chwarae. Pan gyflwynwyd y profion i ddechrau, dim ond ers chwe mis yr oedd y consortiwm wedi ei sefydlu. Efallai y gallai'r consortiwm fod wedi ei sefydlu'n gynharach fel nad oedd pethau'n cael eu brysio - er mwyn ceisio newid pethau cyn gynted ag y bo modd. Byddai modd inni wedyn gynnwys beth bynnag y mae angen ei gynnwys yng ngwricwlwm yr ysgol er mwyn paratoi ymlaen llaw.'

Defnyddiodd yr ysgol ddull cymysg o farcio, gan ddefnyddio staff addysgu a staff uwch yn ogystal â dod ag athrawon llanw i mewn er mwyn i staff allu gwneud y gwaith marcio heb bwysau ychwanegol. Mae'r Dirprwy Bennaeth Dros Dro yn credu bod y dull hwn yn un effeithiol o ran amser a bod y cynllun marcio yn ddigon eglur. Cofnododd staff gweinyddol y data ar System Gwybodaeth Reoli'r ysgol a phorth SCYA ac ni hysbyswyd am unrhyw anawsterau.

Mae'r ysgol wedi defnyddio canlyniadau'r profion mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys:

- Rhoi gwybodaeth i rieni, gan ddefnyddio taflenni Llywodraeth Cymru;

- defnyddio'r sgoriau i nodi pa ddysgwyr sydd wedi colli tir a rhoi cymorth ychwanegol iddynt mewn sesiynau grŵp;
- nodi pa ddysgwyr sydd â sgoriau uchel a datblygu gweithgareddau mwy heriol iddynt;
- grwpio plant i setiau yn seiliedig ar eu gallu; a
- chymharu yn lleol ac yn genedlaethol.

Fodd bynnag, dywedodd y Dirprwy Bennaeth Dros Dro fod y canlyniadau wedi cyrraedd yn rhy hwyr i allu gweithredu arnynt yn y flwyddyn academaidd honno ac y byddai'n hoffi pe byddent ar gael yn gynharach.

Dros amser, pan fydd canlyniadau o'r naill flwyddyn i'r llall ar gael, byddai'r ysgol yn hoffi dadansoddi ‘cronfa’ o sgoriau a all helpu i fonitro cynnydd disgyblion unigol a'r ysgol. Mae'r Dirprwy Bennaeth Dros Dro yn gadarnhaol y bydd hyn o fudd i'r ysgol, y dysgwyr a'r rhieni:

> ‘Mae'r ffaith bod y profion yn rhai cenedlaethol yn golygu y bydd y wybodaeth a roddir i rieni yn fwy manwl ac yn amlinellu anghenion y plentyn. Bydd hyn yn help mawr, am ei fod yn gyson. Bydd y wybodaeth yn gwella a gellir targedu meysydd i'w gwella - er enghraifft, os bydd nifer nodedig o blant yn camddeall cwestiwn penodol neu wedi cael math o destun penodol yn anodd, gallwn weithio gyda hynny, oherwydd y bydd yn fwy posibl dod o hyd i ffordd ymlaen.’

Mae'r ysgol yn credu bod eu dull o weithredu'r profion yn effeithiol am eu bod wedi gallu dilyn y deunyddiau cyfarwyddyd yn gywir, ac roeddent yn eu gweld yn eglur i'w deall a'u harddull yn briodol. Fodd bynnag, maent yn credu y byddai'r deunyddiau'n gryfach pe byddent yn rhoi cyfarwyddyd ar sut i addysgu a pharatoi'r plant ar gyfer y profion.

2.38 Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr sut yr oeddent wedi rhoi gwybodaeth ynglŷn â gweithrediad y PDRhC i ddisgyblion yn eu hysgol, dywedwyd yn fwyaf aml mai athrawon dosbarth oedd yn gwneud hynny (82 y cant). Hwn oedd y dull mwyaf cyffredin o bell ffordd ond yn llawer mwy tebygol o fod yn ddull a ddefnyddiwyd mewn ysgolion cynradd nag ysgolion uwchradd (86 y cant, o'i gymharu â 67 y cant). Cynyddodd yr ymateb hwn i 94 y cant ymysg ymatebwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

2.39 Y dull mwyaf tebygol wedi hynny o gael ei ddefnyddio gan ymatebwyr er mwyn rhoi’r wybodaeth i ddisgyblion oedd yn ystod y gwasanaeth (15 y cant). Roedd y dull hwn o gyfathrebu yn llawer mwy tebygol o gael ei ddefnyddio gan ysgolion uwchradd nag ysgolion cynradd (52 y cant, o'i gymharu â 10 y cant).


2.40 Roedd llythyrau yn llawer mwy tebygol o gael eu hanfon at ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd nag ysgolion cyrraedd (11 y cant, o'i gymharu â dau y cant). Fodd bynnag, dim ond tri y cant oedd y gyfran gyffredinol a ddefnyddiodd y dull hwn o gyfathrebu â disgyblion ynglŷn â'r pwnc.

2.41 Dywedodd arweinwyr PDRhC yr ysgolion, y Swyddogion Monitro Profion Rhanbarthol a'r Cefnogwyr Profion a gafodd eu cyfweld yn drylwyr fod yr

ysgolion wedi ceisio sicrhau bod gwybodaeth am y profion yn cael ei rhoi mewn ffordd na fyddai'n dychryn disgyblion neu'n peri gormod o ofid. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn ysgolion cynradd.

2.42 Rhoddir crynodeb o’r ffyrdd o roi gwybodaeth am weithrediad y PDRhC i ddisgyblion yn Ffigur 2.7.

**Ffigur 2.7 Ffyrdd o roi gwybodaeth am weithrediad y PDRhC i ddisgyblion, ymateb lluosog, heb roi awgrymiadau (yr holl ymatebwyr)** * dynodi llai na 0.5 y cant




Sail y sampl = 550

*Dulliau gweinyddu*

2.43 Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i ymatebwyr ynglŷn â sut y gweinyddwyd y PDRhC yn eu hysgolion.

2.44 Yn y rhan fwyaf o'r achosion (81 y cant) cynhaliwyd y PDRhC ar gyfer dosbarthiadau cyfan. Roedd rhywfaint yn uwch mewn ysgolion cynradd nag ysgolion uwchradd (84 y cant, o'i gymharu â 79 y cant) ac yn uwch mewn ysgolion iaith Gymraeg (89 y cant) ac ysgolion dwyieithog (90 y cant) nag ysgolion cyfrwng Saesneg (79 y cant). Er nad yw hwn yn wahaniaeth sy'n

arwyddocaol yn ystadegol oherwydd bod y sail yn fach (12 heb eu pwysoli ac 14 wedi eu pwysoli), gall fod yn arwyddocaol bod y gyfran hon gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd mewn ysgolion arbennig, lle y dywedodd 16 y cant yn unig o'r ysgolion eu bod wedi cynnal y profion ar gyfer dosbarthiadau cyfan.

2.45 Lle na chafodd y PDRhC eu cynnal ar gyfer dosbarthiadau cyfan, fe'u cynhaliwyd ar gyfer grwpiau blynyddoedd cyfan neu grwpiau llai yn seiliedig ar oedran. Roedd hyn yn arbennig o debygol o ddigwydd mewn ysgolion â dosbarthiadau o oedrannau cymysg a lle'r oedd gan ysgolion ddosbarthiadau bychan iawn. Fodd bynnag, mewn un neu ddau o achosion, cafodd grwpiau blwyddyn mawr eu profi gyda'i gilydd, yn yr un modd â'r trefniadau ar gyfer arholiadau allanol. Roedd plant iau weithiau'n sefyll y profion mewn grwpiau llai, gyda dosbarthiadau'n cael eu rhannu'n grwpiau bychan er mwyn gallu goruchwylio'n fwy trylwyr.

2.46 O ran *lleoliad* y profion, yr ystafell ddosbarth oedd y lleoliad y dywedwyd ei fod yn cael ei ddefnyddio yn fwyaf aml (59 y cant). Roedd hyn yn llawer mwy tebygol o fod yn wir mewn ysgolion cynradd nag ysgolion uwchradd (68 y cant o'i gymharu â chwech y cant). Yn yr achos hwn, roedd ysgolion uwchradd yn llawer mwy tebygol o ddefnyddio ystafell fwy gyda lle i fwy o ddisgyblion, h.y. lle'r oedd grwpiau blwyddyn gyfan yn sefyll y profion gyda'i gilydd (76 y cant o'r ysgolion uwchradd, o'i gymharu ag wyth y cant o ysgolion cynradd).

2.47 Dywedodd mwy nag un o bob pump o'r ymatebwyr (22 y cant) eu bod wedi defnyddio cyfuniad o ystafelloedd dosbarth ac ystafelloedd mwy, ac roedd hyn yn fwy tebygol mewn ysgolion cynradd nag mewn ysgolion uwchradd (23 y cant, o'i gymharu â 15 y cant).

2.48 Fel y gellid disgwyl, daeth i'r amlwg yn y cyfweliadau trylwyr a gynhaliwyd gyda'r arweinwyr PDRhC, Swyddogion Monitro Profion Rhanbarthol a'r Cefnogwyr Profion, fod lleoliad y profion yn tueddu i ddibynnu ar y lle a oedd ar gael yn yr ysgol a phryd yr oedd ar gael o fewn yr amserlen:

> 'Gan eu bod yn cynnal y prawf hefyd y tu allan i'r ystafell ddosbarth, roedd y lle yn brin yn rhai o'r ysgolion uwchradd llai, o ran lle'r oedd yn bosibl i'r prawf gael ei gynnal.' Swyddog Monitro Profion Rhanbarthol


2.49 Gofynnwyd i'r rhai a ymatebodd i'r arolwg mewn ysgolion cynradd ac ysgolion canol a oedd eu hysgolion yn cyflwyno'r PDRhC i Flynyddoedd 2 neu 3 mewn

'talpiau' byrrach, gan fod hyn yn un o argymhellion Llywodraeth Cymru yn y canllawiau a ddarparwyd i'r ysgol yn y Llawlyfr Gweinyddu Profion. Dywedodd y rhan fwyaf ohonynt (fel yn yr astudiaeth achos a ddisgrifiwyd eisoes) eu bod wedi gwneud hynny (83 y cant). Dywedodd Cefnogwyr Profion ac arweinwyr PDRhC ysgolion cynradd a gafodd eu cyfweld yn drylwyr eu bod wedi defnyddio'r opsiwn hwn ac wedi ei weld yn ddefnyddiol gan ei fod yn cyd-fynd â'u harferion addysgu safonol (rhannu gwersi yn gyfnodau byr er mwyn cyflawni tasgau penodol) a'i fod yn fwy priodol ar gyfer disgyblion ifanc a allai ei chael yn anodd canolbwyntio:

> ‘Roedd hyn yn arbennig o effeithiol ar gyfer plant Blwyddyn 2, maen nhw mor fach ac mae'n anodd iddyn nhw ganolbwyntio'n hir mewn gwirionedd' Arweinydd PDRhC, Cynradd, cyfrwng Cymraeg

2.50 Yn y rhan fwyaf o achosion, ar draws pob math o ysgol, gweinyddwyd y profion i’r disgyblion gan athrawon cymwysedig a oedd yn cael eu cyflogi gan yr ysgol yn rheolaidd (91 y cant). Fodd bynnag, roedd y gyfran hon yn llawer uwch mewn ysgolion cynradd (98 y cant) nag mewn ysgolion uwchradd (51 y cant). Roedd ysgolion uwchradd yn llawer mwy tebygol nag ysgolion cynradd o ddefnyddio; aelodau staff eraill a oedd yn gweithio yn yr ysgol yn rheolaidd (34 y cant, o'i gymharu â 14 y cant), goruchwylwyr allanol a oedd yn athrawon cymwysedig (35 y cant, o'i gymharu â thri y cant), neu oruchwylwyr allanol nad oeddent yn athrawon cymwysedig (42 y cant, o'i gymharu â llai nag un y cant).

**Ffigur 2.8 Staff a oedd yn gweinyddu'r profion i ddisgyblion, ymatebion lluosog, ag awgrymiadau (yr holl ymatebwyr)** ~ yn dynodi llai na 0.5 y cant




Sail y sampl mewn cromfachau *rhybudd sail y sampl yn fach

*Defnyddio profion wedi eu haddasu*

2.51 Dywedodd dros un o bob pump o'r ymatebwyr (22 y cant) fod eu hysgol wedi defnyddio PDRhC wedi eu haddasu. Roedd y gyfran hon yn dyblu bron iawn ymysg ymatebwyr mewn ysgolion uwchradd (43 y cant). 18 y cant oedd canran yr ysgolion cynradd a 28 y cant mewn ysgolion arbennig.

2.52 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn defnyddio PDRhC wedi eu haddasu (87 y cant) yn gwneud hynny er mwyn darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion arbennig ac anableddau corfforol (megis namau ar y clyw neu'r golwg). Dywedodd saith y cant arall fod ar rai disgyblion angen gwaith papur gyda phrint bras fel rhan o'u harfer cyffredin yn yr ystafell ddosbarth.

2.53 Roedd tair prif ffactor a oedd yn dylanwadu ar ddewis ymatebwyr o brofion wedi eu haddasu. Roedd y ffactorau hyn yn cynnwys defnyddio canllawiau

PDRhC ac ymgynghori â staff a oedd yn gweithio gyda phlant ag anghenion arbennig ac anableddau corfforol er mwyn adnabod yr anghenion am brofion wedi eu haddasu (46 y cant), edrych ar anghenion plant penodol (20 y cant), a dewis ar sail y ffaith bod gan ddisgyblion anghenion arbennig neu namau corfforol (16 y cant).

2.54 O blith yr ymatebwyr hynny a ddefnyddiodd y PDRhC wedi’u haddasu, defnyddiodd ychydig yn llai na hanner ohonynt yr holl brofion wedi’u haddasu a archebwyd, defnyddiodd llai (38 y cant) rai ond nid y cyfan, a dim ond saith y cant wnaeth ddim eu defnyddio o gwbl. Awgryma cyfweliadau gyda Chefnogwyr Profion ac arweinwyr PDRhC ysgolion bod ysgolion, mewn rhai achosion, wedi archebu profion wedi eu haddasu am eu bod eisiau'r dewis o allu eu defnyddio ond eu bod wedi penderfynu peidio â'u defnyddio wedyn ar ôl eu derbyn. Credwyd mai'r rheswm am hyn oedd mai hon oedd blwyddyn gyntaf y profion a bod ysgolion eisiau bod yn barod am amrywiaeth o bosibiliadau. Yn ogystal, cafodd rhai disgyblion eu datgymhwyso ar ôl archebu profion wedi eu haddasu.

2.55 Nododd nifer o randdeiliaid a gyfwelwyd, (gan gynnwys arweinwyr PDRhC, Cefnogwyr Profion a Swyddogion Monitro Profion Rhanbarthol) y byddent wedi dymuno gweld y profion y cael eu cyfieithu i ddewis ehangach o ieithoedd er mwyn i ddysgwyr yr oedd Saesneg yn ail iaith iddynt (lle nad oedd Cymraeg yn iaith gyntaf) allu cymryd rhan mewn modd a oedd yn cyfleu eu galluoedd yn fwy cywir.

> ‘Un o'r materion a gododd yn gynnar oedd, na fyddai gennym ni'r capasiti. Rydw i'n meddwl y gallech chi, er enghraifft, gael cyfieithydd ar gyfer y prawf mathemateg. Mae hynny'n iawn os oes gennych chi rywun sy'n siarad pob un o'r 70 o ieithoedd sydd gennym ni yn yr ardal. Yn ymarferol, mae'n anodd iawn gweinyddu hynny. Doedd y capasiti hwnnw ddim gan ein gwasanaeth Iaith Saesneg felly fe wnaethom ni gyfleu hynny'n glir i ysgolion o'r dechrau.' Swyddogion Monitro Profion Rhanbarthol

*Defnyddio trefniadau datgymhwyso*

2.56 Ar y cyfan, dywedodd dau o bob pum ymatebwr (40 y cant) fod eu hysgol wedi defnyddio'r trefniadau datgymhwyso ar gyfer y PDRhC. Nid oedd hyn yn amrywio rhyw lawer yn ôl y math o ysgol, y rhanbarth na'r cyfrwng iaith. Er bod sail eu sampl yn fach iawn, roedd yn ymddangos bod ysgolion arbennig yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi defnyddio trefniadau datgymhwyso (49 y cant).


2.57 Roedd hanner yr ysgolion a ddefnyddiodd y trefniadau datgymhwyso (51 y cant) wedi gwneud hynny er budd disgyblion ag anghenion arbennig/anawsterau dysgu. Roedd hyn yn gyson â'r defnydd uwch na'r cyfartaledd a wnaed o'r trefniadau hyn mewn ysgolion arbennig.

2.58 Dywedodd un o bob pum ymatebwr (19 y cant o'r rhai mewn ysgolion a oedd wedi defnyddio'r trefniadau datgymhwyso) fod eu hysgol wedi defnyddio'r trefniadau hyn ar gyfer dysgwyr mewn amgylchiadau arbenigol eraill, megis disgyblion newydd, disgyblion a oedd yn sâl (er nad oedd hyn yn ddefnydd cywir o'r trefniadau datgymhwyso), a'r rhai nad oedd Cymraeg na Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.[7] Dengys Ffigur 2.9 y rhesymau a roddwyd dros ddefnyddio'r trefniadau datgymhwyso.

2.59 Nodwyd ei bod yn bosibl na chafodd y trefniadau datgymhwyso eu defnyddio fel a ragwelwyd gan Lywodraeth Cymru ym mhob achos oherwydd y dryswch y soniodd yr ysgolion amdano ynglŷn â dehongli deunyddiau cyfarwyddyd datgymhwyso.

[7] Dylid cofnodi disgyblion sâl fel disgyblion absennol ac ni ddylid eu datgymhwyso. Mae'n rhaid i ddisgyblion sy'n newydd i'r system addysg Saesneg neu Gymraeg sefyll y Profion Cenedlaethol oni bai bod rhesymau penodol dros ddatgymhwyso. Fodd bynnag, gellir eithrio canlyniadau eu profion wrth gyfrifo ystadegau cyfunol.

**Ffigur 2.9** **Achosion lle y defnyddiwyd trefniadau datgymhwyso - ymateb lluosog, heb roi awgrymiadau (lle y defnyddiwyd trefniadau datgymhwyso).**




Sail y sampl = 222

2.60 Ystyriwyd mai'r trefniadau datgymhwyso oedd wedi achosi'r dryswch a'r pryder mwyaf wrth gynnal y profion ymhlith pawb a gyfwelwyd yn drylwyr (gan gynnwys aelodau staff yr ysgol, Cefnogwyr Profion a Swyddogion Monitro Profion Rhanbarthol).

> 'Nid oeddent yn deall yn union sut roedd y datgymhwyso'n gweithio, felly roeddwn i'n egluro mwy am hynny.' Cefnogwr Profion

> 'Rydw i'n meddwl mai'r mater a berodd yr anhawster mwyaf inni oedd pwy oedd modd eu datgymhwyso. Nid oedd y cyfarwyddyd yn ddigon eglur. Fe wnaethom ni geisio rhoi'r neges y dylai pob dysgwr, waeth beth fo'i anghenion dysgu ychwanegol neu sgiliau ieithyddol, sefyll y prawf. Rydw i'n meddwl bod y geiriad yn amwys gan Lywodraeth

Cymru, roedd ambell ysgol yn chwarae un yn erbyn y llall. I fod yn deg ag ysgolion, am y rhesymau gorau, pryder ynglŷn â'r dysgwyr a'u lles oedd ganddynt. Cafodd mwy o ddysgwyr eu datgymhwyso nag yr oeddem ni wedi ei ragweld.' Swyddog Monitro Profion Rhanbarthol

'Roedd nifer o'r ysgolion yn aneglur ynglŷn â'u hawl i ddatgymhwyso disgyblion o'r profion. Roedd y pwynt hwnnw yn y rheoliadau'n amwys o safbwynt yr athrawon eu hunain mewn rhai ysgolion. Byddwn i'n dweud nifer sylweddol, hynny ydy hyd at hanner yr ysgolion yn y sampl.' Swyddog Monitro Profion Rhanbarthol

2.61 Trafodir isod y materion cysylltiedig â datgymhwyso a grybwyllwyd gan randdeiliaid a gafodd eu cyfweld yn drylwyr.

- *Pwy y gellid ei ddatgymhwyso:*
  Roedd ysgolion yn aml yn ansicr ynglŷn â phwy y gellid ei ddatgymhwyso. Ymysg y grwpiau oedd yn peri ansicrwydd oedd y rhai ag anghenion addysgol arbennig, disgyblion yr oedd Saesneg yn ail iaith iddynt (lle nad Cymraeg oedd eu hiaith gyntaf), disgyblion yr ystyriwyd bod potensial iddynt fod yn aflonyddgar, a'r rhai y teimlwyd y byddai'r profion yn peri gormod o ofid iddynt. Er mwyn dod i gasgliad ar y mater hwn, cyfeiriodd ysgolion at ganllawiau Llywodraeth Cymru ar ddatgymhwyso a chysylltu â'r SCYA a Chefnogwyr Profion gydag ymholiadau. Dywedodd ysgolion a Chefnogwyr Profion nad oedd ymateb yn aml yn dod ar unwaith gan eu bod o'r farn nad oedd Llywodraeth Cymru'n eglur ynglŷn â'r mater eu hunain.

- *Effaith datgymhwyso ar sgoriau wedi eu cyfuno:*
  Daeth ysgolion at Gefnogwyr Profion, y SCYA a Swyddogion Monitro Profion Rhanbarthol i ganfod yr effaith y byddai datgymhwyso yn ei chael ar eu sgoriau wedi eu cyfuno gan eu bod yn bryderus y byddai hyn yn gwneud drwg i'w canlyniadau:

  'Cawsant wybodaeth ynglŷn â chael sgoriau'r profion yn ôl, ar ddwy ffurf, fel sgôr gyflawn ac un arall heb gynnwys y plant a gafodd eu datgymhwyso. Trwy ddatgymhwyso rhai plant, byddai'n cael effaith gyffredinol ar rif eu hysgol.' Swyddogion Monitro Profion Rhanbarthol

> ‘Ymddangosai i mi eu bod yn poeni fwy am yr effaith ar ganlyniadau’r ysgol, yn gyffredinol, trwy gynnwys plant ag anghenion arbennig o bosibl, a'r plant efallai yn cael trafferth yn darllen yn gyffredinol, ac effaith y canlyniadau ar sut y gallai pobl o’r tu allan weld yr ysgol. Rydw i'n meddwl mai dyna'r syniad cyffredinol a oedd ganddyn nhw, y byddai'n gwneud niwed i'w henw da.' Cefnogwr Profion

2.62 Dywedodd Cefnogwyr Profion fod ysgolion yn amrywio o ran y ffordd yr oeddent yn dewis datgymhwyso. Roedd rhai'n dewis datgymhwyso pob disgybl y gellid ei ddatgymhwyso os oeddent yn credu na fyddent yn cael budd o sefyll y profion, tra'r oedd eraill yn gadael i bob disgybl sefyll y profion er mwyn sicrhau bod pawb yn cael ei drin yr un fath:

> ‘Roedd yno blentyn gyda phrawf darllen cyfrwng Cymraeg a dim ond ers cyfnod byr yr oedd wedi bod yno, ond roedd yr ysgol yn teimlo y byddai'n well ei gynnwys na pheidio. Byddai’n effeithio’n fwy arno pe byddai’n cael ei roi ar ei ben ei hun, er eu bod yn gwybod na fyddai'n gwneud yn dda.' Cefnogwr Prawf

> ‘Roeddent yn tueddu i beidio â’i wneud, ac yn sicr gyda'r plant iau, os nad oedden nhw’n ymdopi, byddent yn gorffen y prawf ac ysgrifennu 'wedi cynhyrfu gormod i barhau' arno. Cefnogwr Profion

2.63 Roedd nifer o ysgolion a Chefnogwyr Profion yn credu na ddylid cynnwys disgyblion a oedd wedi eu datgymhwyso yn sgoriau cyfunol yr ysgol (fel y maent ar hyn o bryd) a/neu y dylai canlyniadau disgyblion a oedd wedi eu datgymhwyso gael eu cofnodi ar wahân. Y rheswm am hyn fyddai er mwyn sicrhau nad yw pryder ynglŷn â diogelu ffigyrau perfformiad cyffredinol yr ysgol yn ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â datgymhwyso ac er mwyn i'r ffigurau allbwn adlewyrchu cyflawniad a safon yr ysgol yn deg.

2.64 Dywedodd dwy ysgol hefyd y gallai rhai dysgwyr a gafodd eu datgymhwyso fod wedi sefyll y profion pe byddai modd iddynt sefyll y profion a gynlluniwyd ar gyfer disgyblion iau. Roedd hyn yn bryder penodol i arweinydd PDRhC yn yr ysgol arbennig (cymerodd ran mewn ymgynghoriad trylwyr a disgrifir ei farn yn fwy manwl yn yr astudiaeth achos ganlynol). Roedd yn credu y byddai llai o ddisgyblion wedi eu datgymhwyso ac y byddai canlyniadau'r profion wedi bod yn fwy defnyddiol iddynt pe byddai eu disgyblion wedi cael sefyll profion addas ar gyfer eu gallu yn hytrach na'u hoedran.

| **Astudiaeth Achos: Ysgol Arbennig, Gogledd Cymru** |
|---|
| Arweiniwyd gweithrediad y PDRhC gan y Pennaeth. Derbyniodd yr ysgol wybodaeth am y PDRhC ym mis Chwefror/Mawrth 2013. Nid oedd y Pennaeth yn gweld hynny'n ddigon buan, o ystyried mai dyma'r tro cyntaf i'r profion gael eu gweinyddu: |
| ‘Roedd ychydig yn hwyr. Roedd yn fenter newydd sbon. Pe byddai'r wybodaeth wedi dod yn gynt, mae'n bosibl y gallem ni fod wedi edrych arnynt yn gynharach a gweld beth oedd y goblygiadau i'n disgyblion.' |
| Dywedodd y Pennaeth na dderbyniodd yr ysgol yr holl wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt ar y cychwyn a theimlai eu bod yn dysgu trwy gydol y broses: |
| ‘Mi wnaethom ni lwyddo i wneud popeth o fewn yr amserlen ond roedd braidd yn dynn. Roeddem ni'n dysgu am bethau wrth iddynt ddigwydd.' |
| Y broblem fwyaf yr oedd yr ysgol yn ei hwynebu wrth gynnal y profion oedd datgymhwyso, ac yn benodol pwy ddylid ei ddatgymhwyso. Roedd y Pennaeth yn gwybod y byddai cyfran fawr o ddysgwyr yr ysgol yn cael eu datgymhwyso gan eu bod yn ddi-eiriau ac yn gweithio'n is na lefel y cwricwlwm cenedlaethol. Fodd bynnag, gallai dysgwyr eraill yn yr ysgol fod wedi sefyll y prawf, ond nid y rhai a gynlluniwyd ar gyfer eu grŵp oedran o reidrwydd. Byddai'r ysgol wedi hoffi'r cyfle i gynnig y PDRhC mwyaf priodol ar gyfer eu gallu yn hytrach na'u hoedran i'r dysgwyr hynny: |
| ‘Ddysgais i ddim byd gan y profion. Pe byddwn i wedi cael rhoi'r profion ar gyfer eu gallu iddynt, h.y. pe gallwn i roi prawf Blwyddyn 2 i un o fy nysgwyr Blwyddyn 9 sy'n gweithio ar Lefel 1, yna mi allwn i weld pwrpas eu gwneud.' |
| Roedd y Pennaeth yn fodlon ar y wybodaeth a dderbyniodd yr ysgol ynglŷn â'r broses o ddatgymhwyso dysgwyr ei hun ac ar weinyddu’r PDRhC. Fodd bynnag byddai wedi hoffi mwy o wybodaeth i roi gwybod sut y gellid defnyddio'r wybodaeth i fonitro cynnydd disgyblion: |
| ‘Mae'r wybodaeth yno ac mae'n eglur er mwyn gweinyddu'r profion a'u cynnal mewn ffordd gyson ar draws pob lleoliad. Ond rydw i'n cwestiynu pa mor berthnasol yw’r profion ar gyfer ysgolion arbennig a'r ffaith bod yn rhaid inni ddilyn yr un drefn ag ysgol y brif ffrwd. Mae hynny'n amlwg yn golygu nad yw'r profion yn rhoi unrhyw wybodaeth imi ynglŷn â sut mae fy nisgyblion yn perfformio na'r cynnydd y maent yn ei wneud.' |
| Am mai ychydig iawn o ddysgwyr a safodd y profion, nid yw'r ysgol wedi defnyddio data'r profion hyd yn hyn. Fodd bynnag, maent yn credu y gallai'r canlyniadau fod yn ddefnyddiol iawn os byddai modd i ddysgwyr, yn y dyfodol, sefyll y prawf ar y lefel y mae'r ysgol yn deimlo sydd fwyaf priodol. |

*Cwestiynau ymateb estynedig*

2.65 Darparodd Llywodraeth Cymru gwestiynau darllen ymateb estynedig ychwanegol, dewisol, y gallai ysgolion ddewis eu rhoi i ddysgwyr yn ogystal â'r profion ffurfiol. Cynlluniwyd y profion hyn er mwyn cynorthwyo ysgolion i archwilio sgiliau darllen y dysgwyr ymhellach a gall yr ysgolion ddefnyddio'r

ymatebion i'r profion hyn i ddibenion ffurfiannol. Nid oes angen adroddiad ar y data cysylltiedig â'r profion dewisol hyn.

2.66 Pan ofynnwyd a oedd eu hysgol wedi defnyddio'r cwestiynau darllen ymateb estynedig, dywedodd mwy nag un o bob pump o'r ymatebwyr eu bod wedi eu defnyddio (22 y cant). Nid yw hyn yn amrywio llawer yn ôl math o ysgol na rhanbarth ond mae'r gyfran rhywfaint yn uwch mewn ysgolion dwyieithog (31 y cant).

2.67 Dywedodd pob un o'r gwahanol fathau o randdeiliaid a gafodd gyfweliad trylwyr fod ymwybyddiaeth a defnydd ysgolion o'r profion ychwanegol yn isel. Dywedodd un Cefnogwr Profion ei fod yn credu y gallai mwy o ysgolion fod wedi dewis yr opsiwn hwn gan fod y gallu gan rai o'r dysgwyr:

> 'Yn yr un ysgol gynradd yr es iddi, roedd rhywbeth fel 28 o blant, ac rydw i'n meddwl y gallai tua deuddeg ohonyn nhw o leiaf fod wedi gwneud prawf estynedig, llyfryn estynedig a oedd o safon anoddach.' Cefnogwr Profion

*Ystyriaethau iaith*

2.68 Yn y rhan fwyaf o ysgolion cyfrwng Cymraeg (94 y cant), dywedodd ymatebwyr fod rhai disgyblion wedi sefyll y PDRhC yn Saesneg ac eraill wedi eu sefyll yn Gymraeg.

*Amser a dreuliwyd ar broses y profion*


2.69 Dengys yr ymatebion i'r arolwg mai'r amcangyfrif oedd bod aelodau staff wedi buddsoddi 23 awr yn y broses brofi, gan gynnwys paratoadau gweinyddol a gweithredu ond heb gynnwys paratoi'r dysgwyr.

2.70 Roedd nifer yr oriau ar gyfartaledd yn uwch mewn ysgolion uwchradd (29) ac yn is mewn ysgolion arbennig (20), gyda'r ymatebwyr mewn ysgolion cynradd yn amcangyfrif cyfartaledd o 22 awr.

2.71 Mae Ffigur 2.10 yn crynhoi sut yr oedd cyfanswm yr amser a fuddsoddwyd yn y broses brofi wedi ei rannu rhwng aelodau staff mewn gwahanol swyddi yn yr ysgol, yn ôl amcangyfrif yr ymatebwyr. Athrawon a dreuliodd yr amser hiraf (52 y cant o'r holl oriau a dreuliwyd), a dim ond un o bob naw o'r oriau cyfartalog

(cyfanswm o 11 y cant) a fuddsoddwyd gan aelodau staff cymorth ac aelodau staff eraill.

**Ffigur 2.10 Cyfran cyfanswm yr amser a fuddsoddwyd yn y broses brofi gan staff penodol (ymatebwyr i gyd, lle y nodwyd amcangyfrif)**





Sail y sampl = 513

2.72 Amcangyfrifwyd bod athrawon yn treulio llawer mwy o amser yn gweithio ar y broses brofi mewn ysgolion cynradd nag mewn ysgolion uwchradd (56 y cant, o'i gymharu â 31 y cant). Mewn ysgolion uwchradd, neilltuwyd 33 y cant o gyfanswm yr amser a dreuliwyd ar y broses brofi i staff cymorth yr ysgol, o'i gymharu â chwech y cant mewn ysgolion cynradd.

2.73 Roedd tua chwarter yr holl ymatebwyr (24 y cant) yn credu bod yr amser a dreuliwyd ar baratoi a gweithredu'r PDRhC wedi ychwanegu at lwyth gwaith staff. Fodd bynnag, roedd 30 y cant o'r ymatebwyr yn credu nad oedd y PDRhC wedi cael llawer o effaith, os o gwbl, ar lwyth gwaith aelodau staff yn yr ysgol.

**Ffigur 2.11 Ffyrdd y mae'r amser a dreuliwyd ar baratoi a gweithredu'r PDRhC (ac eithrio paratoi'r dysgwyr) wedi effeithio ar lwyth gwaith ehangach aelodau staff yr ysgol - ymateb lluosog, heb roi awgrymiadau (yr holl ymatebwyr)** *yn dynodi llai na 0.5 y cant





Sail y sampl = 550

*Boddhad gyda gweithrediad y PDRhC*

2.74 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (91 y cant) yn fodlon ar y ffordd yr oedd y PDRhC yn cael eu gweithredu a'u gweinyddu yn eu hysgol. Roedd dros hanner yr ymatebwyr i gyd (53 y cant) yn fodlon iawn yn hynny o beth.

**Ffigur 2.12 Boddhad gyda'r ffordd y gweithredwyd ac y gweinyddwyd y PDRhC yn eu hysgol (yr holl ymatebwyr)** *yn dynodi llai na 0.5 y cant




Sail y sampl = 550

2.75 Roedd lefelau boddhad rhywfaint yn uwch mewn ysgolion uwchradd nag mewn ysgolion cynradd (64 y cant o ysgolion uwchradd yn fodlon iawn o'i gymharu â 51 y cant o ysgolion cynradd, ac roedd 31 y cant o ysgolion uwchradd yn eithaf bodlon o'i gymharu â 40 y cant o'r ysgolion cynradd). Roedd lefel boddhad yn is mewn ysgolion arbennig (32 y cant yn eithaf bodlon; 37 y cant yn fodlon iawn).

2.76 Roedd arweinwyr PDRhC ysgolion a dderbyniodd gyfweliadau trylwyr i gyd yn fodlon iawn ar y ffordd yr oeddent wedi gweithredu'r profion. Y rheswm pennaf am hyn oedd eu bod yn credu iddynt fodloni pob un o ofynion Llywodraeth Cymru o fewn yr amser gofynnol.

*Heriau allweddol a wynebir wrth weithredu'r PDRhC*

2.77 Gofynnwyd i'r ymatebwyr beth oedd y prif heriau a wynebwyd gan eu hysgol wrth weithredu'r profion. Crybwyllodd pedwar o bob pum ymatebwr o leiaf un her, a'r rhai a grybwyllwyd yn fwyaf aml oedd diffyg staff/amser (26 y cant), egluro'r PDRhC i ddisgyblion (14 y cant) a phant yn cynhyrfu/dan bwysau/angen sicrwydd (10 y cant).

2.78 Fodd bynnag, roedd yr heriau a wynebwyd yn amrywiol, yn ôl yr ymatebwyr, ac fe'u crybwyllir yn siart 2.13. Materion eraill allweddol oedd ymdrin ag anghenion unigol disgyblion, ffurf y profion a'r amser yr oedd yn ei gymryd.

2.79 Y brif her a enwyd gan yr ymatebwyr a gafodd eu cyfweld yn drylwyr oedd y broses ddatgymhwyso a sut i benderfynu pwy i'w ddatgymhwyso (am y rhesymau a drafodwyd eisoes).

2.80 Y brif her arall a ganfuwyd (yn arbennig i ysgolion uwchradd) oedd y gwrthdaro rhwng y PDRhC a phrofion ac arholiadau eraill (megis TGAU). Byddai'n well gan yr ysgolion uwchradd a gafodd gyfweliadau trylwyr i'r PDRhC gael eu cynnal yn gynharach yn y flwyddyn academaidd er mwyn osgoi gwrthdaro. Ar y llaw arall, awgrymodd rhai ysgolion fod yr adeg y cynhaliwyd y profion yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn cael eu paratoi'n ddigonol.

**Ffigur 2.13 Y prif heriau yr oedd yr ysgolion yn eu hwynebu wrth weithredu'r profion, ymatebion lluosog, heb roi awgrymiadau (ymatebwyr i gyd)**




Sail y sampl = 550

2.81 Wrth edrych ar y canfyddiadau'n fwy manwl, gwelir bod diffyg staff/amser yn fwy o bryder mewn ysgolion uwchradd nag mewn ysgolion cynradd (35 y cant, o'i gymharu â 25 y cant), ac roedd ysgolion cynradd yn fwy tebygol nag ysgolion uwchradd o grybwyll plant yn cynhyrfu/dan bwysau/ angen sicrwydd (11 y cant, o'i gymharu â dim yn yr ysgolion uwchradd). Fel y gellid disgwyl, roedd ysgolion cynradd hefyd yn fwy tebygol nag ysgolion uwchradd o ddweud bod egluro'r PDRhC i ddisgyblion wedi bod yn her (15 y cant, o'i gymharu â 7 y cant mewn ysgolion uwchradd). Nid oedd gwahaniaeth o ran pa mor debygol yr oedd ysgolion o gofnodi nad oeddent wedi wynebu unrhyw heriau wrth weithredu'r PDRhC.

2.82 Yn olaf, nododd Cefnogwyr Profion a Swyddogion Monitro Profion Rhanbarthol a gafodd gyfweliadau trylwyr fod y deunyddiau cyfarwyddyd yn gadael lle i fod yn hyblyg o ran dehongli sut y gellid gweithredu a gweinyddu'r profion. Dywedwyd bod hyn wedi arwain at rywfaint o ddryswch ynglŷn â beth yn union yr oedd angen ei wneud a rhywfaint o bryder bod rhai ysgolion yn manteisio ar hyn er mwyn sicrhau bod eu marciau'n uwch ac y byddai'n well ganddynt 'reolau' mwy eglur er mwyn atal hyn rhag digwydd:

> ‘Eto, mae'n bosibl mai elfennau ymarferol sy'n gyfrifol. Rydw i'n meddwl y dylai fod yn eglur, dylai'r amserlen fod yn eglur iawn, ac eto, mae'n rhaid iddynt ddeall bod yn rhaid cael yr amgylchiadau hyn, mae’n rhaid cael amgylchiadau arholiadau, er mwyn i'r profion fod yn ddilys.' Cefnogwr Profion

> ‘Mwy strwythuredig yn fy marn i. Roedd yna ormod o hyblygrwydd i Benaethiaid ddehongli a, chyn belled â bod y rhesymeg yn deillio o hynny, i weithredu ac asesu dysgwyr penodol. Mae hynny wedyn yn rhoi anghysondebau.' Swyddog Monitro Profion Rhanbarthol

**Marcio, safoni a chofnodi data**

*Dulliau o farcio*


2.83 Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (88 y cant) fod eu hysgol wedi defnyddio athrawon cymwysedig sy’n gweithio yn yr ysgol yn rheolaidd i farcio'r PDRhC. Roedd y gyfran hon yn llawer uwch ymysg ymatebwyr sy’n gweithio mewn ysgolion cynradd na'r rhai mewn ysgolion uwchradd (93 y cant, o'i gymharu â

55 y cant). Mae'r cyfweliadau trylwyr yn awgrymu y gallai'r gwahaniaeth hwn fod yn gysylltiedig â rhai enghreifftiau mewn ysgolion uwchradd lle'r oedd rhai ysgolion yn poeni na fyddai cynrychiolwyr yr undeb yn caniatáu i athrawon yn eu hysgolion farcio'r papurau.

> 'Roedd rhaid inni wneud yn siŵr nad oedd effaith ar aelodau staff ar wahân i'r rhai a oedd mewn swyddi uwch efallai a allai gyfrannu at y gwaith, heb achosi pryderon o ran problemau gwaith gyda'r undebau.'
> Arweinydd PDRhC, Uwchradd, cyfrwng Saesneg

2.84 Yn yr un modd, roedd ysgolion uwchradd yn fwy tebygol nag ysgolion cynradd o fod wedi defnyddio staff eraill sy'n gweithio yn yr ysgol yn rheolaidd i farcio'r PDRhC (54 y cant, o'i gymharu â 10 y cant). Roeddent hefyd yn fwy tebygol o fod wedi defnyddio aelodau staff allanol, a allai fod yn athrawon cymwysedig, i farcio'r gwaith (16 y cant) neu aelodau staff allanol nad oeddent yn athrawon cymwysedig (19 y cant).

**Ffigur 2.14 Aelodau staff a ddefnyddiwyd i farcio'r PDRhC - ymatebion lluosog, ag awgrymiadau (yr holl ymatebwyr)** *yn dynodi llai na 0.5%




Sail y sampl mewn cromfachau

| **Astudiaeth Achos: Ysgol Gymraeg, Uwchradd, Canol De Cymru** |
|---|
| Cafodd gweithrediad y PDRhC ei oruchwylio gan y 'Swyddog Arholiadau' (Pennaeth Cynorthwyol). Yr unigolyn hwn oedd yn gyfrifol am drefnu'r profion yn rhan o'i swyddogaeth yn yr ysgol o ddydd i ddydd.<br><br>Roedd y Swyddog Arholiadau wedi clywed am y PDRhC mewn gwybodaeth a anfonwyd gan Lywodraeth Cymru mewn e-bost. Wrth baratoi ar gyfer y profion, aeth ati i chwilio am wybodaeth yn neunyddiau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ar wefan Llywodraeth Cymru. Cafwyd gwybodaeth hefyd gan y SCYA. Gwelwyd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol, yn enwedig er mwyn gallu rhannu gwybodaeth â gwahanol adrannau yn yr ysgol i'w helpu i baratoi ar gyfer y profion a'u helpu i baratoi dysgwyr hefyd. Roedd y Swyddog Arholiadau'n fodlon ar y wybodaeth a ddefnyddiwyd er mwyn paratoi ar gyfer y profion. Roedd yn teimlo bod y wybodaeth wedi ei chyflwyno ar y lefel gywir ar gyfer eu hanghenion a'u bod wedi gallu cydymffurfio â'r canllawiau. Nid oedd yn teimlo bod arnynt angen unrhyw wybodaeth arall.<br><br>Cyn y profion, rhoddodd yr ysgol wybod i'r rhieni a'r dysgwyr am y profion. Anfonwyd llythyr |

at y rhieni ac roedd mwy o wybodaeth ar gael ar wefan yr ysgol os oedd arnynt ei hangen.

Dewisodd yr ysgol beidio â defnyddio'r PDRhC wedi eu haddasu ar yr achlysur hwn, gan nad oedd ar yr un o'u dysgwyr eu hangen. Roeddent yn gweld y wybodaeth a'r cyfarwyddyd ynglŷn â'r profion wedi eu haddasu yn eglur ac yn hawdd eu deall. Fodd bynnag, defnyddiodd yr ysgol y broses ddatgymhwyso ar gyfer nifer fechan o ddisgyblion, a gwelwyd y canllawiau er mwyn gwneud hyn yn eglur.

Y brif her i ysgolion o ran gweithredu'r PDRhC oedd yr amseru, a oedd yn gwrthdaro ag arholiadau TGAU a Lefel A. Mae'r Swyddog Arholiadau'n credu y dylai'r PDRhC ddigwydd cyn yr arholiadau hyn:

> ‘Roedd yna gyfnod o tua 3 wythnos ac roedd gofyn i'r ysgol benderfynu pa bryd y byddai bob prawf yn cael ei gynnal o fewn y cyfnod hwnnw. Doedd hyn ddim yn hawdd, oherwydd bod yr arholiadau TGAU a Lefel A yn cael eu cynnal ar y pryd.... mae angen amserlen wedi’i ffurfio’n allanol ac yn annibynnol ar gyfer y profion hyn, a dylid sicrhau bod modd i'r profion gael eu cynnal cyn y tymor arholiadau.'

Defnyddiodd yr ysgol staff allanol annibynnol sy'n monitro arholiadau a gweithdrefnau i weinyddu'r profion, gan nad ydynt yn teimlo bod gweithio fel 'arholwyr' yn rhan o swyddogaeth yr athrawon. Wedi hynny, cafodd y papurau eu marcio a’r canlyniadau eu cofnodi ar gronfa ddata gan aelodau staff gweinyddol, gan na fyddai Undebau'r athrawon yn caniatáu i’w haelodau sy'n athrawon wneud hynny. O ganlyniad, nid effeithiwyd rhyw lawer ar amser yr athrawon. Fodd bynnag, mae'r Swyddog Arholiadau'n credu y dylid cael mwy o gysondeb a safoni allanol o ran y ffordd y mae'r profion yn cael eu gweinyddu a'u marcio er mwyn sicrhau bod ysgolion i gyd yn cydnabod pa mor bwysig ydynt:

> ‘Dylai pob prawf gael ei weinyddu ar yr un pryd ym mhob ysgol - a dylai Llywodraeth Cymru osod cyfyngiadau. Dylai'r profion hefyd gael eu marcio'n allanol - yn yr un modd â TGAU a Lefel A - os oes disgwyl inni gymryd y canlyniadau o ddifrif.'

Roedd yr ysgol yn siomedig nad oedd canlyniadau'r profion ar gael tan ddiwedd y tymor a rhai elfennau ddim ar gael tan fis Medi. Mae'r Swyddog Arholiadau'n credu y dylai'r canlyniadau fod ar gael yn gynharach.


Mae'r ysgol eisoes wedi dechrau defnyddio'r data safonedig o'r PDRhC er mwyn dilyn datblygiad bob dosbarth. Mae'r canlyniadau hefyd wedi eu rhannu â rhieni gan ddefnyddio fformat yr adroddiad a'r fformiwla a awgrymwyd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cael unrhyw adborth gan y rhieni am hyn. Ni wnaed rhagor o benderfyniadau ynglŷn â sut i ddefnyddio canlyniadau'r profion hyd yn hyn.

2.85 O ran rhesymau ysgolion dros ddewis dull penodol o farcio (gweler Ffigur 2.15), roedd ansawdd y marcio yn ystyriaeth allweddol (23 y cant o'r holl ymatebwyr) gan fod rhai ysgolion am i'w staff eu hunain farcio'r profion er mwyn gallu sicrhau ansawdd. Amser/adnoddau (17 y cant) oedd yr ystyriaeth nesaf a grybwyllwyd ac roedd yn ystyriaeth fwy sylweddol mewn ysgolion uwchradd nag ysgolion cynradd (36 y cant, o'i gymharu â 14 y cant).

2.86 Roedd ysgolion uwchradd hefyd yn fwy tebygol o fod wedi gweithredu mewn ffordd benodol am eu bod wedi cael cyfarwyddyd i wneud hynny/dilyn canllawiau/cyfarwyddyd gan yr undeb/dim opsiwn arall (29 y cant o’i gymharu â 12 y cant ar gyfartaledd).

2.87 Roedd 15 y cant o'r holl ymatebwyr eisiau i'w haelodau staff eu hunain farcio'r profion er mwyn iddynt ddeall y broses a gallu monitro cynnydd a datblygiad y disgyblion yn agos.

**Ffigur 2.15 Rhesymau ysgolion dros ddewis eu dull o farcio - ymateb lluosog, heb roi awgrymiadau (holl ymatebwyr)**




Sail y sampl = 550

2.88 Gofynnwyd i ymatebwyr amcangyfrif faint o amser yr oedd yn ei gymryd i farcio 30 o bapurau'r Prawf Darllen Cenedlaethol a 30 o bapurau'r Prawf Rhifedd Cenedlaethol gweithdrefnol. Rhoddir eu hymatebion fel cyfartaledd, mewn oriau a munudau.

2.89 Ar y cyfan, cymerwyd ychydig llai na thair awr (dwy awr a 56 munud) ar gyfartaledd i farcio 30 o bapurau'r Prawf Darllen Cenedlaethol. Mae hyn o leiaf awr yn hwy na'r amcangyfrif o 90-120 munud yn y Llawlyfr Gweinyddu Profion.

2.90 Cymerwyd llai o amser i farcio 30 o bapurau'r Prawf Rhifedd Cenedlaethol ar gyfartaledd, sef dwy awr a 29 munud. Mae hyn yn gyson â'r Llawlyfr Gweinyddu Profion, a oedd yn amcangyfrif y byddai'r Profion Rhifedd yn cymryd llai o amser i'w marcio na'r Profion Darllen. Fodd bynnag, mae'n dal yn llawer hirach na'r 30-45 munud a amcangyfrifiwyd.

2.91 Cofnodwyd bod ysgolion uwchradd wedi cymryd llai o amser nag ysgolion cynradd i farcio 30 o'r ddau bapur:

Papurau'r Prawf Darllen Cenedlaethol: ysgolion cynradd – dwy awr, 54 munud;
ysgolion uwchradd – dwy awr, 33 munud;
ysgolion arbennig * – chwe awr, 57 munud.

Papurau'r Prawf Rhifedd Cenedlaethol: ysgolion cynradd – dwy awr, 30 munud;
ysgolion uwchradd – dwy awr, tri munud;
ysgolion arbennig * - pedair awr, 18 munud.

**Rhybudd: Sail y sampl yn fach*

2.92 Dywedodd ychydig dros hanner yr holl ymatebwyr (54 y cant) eu bod wedi wynebu heriau wrth farcio'r profion. Yr her oedd yn cael ei hwynebu amlaf o bell ffordd oedd dod o hyd i aelodau staff ac amser i wneud y gwaith (31 y cant o'r holl ymatebwyr). Dywedodd un o bob naw o'r ymatebwyr (11 y cant) bod deall sut roedd y broses farcio yn gweithio yn her.

2.93 Roedd materion eraill a grybwyllwyd gan ymatebwyr, heb orfod awgrymu iddynt, yn cynnwys:

- marcio’n gyson a chywir bob amser (pump y cant);
- ymdopi ag amwysedd atebion/profion (pedwar y cant);
- cost, gwallau/anghywirdeb yn y profion a'r taflenni marcio, pa mor eglur/rhwydd eu darllen oedd atebion plant, dyraniad y gwaith marcio,


gosodiad/strwythur y profion neu'r broses farcio, tegwch y profion, a llymder/anhawster y marcio (pob un yn cael eu crybwyll gan un y cant o'r ymatebwyr).

2.94 Nid oedd yr un o'r materion eraill hyn yn peri pryder mawr. Dim ond ambell ymatebwr a'u crybwyllodd ym mhob achos. Y mater sy'n peri'r pryder mwyaf, fel y nodwyd uchod, yw’r adnoddau sy'n angenrheidiol. Mae'n debyg nad yw hyn yn syndod gan fod 30 o bapurau, fel y nodwyd uchod, wedi cymryd bron i dair awr ar gyfartaledd i'w marcio ac mai ychydig iawn o ysgolion a ddefnyddiodd aelodau staff allanol i farcio'r papurau.

2.95 Y farn sylfaenol ynglŷn â marcio'r PDRhC oedd ei bod yn broses foddhaol, gan i 93 y cant o'r ymatebwyr ddweud eu bod yn eithaf bodlon/fodlon iawn ar y ffordd yr aed i'r afael â'r gwaith o farcio'r PDRhC yn eu hysgol. Mae hyn yn cynnwys 67 y cant o'r ymatebwyr a oedd yn fodlon iawn.

2.96 Roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn fodlon iawn yn uwch mewn ysgolion cynradd nag mewn ysgolion uwchradd (70 y cant, o'i gymharu â 50 y cant). Roedd ymatebwyr mewn ysgolion uwchradd yn llawer mwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion cynradd o fod yn anfodlon ar y marcio (11 y cant, o'i gymharu â dau y cant). Fodd bynnag, dim ond tri y cant o'r ymatebwyr i gyd oedd yn anfodlon ar y marcio.

**Ffigur 2.16 Boddhad cyffredinol gyda'r gwaith o farcio'r PDRhC a gynhaliwyd yn yr ysgolion (yr holl ymatebwyr)** ~ yn dynodi llai na 0.5% (mae anfodlon iawn ac eithaf anfodlon wedi eu dangos gyda'i gilydd ar y tabl hwn am mai ychydig iawn a oedd yn anfodlon, er eu bod yn opsiynau ar wahân yn yr arolwg)




Sail y sampl mewn cromfachau *Rhybudd: sail y sampl yn fach

2.97 Yn ystod y cyfweliadau trylwyr, dywedodd nifer o'r ysgolion a'r Cefnogwyr Profion y byddai'n well ganddynt i'r marcio a'r safoni gael ei wneud yn allanol a hynny gan fwrdd arholi a benodir gan Lywodraeth Cymru. Byddai hyn yn sicrhau bod y profion yn cael eu marcio a'u safoni'n gyson, yn lleihau'r pwysau ar yr ysgolion i'w marcio, ac yn rhoi'r lefel briodol o bwysigrwydd i'r profion. Roedd rhywfaint o bryder y dylai'r profi fod yn ddiduedd:

> ‘Mynegodd rhai ysgolion bryder ynglŷn â'r ffaith bod y profion wedi eu gweinyddu gan yr ysgolion eu hunain a'u bod yn cael eu gweld ymlaen llaw. Gellid camddefnyddio hynny er mwyn i'r plant edrych yn well.' Cefnogwr Profion

**Astudiaeth Achos: Ysgol Cyfrwng Saesneg, Uwchradd, De-ddwyrain**

Am fod yr ysgol yn un fawr, cafodd gweithrediad y PDRhC ei oruchwylio gan sawl aelod o'r tîm Cymorth Dysgu, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cymorth (sy'n Bennaeth Cynorthwyol). Gan fod y tîm wedi cynnal profion tebyg o'r blaen (gan gynnwys prawf lleol cyfatebol a phrofion rhifedd Alfiesoft), aeth y dasg o drefnu'r profion yn naturiol iddynt hwy.

Roedd yr ysgol yn ymwybodol o gyflwyniad y PDRhC ymhell ymlaen llaw, trwy eu rhan yng ngweithrediad y profion lleol cyfatebol, a chyhoeddiadau Llywodraeth Cymru. Er mwyn paratoi ar gyfer y profion, defnyddiodd yr ysgol y llawlyfr, y taflenni a'r deunyddiau sampl gan Lywodraeth Cymru. Teimlwyd bod yr adnoddau hyn yn gynhwysfawr ond yn gryno. Un argymhelliad a wnaed oedd y dylid darparu mwy o ddeunyddiau sampl. Roedd cyswllt penodol ar gael i'r ysgol yn SCYA i gynnig unrhyw gymorth perthnasol - teimlwyd bod hyn yn fuddiol wrth ymdrin â materion cysylltiedig â chyllid, a chofnodi sgoriau profion.

Er mwyn osgoi pryder dianghenraid ymysg y dysgwyr, dewisodd yr ysgol beidio â rhoi gwybod i rieni am y PDRhC, a dim ond dweud wrth y dysgwyr y byddent yn cael 'asesiad'. Defnyddiwyd y profion wedi eu haddasu ar gyfer dysgwyr â nam ar eu golwg, ac nid oedd angen i ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig sefyll y prawf. Safodd rhai dysgwyr y prawf mewn ystafelloedd ar eu pen eu hunain, yn unol â pholisïau safonol yr ysgol, er mwyn lleihau pryder, a chynigiwyd amser ychwanegol i eraill. Teimlwyd bod y cyfarwyddyd ar addasu, datgymhwyso ac amgylchiadau arbennig yn eglur ac yn syml.

Penododd yr ysgol Gynorthwy-ydd Dysgu a oedd yn gweithio yn yr ysgol eisoes i reoli gweithrediad y profion o ddydd i ddydd, er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd yn esmwyth. Gwelwyd hyn yn un o’r ffactorau allweddol a arweiniodd at weithredu’r profion yn llwyddiannus oherwydd: 'Os na fyddai gennym ni rywun o'r fath byddai wedi bod yn gur pen ychwanegol i'r swyddog arholiadau'. Roedd y profion yn cael eu monitro gan oruchwylwyr annibynnol. Fodd bynnag, roedd aelodau uwch y tîm Cymorth Dysgu'n bresennol hefyd pan oedd y profion yn cychwyn er mwyn egluro'r broses arholi a'r cwestiynau ymarfer i ddysgwyr.

Un o'r prif heriau i'r ysgol oedd logisteg cynnal y profion o fewn amserlen fer yn ystod amserlen yr arholiadau:

> ‘Dim ond logisteg ei gynnal, cael y plant i'w wneud, gwneud y prawf yn ymarferol. Mae'r ysgol gyfan ar stop gyda phethau fel hyn'.

Oherwydd yr argymhelliad y dylai'r dysgwyr sefyll y prawf ar yr un pryd, roedd y materion logistaidd hyn yn golygu y bu raid cynnal y profion yn neuadd yr ysgol, yn hytrach nag yn yr ystafelloedd dosbarth lle y byddai'r dysgwyr yn teimlo'n fwy cyfforddus. Mae'r ysgol yn ystyried gohirio'r amserlen yn y dyfodol, er mwyn sicrhau y gellir cynnal y profion mewn lleoliad mwy cyfforddus.

Her arall sylweddol a wynebwyd oedd marcio'r profion. Er mwyn ymateb i bryderon yr undeb, talodd yr ysgol i aelodau staff (athrawon ac aelodau staff nad oeddent yn athrawon oedd â TGAU gradd C neu uwch mewn Saesneg a Mathemateg) i farcio'r papurau yn eu hamser eu hunain. Cafodd yr aelodau staff eu talu am bob papur a oedd yn cael ei farcio, ac roedd y taliadau'n wahanol am y papurau llythrennedd a rhifedd i ddechrau, yn unol â chyfarwyddyd ynglŷn â’r amser priodol ar gyfer marcio. Fodd bynnag, roedd yr aelodau staff yn teimlo bod y papurau rhifedd yn cymryd mwy o amser i'w marcio, ac felly bu'n rhaid cynyddu'r taliadau. Oherwydd ein bod ni wedi defnyddio ysgogiad ariannol, nifer fawr yr aelodau staff a phrinder yr amser a oedd ar gael i safoni'n fewnol, roedd yr ysgol yn gweld bod anghysondebau mawr yn y marcio. Roeddent yn teimlo y byddai’n fanteisiol i’r profion gael eu marcio a’u safoni allanol yn y dyfodol.

Manteisiodd yr ysgol ar eu tîm mawr o Gynorthwywyr Cymorth Dysgu i gofnodi a llwytho'r canlyniadau ar y system, ac roedd hon yn ymddangos yn system effeithiol o ymdrin â'r swm sylweddol o ddata. Sylwyd, fodd bynnag, nad oedd y data a dderbyniwyd mewn ymateb i'r wybodaeth a gafodd ei llwytho ar y system yn cael ei ddarparu yn y fformat mwyaf priodol.

Oherwydd hynny, cafodd y data ei drosi'n sgoriau mwy priodol (megis oed darllen) gan yr ysgol. Cymerodd y broses hon lawer o amser

> 'Fe gawsom ni'r sgoriau eu hunain ac roedd yn rhaid inni ddefnyddio llawlyfr i drosi popeth ac rydw i'n meddwl bod hynny'n peri cryn anhawster.'

Roedd yr ysgol hefyd yn siomedig nad oedd canlyniadau'r profion bob amser ar gael ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, ac nad oedd canlyniadau dysgwyr blwyddyn chwech yn cael eu darparu.

Mae'r ysgol hefyd wedi dechrau defnyddio'r sgoriau wedi eu trosi yn barod, ochr yn ochr â dulliau eraill o fesur gallu, er mwyn canfod unrhyw ymyriadau y gallai fod ar ddysgwyr eu hangen ym mhynciau craidd Saesneg a Mathemateg. Maent hefyd wedi dechrau defnyddio'r canlyniadau i fesur gallu'r dysgwyr ac wedi rhannu'r sgoriau gyda rhieni (roedd rhai ohonynt yn mynegi pryderon). Fodd bynnag, maent yn ymwybodol mai dim ond 'cipolwg' y mae'r data presennol yn ei ddarparu:

> 'Dydym ni ddim wedi mynd dros ben llestri yn ei werthuso. Rydym ni'n ystyried bod iddo hygrededd ond dydym ni ddim yn ei weld, ynddo'i hun, yn arwydd o lwyddiant neu fethiant plant yn y ddau faes yma.'

Pan fydd data blynyddol rheolaidd ar gael, mae'r ysgol yn bwriadu defnyddio hwn i'w meincnodi eu hunain o'u cymharu ag ysgolion eraill, mesur cynnydd disgyblion a chanfod tueddiadau mewn carfannau, ac er mwyn cynllunio'r ymyriadau cefnogol angenrheidiol.

*Dulliau o gofnodi data*

2.98 Dim ond sgoriau crai o'r profion llythrennedd a gofnodwyd yn *system gwybodaeth reoli'r* ysgol ar gyfer profion mis Mai 2013, a'u llwytho wedyn ar Fenter Cyfnewid Data Cymru. Cafodd sgoriau crai o'r profion rhifedd eu llwytho i Borth Ysgol SCYA ar ffurflen casglu data y gellid ei lawrlwytho. Defnyddiwyd dau borth yn 2012/13 gan nad oedd yn bosibl datblygu un porth cyffredin yn yr amser a oedd ar gael cyn cofnodi'r data.

2.99 Roedd y canlyniadau'n dangos bod staff ar wahân i'r athrawon, sy'n gweithio yn yr ysgol yn rheolaidd, yn fwy tebygol o fod wedi cofnodi data ar y system gwybodaeth reoli (63 y cant o'r holl ymatebwyr) nag athrawon cymwysedig sy'n gweithio yn yr ysgol yn rheolaidd (46 y cant).

2.100 Yn unol ag agweddau eraill y broses PDRhC, roedd ysgolion uwchradd yn llawer mwy tebygol o ddefnyddio aelodau staff eraill nag ysgolion cynradd (75 y cant, o'i gymharu â 61 y cant). Roedd ysgolion cynradd ddwywaith yn fwy tebygol nag ysgolion uwchradd o fod wedi defnyddio athrawon cymwysedig (51 y cant, o'i gymharu ag 20 y cant).

2.101 Roedd ysgolion uwchradd yn fwy tebygol o ddefnyddio aelodau staff allanol i gofnodi data nag ysgolion cynradd, ond mae'r ganran a wnaeth hynny yn dal

yn isel iawn (tri y cant a ddefnyddiodd aelodau staff allanol cymwysedig; defnyddiodd dau y cant aelodau staff allanol nad oeddent yn gymwysedig, o'i gymharu â chanran gyfunol o lai na hanner canran mewn ysgolion cynradd).


2.102 Gwelwyd patrwm tebyg o ran cofnodi canlyniadau PDRhC ar borth SCYA. Eto, defnyddiwyd aelodau staff yr ysgol nad oeddent yn athrawon gan 63 y cant ac athrawon cymwysedig gan 46 y cant.

2.103 Er bod ysgolion uwchradd yn fwy tebygol o fod wedi defnyddio aelodau staff eraill nag ysgolion cynradd i wneud y gwaith o gofnodi data ar borth SCYA, yn yr un modd â system gwybodaeth reoli’r ysgol, (70 y cant o'i gymharu â 61 y cant), nid yw'r gwahaniaeth yn un ystadegol arwyddocaol yn yr achos hwn.

2.104 Eto, roedd ysgolion cynradd ddwywaith yn fwy tebygol nag ysgolion uwchradd o fod wedi defnyddio athrawon cymwysedig er mwyn cofnodi data ar y porth SCYA (50 y cant o'i gymharu â 25 y cant).

**Ffigur 2.17 Aelodau staff a ddefnyddiwyd i gofnodi canlyniadau'r PDRhC, ymatebion lluosog, gan roi awgrymiadau (yr holl ymatebwyr)**

~ yn dynodi llai na 0.5%





Sail y sampl mewn cromfachau *rhybudd: sail y sampl yn fach[8]

[8] Nid oedd 9% o ysgolion arbennig yn gwybod pwy gofnododd y data yn system gwybodaeth reoli’r ysgol, nid oedd 16% o ysgolion arbennig yn gwybod pwy gofnododd y data ym mhorth SCYA.

2.105 Ar gyfartaledd, treuliodd staff ym mhob ysgol ychydig yn llai na phum awr (4.7) yn cofnodi canlyniadau'r PDRhC ar system gwybodaeth reoli'r ysgol. Roedd yr oriau a dreuliwyd ar gyfartaledd yn cofnodi canlyniadau PDRhC ar borth SCYA'r ysgol ychydig yn is (4.4 awr).

2.106 Yn y naill achos a'r llall, treuliodd staff ysgolion uwchradd fwy o amser na staff ysgolion cynradd yn gwneud hyn, fel y dengys Ffigur 2.18.

**Ffigur 2.18 Nifer yr oriau a dreuliwyd yn cofnodi canlyniadau PDRhC ar gyfartaledd (yr holl ymatebwyr, lle'r oedd ateb wedi ei roi)**





Seiliau mwyaf y sampl mewn cromfachau *rhybudd: sail y sampl yn fach

2.107 Yn gyffredinol, roedd cyfran yr amser a dreuliwyd gan staff ar gofnodi data yn debygol o fod wedi ei rhannu'n gyfartal rhwng yr uwch dîm rheoli a'r staff cymorth, gyda llai na 10 y cant o gyfanswm yr amser yn cael ei neilltuo i athrawon (gweler Ffigur 2.19).

2.108 Mewn ysgolion uwchradd, neilltuwyd cyfran lawer uwch o'r amser a dreuliwyd yn cofnodi canlyniadau i'r staff cymorth, o'i gymharu ag ysgolion cynradd. Roedd ysgolion uwchradd yn amcangyfrif bod 72 y cant o gyfanswm yr amser a gymerwyd i gofnodi data ar system gwybodaeth reoli'r ysgol wedi ei dreulio gan staff cymorth o'i gymharu â 34 y cant mewn ysgolion cynradd. Yn yr un modd, roedd ysgolion uwchradd yn amcangyfrif bod 65 y cant o gyfanswm yr amser a gymerwyd i gofnodi data ar y porth SCYA wedi ei dreulio gan staff cymorth o'i gymharu â 35 mewn ysgolion cynradd. Roedd cyfran yr amser a dreuliwyd ar y dasg hon gan staff rheoli uwch yn yr ysgolion uwchradd yn is nag yr oedd mewn ysgolion cynradd (16 y cant ar system gwybodaeth reoli'r ysgol, 23 y cant ar y porth SCYA i ysgolion uwchradd; o'i gymharu â 43 y cant ar gyfer y ddau mewn ysgolion cynradd).

**Ffigur 2.19 Cyfran yr amser a dreuliwyd yn cofnodi canlyniadau'r PDRhC (yr holl ymatebwyr, lle y nodwyd ymateb)**





Sail y sampl = 550

2.109 Pan ofynnwyd pa mor fodlon yr oeddent ar y ffordd yr oedd eu hysgol wedi cofnodi'r canlyniadau ar y gwahanol systemau/pyrth, roedd 84 y cant o'r ymatebwyr yn eithaf bodlon/bodlon iawn ar y ffordd yr oedd y data wedi ei gofnodi ar system gwybodaeth reoli'r ysgol ac roedd 83 y cant yn eithaf bodlon/bodlon iawn ar y ffordd y cofnodwyd data ar borth SCYA.

2.110 Dim ond saith y cant o'r ymatebwyr a oedd yn anfodlon ar y ffordd y cofnodwyd data ar system gwybodaeth reoli'r ysgol ac roedd wyth y cant yn anfodlon ar y ffordd y cofnodwyd y canlyniadau ar borth SCYA.

2.111 Nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol yng nghyfradd y boddhad yn ôl y math o ysgol, rhanbarth na chyfrwng iaith.

**Ffigur 2.20 Boddhad gyda chofnodi data ar SGR yr ysgol a phort SCYA (yr holl ymatebwyr)**




Sail y sampl = 550

2.112 Pan ofynnwyd beth oedd y prif heriau yr oedd eu hysgol wedi eu hwynebu wrth gofnodi'r canlyniadau ar wahanol systemau/pyrth, roedd yr ymatebwyr yn fwyaf tebygol o nodi diffyg staff ac amser (SGR yr ysgol: 17 y cant; porth SCYA: 18 y cant). Crybwyllodd cyfran ychydig yn is yr her o ddeall sut i ddefnyddio'r system (SGR yr ysgol: 14 y cant; porth SCYA: 14 y cant).

2.113 Roedd oedd bron i hanner yr ymatebwyr heb weld unrhyw heriau (system gwybodaeth reoli'r ysgol: 48 y cant; porth SCYA: 46 y cant).

# 3 Sut mae ysgolion yn defnydddio ac yn bwriadu defnyddio canlyniadau'r PDRhC

3.1 Mae'r bennod hon yn edrych ar y ffordd y mae ysgolion wedi defnyddio canlyniadau'r PDRhC hyd yn hyn a'u cynlluniau ar gyfer defnyddio'r data yn y dyfodol.

## Defnyddio canlyniadau'r PDRhC

*Defnyddio sgoriau disgyblion unigol*

3.2 Mae ysgolion wedi defnyddio sgoriau disgyblion mewn amrywiaeth o ffyrdd; fodd bynnag mae'r gyfran uchaf (93 y cant) wedi anfon y sgoriau at rieni'r disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi defnyddio sgoriau'r disgyblion i gyfrannu at gynlluniau addysgu (86 y cant), i gyfrannu at dargedau disgyblion, i adnabod gwendidau disgyblion a chynllunio ymyriadau (85 y cant), ac i ddarparu mwy o gymorth wedi ei dargedu i ddysgwyr (82 y cant).

> ‘Fe wnaethom ni ddefnyddio'r sgoriau i adnabod y plant a allai fod wedi colli tir o'i gymharu â'u cyfoedion ac fe wnaethom ni drefnu sesiynau 'grŵp' i helpu'r plant yma i ennill tir. Rhoddwyd gweithgareddau mwy heriol i'r plant a gafodd sgôr uchel er mwyn eu gwthio ymlaen. Roedd modd inni grwpio'r plant oedd â sgôr tebyg gyda'i gilydd ar gyfer gweithgareddau penodol.' Arweinydd PDRhC, Cynradd, cyfrwng Cymraeg

3.3 Mae tri o bob pump o’r ymatebwyr wedi rhannu'r canlyniadau gydag ysgolion eraill, megis ysgolion newydd/ysgolion uwchradd y plant (60 y cant). Mae'r gyfran hon yn llawer uwch mewn ysgolion cynradd nag ysgolion uwchradd (67 y cant o'i gymharu â 22 y cant).

3.4 Roedd ysgolion arbennig yn llai tebygol o fod wedi defnyddio sgoriau disgyblion mewn unrhyw rai o'r ffyrdd penodedig. Roedd y cyfweliadau trylwyr yn awgrymu mai'r rheswm am hyn oedd am fod mwy o ddisgyblion yn cael eu datgymhwyso mewn ysgolion arbennig, sy'n golygu bod ganddynt lai o ddata i'w ddefnyddio.

3.5 Yn y cyfweliadau trylwyr gydag ysgolion, Swyddogion Monitro Profion Rhanbarthol a Chefnogwyr Profion, gwelwyd bod ysgolion weithiau'n anhapus gyda'r amser y rhyddhawyd y canlyniadau gan nad oeddent wedi eu derbyn tan ddiwedd y tymor. Oherwydd hynny, roedd y rhieni'n derbyn canlyniadau'r profion ar eu pen eu hunain, ar ôl iddynt dderbyn adroddiad ysgol eu plentyn fel arfer:

> ‘Cafodd ysgolion drafferth yn anfon eu hadroddiadau’n brydlon y llynedd, am nad oeddent wedi cyrraedd yr ysgol tan wythnos olaf y tymor. Yn amlwg roeddent wedi anfon eu hadroddiadau ysgol erbyn hynny.’ Swyddog Monitro Profion Rhanbarthol


3.6 Roedd yr ysgolion yn credu ei bod yn bwysig i rieni dderbyn canlyniadau'r PDRhC ar yr un pryd ag adroddiad yr ysgol er mwyn gallu eu dehongli a'u trafod yn yr adroddiad neu mewn nosweithiau rhieni. Roedd pryder y gallai rhieni gamddehongli'r canlyniadau heb y dehongliad ychwanegol hwn:

> ‘Anfonwyd adroddiadau am hyn at y rhieni a'r peth cyntaf maen nhw’n mynd i'w wneud yw dod i ddweud, "Roedden nhw'n 124 y llynedd, pam mai dim ond 111 ydyn nhw erbyn hyn?" Arweinydd PDRhC, Cynradd, cyfrwng Saesneg

> ‘Fe wnaethom ni argraffu'r allbrintiau a chynnwys nodyn gan yr ysgol - a dosbarthu'r cyfan i'r rhieni. Cafodd canlyniadau'r disgyblion unigol eu cynnwys mewn amlenni wedi eu selio. Mae manteision ac anfanteision i hyn... byddai'n well cyfarfod y rhieni wyneb yn wyneb.' Arweinydd PDRhC, Cynradd, cyfrwng Cymraeg.

> ‘Mae rhieni eisiau gwybod canlyniadau eu plentyn a sut maen nhw’n cymharu ag eraill, a dyna lle mae angen bod yn ofalus. Mae llawer o ysgolion wedi rhoi eglurhad o'r profion mewn cyfarfodydd a gynhelir cyn i ddisgyblion gychwyn ac yn ystod y cyfarfodydd a gynhelir gyda rhieni yn yr haf. Cafodd y papur hefyd ei gynnwys yn adroddiad diwedd y flwyddyn. Rydym ni'n ceisio cyfuno canlyniadau ac adroddiad, ond mae gwaith ar ôl i'w wneud ar hynny. Mae'n rhaid i sgoriau'r profion fod allan ac wedi eu hanfon yn ôl i ysgolion cyn i'r adroddiadau gael eu gorffen, a wnaeth hynny ddim digwydd. Roedd yn dynn.' Swyddog Monitro Profion Rhanbarthol

**Ffigur 3.1** **Sut mae ysgolion wedi defnyddio sgoriau disgyblion unigol (gan gynnwys sgôr safonedig a sgôr sy'n cyfateb i oedran) - ymatebion lluosog, ag awgrymiadau (yr holl ymatebwyr)**




Sail y sampl mewn cromfachau *rhybudd: sail y sampl yn fach

3.7 Gwelwyd o'r cyfweliadau trylwyr hefyd bod gan yr ysgolion gynlluniau i ddefnyddio mwy ar y data yn y dyfodol pan fydd modd iddynt gymharu o flwyddyn i flwyddyn er mwyn monitro cynnydd plentyn. Roedd ysgolion yn arbennig o gadarnhaol ynglŷn â'r posibilrwydd hwn ac roedd llawer yn gweld hyn yn un o fanteision allweddol y profion:

> ‘Dros amser bydd modd inni ddadansoddi 'cronfa' o sgoriau y gellir eu defnyddio i helpu'r ysgol i wella. Ar hyn o bryd, nid oes gennym ni ganlyniadau o flwyddyn i flwyddyn i edrych arnynt. Yn y dyfodol bydd

> modd inni dracio disgyblion a monitro eu datblygiad. Bydd hyn yn golygu y bydd rhieni'n manteisio o adborth mwy trylwyr, yn arbennig mewn enghreifftiau lle bydd angen cymorth ychwanegol ar blentyn. Bydd modd inni gyfiawnhau'r angen am adnoddau o'r fath am ei bod yn bosibl cymharu'r canlyniadau. Mae'r ffaith bod y profion yn rhai cenedlaethol yn golygu y bydd y wybodaeth a roddir i rieni yn fwy manwl ac yn amlinellu anghenion y plentyn. Bydd hyn yn help mawr, am ei fod yn gyson. Bydd y wybodaeth yn gwella a gellir targedu meysydd i'w gwella - er enghraifft, os bydd nifer nodedig o blant yn camddeall cwestiwn penodol neu wedi cael math o destun penodol yn anodd, gallwn weithio gyda hynny, oherwydd y bydd yn fwy posibl dod o hyd i ffordd ymlaen.' Arweinydd PDRhC, Cynradd, cyfrwng Cymraeg

*Y defnydd y bwriedir ei wneud o ddata cyfunol/ar lefel ysgol*


3.8 O ran sut mae’r ymatebwyr yn bwriadu defnyddio'r data cyfunol/ar lefel ysgol yn y dyfodol, roeddent yn fwyaf tebygol o nodi eu bwriad i’w ddefnyddio i gyfrannu at gynlluniau addysgu (86 y cant) a chyfrannu at ddatblygiad y cwricwlwm (86 y cant). Dywedodd rhywfaint yn llai o ymatebwyr (83 y cant) y bydd eu hysgolion yn defnyddio'r data i wella ymarfer yn y dosbarth, i adnabod meysydd i wella aelodau staff (75 y cant), ac i adnabod problemau rheoli yn yr ysgol (71 y cant).

3.9 Roedd ymatebwyr mewn ysgolion cynradd yn llawer mwy tebygol na'r rhai mewn ysgolion uwchradd i ddweud bod eu hysgol yn bwriadu defnyddio'r data i adnabod meysydd i ddatblygu aelodau staff (78 y cant, o'i gymharu â 64 y cant) ac i fonitro perfformiad aelodau staff (61 y cant, o'i gymharu â 30 y cant). Mae hyn yn awgrymu bod ysgolion cynradd yn llawer mwy tebygol o ddefnyddio'r data fel ffordd o feirniadu pa mor dda yw perfformiad aelodau staff. Dangosodd y cyfweliadau trylwyr a gynhaliwyd gydag ysgolion a Swyddogion Monitro Profion Rhanbarthol fod ysgolion wedi canolbwyntio eu gweithgareddau cychwynnol ar ddefnyddio'r data er mwyn gwella'r cymorth i ddysgwyr. Roeddent bellach hefyd yn dechrau defnyddio'r data i edrych ar berfformiad aelodau staff, ond roedd hyn yn dal yn ei gyfnod cynnar:

> ‘Roedd y profi'n cefnogi asesiadau athrawon, ac roedd teimlad y gallai gysylltu'n fwy uniongyrchol er mwyn cynorthwyo i asesu athrawon os dymunir gweld cysondeb yn y profion ar gyfer y dyfodol.' Swyddog Monitro Profion Rhanbarthol

**Ffigur 3.2 Sut mae'r ysgolion yn bwriadu defnyddio'r data cyfunol/ar lefel ysgol yn y dyfodol - ymateb lluosog, ag awgrymiadau (yr holl ymatebwyr)**

**Bydd yr ysgol yn ei ddefnyddio…**




Sail y sampl mewn cromfachau *rhybudd: sail y sampl yn fach

3.10 Pan ofynnwyd sut roedd ymatebwyr yn credu y bydd canlyniadau PDRhC 2013 yn dylanwadu ar y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm, ar ymarfer addysgu ac ar ddatblygiad staff yn y dyfodol, roedd ymatebwyr yn yr arolwg yn fwyaf tebygol o ddweud y bydd yn newid dulliau/cynlluniau cwricwlwm/addysgu (24 y cant). Yn ogystal, ystyriwyd y byddai'n debygol y byddai'r canlyniadau'n fodd iddynt weld cynnydd disgyblion yn fwy eglur ac adnabod cryfderau a gwendidau (mewn 15 y cant o'r achosion), yn ogystal â chynorthwyo gyda chynlluniau datblygu

ysgol/hunanwerthuso/safonau'r ysgol/perfformiad staff (mewn 14 y cant o'r achosion).

3.11 Yn unol â chanfyddiadau eraill, roedd ysgolion cynradd yn llawer mwy tebygol nag ysgolion uwchradd o deimlo y bydd y canlyniadau'n cynorthwyo gyda chynlluniau datblygu’r ysgol ac wrth werthuso safonau a pherfformiad (16 y cant, o'i gymharu â phump y cant mewn ysgolion uwchradd).

**Ffigur 3.3 Sut bydd canlyniadau PDRhC 2013 yn dylanwadu ar waith cynllunio cwricwlwm, ymarfer addysgu a datblygiad staff yn y dyfodol - ymatebion lluosog, heb roi awgrymiadau (yr holl ymatebwyr)**




Sail y sampl = 550

3.12 Dywedodd y Swyddogion Monitro Profion Rhanbarthol fod y gwaith yn dal i fynd yn ei flaen yn y rhan fwyaf o ysgolion ac ardaloedd er mwyn penderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio'r data. Roedd ysgolion yn derbyn amrediad o gymorth gan eu Consortia Rhanbarthol er mwyn gwneud hyn, gan gynnwys sefydlu cronfeydd data fel bod modd cymharu, a chael cymorth arweinwyr y system i adnabod meysydd i'w gwella.

### Cyflwyno sgôr y profion yn yr ysgol

3.13 Dywedodd ysgolion a Swyddogion Monitro Profion Rhanbarthol a gafodd eu cyfweld yn drylwyr bod yn well ganddynt ddefnyddio'r sgoriau safonedig yn hytrach na'r sgoriau yn ôl oedran. Roedd hyn am eu bod yn credu bod y sgoriau safonedig yn caniatáu cymariaethau tecach a oedd yn llai agored i'w dehongli:

> ‘Rydym ni wedi hyrwyddo'r defnydd o'r sgoriau safonedig yn hytrach na'r sgoriau sy'n cyfateb i oedran erioed, a defnyddio'r sgoriau hynny wedyn i edrych ar ddiffygion yn yr addysgu, y pethau nad ydynt yn cael eu dysgu, ond wedyn targedu'r grwpiau o ddysgwyr er mwyn darparu cymorth ychwanegol.’ Swyddogion Monitro Profion Rhanbarthol

> ‘Mae'r ysgol yn dweud wrthych chi, “Ydi, mae eich plentyn chi'n gwneud yn iawn, mae'n darllen cystal ag y dylai fod.” Mae hynny'n haws ei egluro, ond pan fydd rhiant yn gweld deg pwynt chwech a deg pwynt dau, dydy hynny ddim yn cyfleu'r darlun cyfan.' Swyddogion Monitro Profion Rhanbarthol

### Gwella'r data

3.14 Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd unrhyw beth y gellid ei wneud fel bod y canlyniadau'n fwy cyfleus i ysgolion, roeddent yn fwyaf tebygol o nodi cael gwybodaeth/canlyniadau'n gynharach (19 y cant). Roedd y gyfran hon yn fwyaf uchel yn rhanbarth Canol De Cymru (24 y cant) a’r Gogledd (23 y cant) ac yn fwyaf isel yn y De-orllewin a'r Canolbarth (13 y cant).

3.15 Hwn oedd yr awgrym a gafodd ei fynegi amlaf ar gyfer gwelliant. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys:

- gwella fformat y profion/canlyniadau (saith y cant);

- gwell adnoddau diagnostig/dadansoddol (chwech y cant);
- canlyniadau mwy cywir, cyson, dibynadwy, diweddar (pump y cant);
- gwell safoni (pump y cant);
- defnyddio'r un fformat ar gyfer llythrennedd/darllen a rhifedd (pedwar y cant);
- rhoi llai o bwyslais ar oedran (tri y cant); a
- mwy o ganllawiau/eglurhad ar gyfer y profion/canlyniadau (tri y cant).

3.16 Roedd awgrymiadau eraill ar gyfer gwelliant a grybwyllwyd gan un neu ddau y cant o'r ymatebwyr yn cynnwys:


- mwy o help/ hygyrchedd ar gyfer plant sydd dan anfantais/plant anghenion arbennig;
- marcio allanol;
- iaith fwy syml/ hawdd ei deall;
- sut y dylid sgorio myfyrwyr sy'n absennol/wedi eu datgymhwyso;
- gwella'r dull o sgorio;
- cymharu/rhannu canlyniadau rhwng ysgolion;
- dadansoddi'r data;
- llai o waith papur;
- cysylltu â lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol;
- ei wneud yn fwy perthnasol i'w dull nhw/dull dysgu arferol disgyblion; a
- gwneud y profion yn haws.

3.17 Pan ofynnwyd iddynt yn agored pa ran o'r broses PDRhC y byddent yn hoffi cael mwy o wybodaeth amdani, mae'r rhestr yn hir ac yn amrywiol, ond ni wnaeth mwy nag un o bob wyth o'r ymatebwyr ganolbwyntio ar unrhyw un elfen o'r broses.

3.18 Crynhoir eu hymatebion yn Ffigur 3.4. Mae'n werth nodi mai 12 y cant o'r ymatebwyr a ddywedodd, heb roi unrhyw awgrymiadau iddynt, y byddent yn hoffi mwy o wybodaeth i helpu i hysbysu'r rhieni am y profion, o'i gymharu â 64 y cant a oedd wedi mynegi cyn hynny, pan awgrymwyd yr ateb, y byddent yn hoffi mwy o wybodaeth er mwyn hysbysu rhieni.

**Ffigur 3.4 Rhannau o'r broses PDRhC y byddai ymatebwyr eisiau mwy o wybodaeth amdanynt - ymatebion lluosog, heb roi awgrymiadau (yr holl ymatebwyr)**

*yn dynodi llai na 0.5% Sail y sampl = 550



| **Astudiaeth Achos: Ysgol Cyfrwng Saesneg, Cynradd, Canol De Cymru** |
|---|
| Cafodd gweithrediad y PDRhC yn yr ysgol ei oruchwylio gan y Pennaeth, gyda chefnogaeth gan y Dirprwy Bennaeth. Cawsant wybod am y profion yn y lle cyntaf drwy fynd i ddigwyddiad lansio. Fodd bynnag, ystyriwyd bod lefel y wybodaeth a ddarparwyd yn y digwyddiad hwn yn annigonol ar y cyfan. Roedd maint y lansiad a'r angen i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn golygu nad oedd digon o amser i ddod i ddeall y manylion ac i ofyn cwestiynau. Edrychwyd ar y wefan i gael gwybodaeth ychwanegol, a defnyddiodd staff addysgu unigol y llawlyfrau, y taflenni ffeithiau a'r deunyddiau sampl a gafodd eu darparu hefyd. Er bod y deunyddiau sampl wedi bod yn ddefnyddiol, teimlwyd y dylai mwy ohonynt gael eu darparu.<br><br>Er mwyn sicrhau bod y profion yn cael eu gweinyddu'r un fath i bawb, dewisodd yr ysgol beidio â defnyddio'r papurau wedi'u haddasu, y broses ddatgymhwyso na'r amser ychwanegol. Er bod yr ysgol wedi ystyried cyfieithu'r profion ar gyfer rhai y mae Saesneg yn ail iaith iddynt, dim ond ar gyfer un o'r wyth ar hugain o ieithoedd a siaredir yr oedd modd i'w cynorthwy-ydd dwyieithog gyfieithu'r profion, ac felly teimlwyd y byddai hyn yn annheg. Roedd y Pennaeth yn teimlo bod y profion yn anaddas ar gyfer dysgwyr o'r fath ac roedd yn argymell mwy o hyblygrwydd i'w galluogi i sefyll papurau sy'n addas ar gyfer eu gallu yn hytrach na'u hoedran:<br><br>    'dylid cael mwy o hyblygrwydd i ddisgyblion allu sefyll papurau is os yn briodol a dylid eu cyfieithu ar gyfer pawb neu beidio â'u cyfieithu o gwbl.'<br><br>Roedd yr ysgol yn awyddus i beidio â rhoi gormod o bwyslais ar y profion wrth roi gwybod i rieni, ac felly gwnaed hynny'n bennaf trwy gylchlythyr yr ysgol. Cafwyd cyflwyniad hefyd i lywodraethwyr yr ysgol (gan gynnwys rhiant lywodraethwyr), a oedd yn gyfle i ofyn cwestiynau.<br><br>Un o'r heriau mwyaf a wynebwyd gan yr ysgol oedd yr amserlen fer a roddodd ychydig iawn o gyfle i baratoi'r ysgol a'r dysgwyr ar gyfer y profion. Oherwydd y diffyg paratoi, roedd y profion yn peri gofid i rai dysgwyr. Er mwyn gwneud amser ar gyfer y profion, argymhellwyd y dylid rhoi gwybod i ysgolion am yr amserlenni ymlaen llaw. Wynebodd yr ysgol heriau ychwanegol o ran ymarferoldeb cynnal y profion mewn ystafell ddosbarth. Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer blwyddyn dau, a safodd y profion mewn talpiau fesul tipyn, gan nad oedd digon o le i'r plant sefyll y profion ar yr un pryd. Roedd y broses dameidiog hon yn cymryd mwy o amser i'w gweinyddu (tua wythnos), ac yn golygu bod yn rhaid i'r rhai nad oeddent yn sefyll y prawf gael eu goruchwylio gan athro llanw yn lle bynnag oedd ar gael (er enghraifft, y neuadd neu'r cae chwarae):<br><br>    'Roedd yn anodd cynnal cwricwlwm arferol ar yr un pryd'.<br><br>Cafodd y profion eu marcio gan athrawon dosbarth, er mwyn iddynt ddod i ddeall sut mae eu dysgwyr yn dod yn eu blaenau. Cafodd y broses o gofnodi'r data ei chynnal gan staff gweinyddol, gyda'r athrawon a'r Pennaeth yn gweithio ar lunio adroddiadau am y data. Nododd y Pennaeth fod yr adeg y derbyniwyd y data safonedig wedi peri problemau i'r ysgol, gan nad oedd yn rhoi digon o amser i staff ei gynnwys yn gywir ac yn effeithiol yn adroddiadau safonol yr ysgol. Argymhellwyd felly y dylai'r canlyniadau gael eu darparu yn gynharach, erbyn diwedd mis Mehefin yn ddelfrydol.<br><br>Ar y cyfan, roedd yr ysgol yn anfodlon ar ddata'r canlyniadau safonedig a dderbyniwyd. Pwynt pwysig yw eu bod yn teimlo nad oedd yn bwrw llawer o oleuni ar allu dysgwyr, ac felly bu'n rhaid i'r Pennaeth ymgymryd â'r broses faith o'i drosi yn ddata y gellid ei ddefnyddio:<br><br>    'Â ninnau wedi cynnal y prawf, roedd yn rhwystredig i athrawon fod yn gwybod beth oedd y sgôr, ond heb unrhyw syniad o sut yr oedd yr ysgol yn gwneud mewn cyd-destun ehangach.'<br><br>Dywedodd y Pennaeth hefyd nad oedd y canlyniadau wedi cael eu cyflwyno yn y fformat |

mwyaf addas. Teimlwyd bod canlyniadau'r profion rhifedd yn gryno ac yn hawdd eu cymharu, a bod canlyniadau'r profion llythrennedd yn hirwyntog. Mae'n bwysig nod bod teimlad nad oedd angen darparu'r canlyniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Argymhellwyd hefyd y dylai canlyniadau'r profion llythrennedd, oherwydd eu hyd, gael eu darparu mewn ffeiliau ar wahân i bob plentyn.

Mynegodd y Pennaeth hefyd bryder ynghylch ansawdd a chywirdeb y data a gynhyrchwyd yn sgil y profion, yn enwedig y profion llythrennedd. Yn benodol, teimlwyd bod y canlyniadau yn drwm o blaid dysgwyr iau, ac felly roedd y Pennaeth yn pryderu na fyddai'r canlyniadau, dros amser, yn dangos unrhyw welliant o ran gallu.

Anfonwyd copi o'r canlyniadau safonedig, a llythyr eglurhaol cysylltiedig oddi wrth yr ysgol at yr holl rieni. Gan na dderbyniwyd unrhyw adborth gan rieni, roedd y Pennaeth yn pryderu nad oeddent yn eu deall o bosibl, oherwydd fformat y canlyniadau:

> 'Byddwn yn dweud nad oedd y canlyniadau'n arbennig o addas i blant mewn nifer o ffyrdd. Roedd llawer o ysgrifen ac roedd yn gymhleth iawn i rieni edrych arno'.

Argymhellwyd bod Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo i ddarparu adroddiadau cliriach ar gyfer rhieni yn y dyfodol. Yng ngoleuni eu pryderon ynglŷn ag ansawdd y data, awgrymwyd hefyd eu bod yn darparu esboniadau clir o unrhyw addasiadau a wneir i'r broses safoni ym mhrofion y dyfodol

> 'Rydw i'n credu bod angen i Lywodraeth Cymru fod yn glir iawn wrth egluro i rieni beth sydd wedi digwydd a pham mae unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud, os o gwbl.'

Er gwaethaf eu pryderon ynglŷn â chywirdeb y data (yn enwedig data'r profion llythrennedd), mae'r ysgol wedi dechrau ei ddefnyddio yn barod er mwyn canfod pa ymyriadau cefnogol y mae ar eu dysgwyr eu hangen. Fodd bynnag, nodwyd y bydd y data yn fwy defnyddiol iddynt pan fydd sawl carfan o ddata ar gael. Er bod yr ysgol yn bwriadu defnyddio'r data at ddibenion meincnodi hefyd, roeddent yn teimlo bod yr arweiniad a ddarparwyd yn rhy gyffredinol. Roeddent yn argymell y dylid cael mwy o fandiau na'r rhai a awgrymir.

3.19 Mae amrywiol welliannau a nodwyd trwy'r cyfweliadau trylwyr wedi eu trafod trwy'r adroddiad hwn. Yn yr arolwg meintiol, gofynnwyd yn benodol am awgrymiadau ynglŷn â gwneud pethau'n wahanol (mewn cysylltiad â'r broses o weithredu, marcio a chofnodi data'r PDRhC yn y dyfodol). Gofynnwyd i'r ymatebion, mewn cwestiwn agored, am eu dwy flaenoriaeth uchaf (er bod modd iddynt roi mwy na dwy). Roedd eu hawgrymiadau'n cynnwys:

| | |
|---|---|
| • dylai'r arholiadau a'r canlyniadau fod yn gynharach/mewn pryd | chwech y cant |
| • gwahanol ddull o farcio (marcio allanol) | pump y cant |
| • safoni mwy ar y prosesau | pedwar y cant |
| • mwy o gyllid ar gyfer adnoddau ychwanegol | pedwar y cant |
| • llwytho'r data ar un porth/system yn unig | tri y cant |
| • arholiadau mwy addas i blant gan fod plant yn cynhyrfu | tri y cant |
| • adolygu'r ffordd y cofnodir data (gan gynnwys yn allanol) | dau y cant |

- canllawiau mwy eglur ar bob agwedd — dau y cant
- mwy o amser i weinyddu'r profion/i baratoi'r plant — un y cant
- pryderon ynglŷn â phlant ag anghenion arbennig — un y cant
- mwy o brofion sampl sy'n debycach i'r profion eu hunain — un y cant
- edrych ar gyfyngiadau amser yr arholiadau — un y cant
- rhoi gwybod i rieni am y profion — un y cant
- peidio â rhoi profion i flwyddyn 2 — un y cant
- adolygu'r broses o weithredu'r profion — un y cant
- gwahaniaethu'r profion yn ôl gallu'r plant — un y cant
- adnoddau dadansoddi/ diagnostig er mwyn mesur perfformiad disgyblion — un y cant

3.20 Fodd bynnag, ni allai 24 y cant o'r ymatebwyr feddwl am un dim i'w newid. Dywedodd llawer o'r arweinwyr PDRhC, Swyddogion Monitro Profion Rhanbarthol a Chefnogwyr Profion a gafodd eu cyfweld yn drylwyr mai trafferthion cychwynnol oedd llawer o'r heriau a wynebwyd ym mlwyddyn gyntaf y profion, ac y byddai'r ysgolion yn cael cyfle i arfer gyda'r trefniadau a datblygu ar eu profiadau blaenorol pe byddai'r broses o weithredu'r profion yn aros yn eithaf tebyg yn y blynyddoedd i ddod.

> 'Mae problemau'n codi wrth weinyddu prawf am y tro cyntaf. Dydw i ddim yn credu y bydd y profion mor anodd yn y dyfodol'. Swyddog Monitro Profion Rhanbarthol

## 4 Casgliadau ac argymhellion

4.1 Mae'r adran olaf hon yn crynhoi canfyddiadau allweddol ac yn dod i gasgliadau ynglŷn â sut y gweithredwyd y PDRhC a'r defnydd a wneir o ddata'r profion. Gwneir hyn dan gyfres o benawdau sy'n seiliedig ar y cwestiynau ymchwil allweddol.

**Y graddau y cafodd y PDRhC eu gweinyddu fel a ragwelwyd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru.**

4.2 Dywedodd mwyafrif helaeth yr ysgolion a gymerodd ran yn yr arolwg (95 y cant) eu bod wedi gweithredu'r PDRhC fel a ragwelwyd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru a bod eu hysgol wedi cydymffurfio'n llwyr. Yn yr amgylchiadau lle nad oedd ysgolion yn cydymffurfio'n llwyr, roedd hyn yn dueddol o fod yn gysylltiedig ag ymdrech ysgolion i ddiwallu anghenion plant yr oedd ganddynt anghenion penodol (megis y rhai ag anghenion addysgol arbennig neu Saesneg fel ail iaith lle nad Cymraeg oedd eu hiaith gyntaf).

4.3 Roedd yr holl ymatebwyr wedi defnyddio rhyw fath o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru i'w cynorthwyo i weithredu'r profion. Fodd bynnag, y ffynhonnell a ddefnyddiwyd amlaf oedd y Llawlyfr Gweinyddu Profion (roedd 97 y cant yn dweud eu bod wedi ei ddefnyddio). Roedd yr ysgolion a gafodd gyfweliad trylwyr yn tueddu i weld y llawlyfr fel ffynhonnell graidd ac yn teimlo bod modd iddynt ddod o hyd i'r atebion i unrhyw gwestiwn ynddo. Fodd bynnag, roedd rhai ysgolion yn gweld budd mewn cadarnhau eu dehongliad o'r canllaw trwy gysylltu â'r Cefnogwyr Profion, SCYA, a Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn eu galluogi i weithredu'r profion yn fwy hyderus.

- **Argymhelliad: Parhau i ddarparu amrywiaeth o ddeunyddiau cyfredol i ysgolion ar weithredu'r PDRhC, gan egluro lle gellir cael mwy o wybodaeth os bydd ei hangen.**

**Barn y rhanddeiliaid a gymerodd ran ar y broses o weinyddu'r PDRhC a'r trefniadau a’r canllawiau i gefnogi hyn.**

4.4 Roedd rhan helaethaf yr ymatebwyr yn fodlon ar y canllawiau a ddarparwyd i gefnogi’r broses o weinyddu'r PDRhC. Dim ond un y cant o'r ymatebwyr oedd yn ystyried nad oedd y canllawiau a'r llawlyfrau a ddarparwyd yn berthnasol o gwbl i'r hyn yr oedd arnynt angen ei wybod. Dim ond pedwar y cant oedd yn ystyried nad oeddent yn effeithiol o gwbl o ran paratoi eu hysgol ar gyfer y PDRhC.

4.5 Roedd yr ymatebwyr rywfaint yn llai bodlon ar y deunyddiau prawf sampl, gyda thri y cant o'r ymatebwyr yn eu gweld yn amherthnasol a naw y cant yn teimlo nad oeddent yn effeithiol o gwbl o ran paratoi'r ysgol ar gyfer y PDRhC. Mae canfyddiadau'r cyfweliadau'n awgrymu y byddai'r ysgolion wedi hoffi amrywiaeth ehangach o ddeunyddiau sampl i'w defnyddio fel papurau ymarfer i helpu eu disgyblion i baratoi'n well ar gyfer y profion.

4.6 Yn gyffredinol, roedd y bobl a gymerodd ran yn yr arolwg ac yn y cyfweliadau trylwyr yn fodlon ar y negeseuon gan Lywodraeth Cymru, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn gweld y cymorth yn eglur, yn hawdd ei ddeall, yn berthnasol ac yn effeithiol o ran eu helpu i gyfathrebu a pharatoi ar gyfer y PDRhC. Y prif bryder ymysg yr ysgolion a gymerodd ran yn yr arolwg, y Swyddogion Monitro Profion Rhanbarthol a'r Cefnogwyr Profion a gafodd eu cyfweld yn drylwyr oedd amseroldeb y wybodaeth. Byddai'n well gan y mwyafrif ohonynt fod wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn â'r profion (ac eglurhad ynglŷn â datgymhwyso yn arbennig) yn gynharach yn y mis er mwyn eu helpu i baratoi.

- **Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag ysgolion er mwyn cyflwyno cymorth a chyfarwyddyd yn gynharach yn y flwyddyn ysgol i sicrhau bod athrawon a disgyblion yn y sefyllfa orau i baratoi ar gyfer y PDRhC.**

**Y patrymau a’r rhesymeg ar gyfer defnyddio profion wedi eu haddasu, trefniadau mynediad arbennig a datgymhwyso dysgwyr.**

4.7 Yn y cyfweliadau trylwyr a'r arolwg o arweinwyr PDRhC, canfuwyd mai'r brif her yr oedd yr ysgolion yn ei hwynebu wrth weithredu’r profion oedd datgymhwyso

ac, yn benodol, pwy y gellir ei ddatgymhwyso ac effaith hyn ar ganlyniadau'r ysgol. Dywedodd dau o bob pump (40 y cant) o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi defnyddio'r trefniadau datgymhwyso. Fodd bynnag, gallai'r rhif hwn fod yn cuddio'r ysgolion a ystyriodd ddefnyddio'r trefniadau datgymhwyso ond a ddewisodd beidio gan eu bod yn bryderus ynglŷn ag effaith hyn ar eu sgoriau cyfunol. Defnyddiwyd trefniadau datgymhwyso yn bennaf ar gyfer dysgwyr mewn amgylchiadau arbenigol eraill, megis disgyblion newydd, disgyblion a oedd yn sâl, a'r rhai nad oedd Cymraeg na Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Fodd bynnag, nodwyd y byddai rhai o'r dysgwyr hyn wedi gallu cymryd rhan yn y profion pe byddai cyfieithiadau i ddewis ehangach o ieithoedd wedi bod ar gael neu pe byddai ysgolion wedi cael dewis y profion yn seiliedig ar allu'r plentyn yn hytrach na'i oed, yn enwedig mewn ysgolion arbennig.

- **Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried:**
  **(1) sut y gellid bod yn fwy trylwyr, cyson ac eglur wrth benderfynu pwy sy'n gymwys i gael ei ddatgymhwyso; a**
  **(2) ystyried sut y gellir ymdrin ag achosion o ddatgymhwyso wrth hysbysu ynghylch canlyniadau profion fel nad ydynt yn achosi pryder i ysgolion y gallai llwyddiannau a pherfformiad gwirioneddol fod yn aneglur.**
- **Argymhelliad: Efallai yr hoffai Llywodraeth Cymru, yng ngoleuni ei hamcanion ar gyfer y rhaglen brofi yn ei chyfanrwydd, ystyried safbwyntiau rhai ysgolion, yn enwedig ysgolion arbennig, y dylai disgyblion allu sefyll profion sy'n briodol i lefel eu gallu fel y'i cydnabyddir gan eu hysgolion yn hytrach nag yn ôl eu hoedran yn unig.**

4.8 Roedd un o bob pump o'r ymatebwyr wedi defnyddio'r PDRhC wedi eu haddasu ac roedd hyn yn tueddu i fod wedi digwydd mewn ysgolion lle'r oedd dysgwyr â nam ar eu golwg neu anghenion addysgol arbennig. Ni ddefnyddiwyd y profion wedi eu haddasu gan bron i hanner (45 y cant) yr ysgolion â'u harchebodd. Mae'n bosibl bod ysgolion wedi archebu gormod ohonynt er mwyn sicrhau eu bod yn barod am flwyddyn gyntaf y profion, ond

wedi dewis peidio â'u defnyddio. Awgrymwyd yn rhai o'r cyfweliadau trylwyr mai problemau cychwynnol oedd y rhain yn y flwyddyn gyntaf a fyddai'n gwella yn y dyfodol.

**Sut y cafodd canlyniadau'r PDRhC eu prosesu a'u dosbarthu.**

4.9 Dywedodd y rhan fwyaf o'r ysgolion a arolygwyd eu bod wedi defnyddio athrawon cymwysedig a oedd yn gweithio yn yr ysgol yn rheolaidd i farcio'r PDRhC. Roedd y gyfran hon yn llawer uwch ymysg ymatebwyr a oedd yn gweithio mewn ysgolion cynradd na'r rhai mewn ysgolion uwchradd (93 y cant, o'i gymharu â 55 y cant), a hynny mae'n debyg oherwydd yr anawsterau a achoswyd gan benderfyniad yr undebau i beidio â chaniatáu i athrawon ysgol farcio'r papurau. Mewn achosion o'r fath, cyflogwyd aelodau staff allanol i wneud y gwaith marcio am gost ychwanegol i'r ysgol. Lle'r oedd ysgolion wedi defnyddio aelodau o'u staff eu hunain i farcio'r profion, roeddent yn dweud bod hyn yn fanteisiol gan ei fod wedi eu helpu i ddod i ddeall y profion a pherfformiad disgyblion unigol yn well. Fodd bynnag, gwelwyd o'r cyfweliadau trylwyr y byddai wedi bod yn well gan ysgolion, mewn nifer o achosion, i'r profion gael eu marcio a'u safoni'n allanol er mwyn sicrhau bod y cynllun marcio'n cael ei ddehongli'n gyson.

4.10 Cymerodd lawer mwy o amser i'r ymatebwyr farcio'r profion nag a amcangyfrifwyd yn y Llawlyfr Gweinyddu Profion, ac amcangyfrifodd ysgolion ei bod wedi cymryd awr yn fwy o'u hamser na'r disgwyl i farcio 30 o bapurau prawf.

4.11 Roedd mwyafrif helaeth (93 y cant) o'r ysgolion a gymerodd ran yn yr arolwg wedi anfon sgoriau'r profion at y rhieni. Fodd bynnag, roedd ysgolion yn bryderus ynglŷn ag amseriad rhyddhau canlyniadau'r profion. Byddai'n well gan y rhan fwyaf o'r ysgolion a gafodd gyfweliad trylwyr fod wedi derbyn y canlyniadau'n gynharach er mwyn gallu eu cynnwys yn adroddiadau diwedd y flwyddyn a nosweithiau rhieni, yn hytrach na gorfod eu hanfon ar eu pen eu hunain gan fod hynny'n rhoi mwy o le i'w camddehongli.

- **Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gallai'r broses farcio fod yn gyflymach a mwy cyson er mwyn cael gwared ar unrhyw bryderon ynghylch sut mae ysgolion yn dehongli'r**

**cynllun marcio a sicrhau bod canlyniadau ar gael yn gynharach yn nhymor yr haf.**

**Sut y bwriedir defnyddio'r PDRhC mewn ysgolion i addysgu, asesu, cynllunio cwricwlwm a monitro.**

4.12 Hyd yn hyn, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith a wnaed gan ysgolion ar ôl derbyn canlyniadau'r profion wedi canolbwyntio ar sgoriau unigol y prawf trwy anfon y canlyniadau at y rhieni (93 y cant), adnabod gwendidau penodol dysgwyr a chynllunio ymyriadau (85 y cant), a rhoi mwy o gymorth wedi ei dargedu i ddysgwyr (82 y cant). Fodd bynnag roedd 86 y cant o'r ysgolion a arolygwyd wedi eu defnyddio wrth baratoi cynlluniau addysgu dosbarthiadau ac roedd 86 y cant yn bwriadu eu defnyddio er mwyn dylanwadu ar ddatblygiad y cwricwlwm.

4.13 Roedd 75 yn bwriadu defnyddio canlyniadau'r profion i fonitro perfformiad aelodau staff ac roedd 71 y cant yn bwriadu eu defnyddio i adnabod problemau rheoli yn yr ysgol.

4.14 Dywedodd nifer o ysgolion a Swyddogion Monitro Profion Rhanbarthol a gafodd eu cyfweld yn drylwyr ei bod yn gymharol gynnar o hyd o ran y cynlluniau ehangach ar gyfer datblygu cwricwlwm a monitro perfformiad. Roeddent o'r farn y gellid cyflawni mwy yn y meysydd hyn pan fyddai ganddynt ddata hydredol cymharol o ganlyniadau profion y dyfodol. Roeddent yn credu y byddai'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol iawn i ysgolion pan fyddai ar gael.

- **Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y mathau o ddata a gesglir yn gyson a sicrhau y gellir cymharu rhwng blynyddoedd er mwyn galluogi ysgolion a disgyblion i gael y budd mwyaf posibl o'r PDRhC.**
- **Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol nodi cyfleoedd i greu adnoddau cymharu data i alluogi ysgolion i wneud y defnydd gorau o ganlyniadau'r profion.**
- **Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu deunyddiau i sicrhau'n well y gall rhieni ddehongli'r canlyniadau'n gywir fel maent yn berthnasol i'w plentyn.**

# Atodiad 1: Proffil y boblogaeth a'r sampl

## Tabl 1: Cyfnod ysgol

| Cyfnod | Nifer gwirioneddol yn y boblogaeth | Nifer a gwblhawyd |
|---|---|---|
| Cynradd | 1358 | 481 |
| Canol | 4 | 0 |
| Uwchradd | 213 | 57 |
| Arbennig | 42 | 12 |
| **Cyfanswm** | **1617** | **550** |

## Tabl 2: Math o ysgol

| Math | Nifer gwirioneddol yn y boblogaeth | Nifer a gwblhawyd |
|---|---|---|
| Cymunedol | 1317 | 444 |
| Sylfaen | 12 | 2 |
| Gwirfoddol – a gynorthwyir | 157 | 65 |
| Gwirfoddol – a reolir | 89 | 27 |
| Arbennig | 42 | 12 |
| **Cyfanswm** | **1617** | **550** |

## Tabl 3: Rhanbarth

| Rhanbarth | Nifer gwirioneddol yn y boblogaeth | Nifer a gwblhawyd |
|---|---|---|
| Gogledd Cymru | 442 | 138 |
| De-orllewin a'r Canolbarth | 586 | 205 |
| Canol De Cymru | 313 | 109 |
| De-ddwyrain | 276 | 98 |
| **Cyfanswm** | **1617** | **550** |

## Tabl 4: Cyfrwng iaith

| Cyfrwng iaith | Nifer gwirioneddol yn y boblogaeth | Nifer a gwblhawyd |
|---|---|---|
| Cyfrwng Saesneg | 1033 | 386 |
| Cyfrwng Cymraeg | 430 | 133 |
| Dwyieithog | 112 | 19 |
| Heb ei gofnodi mewn ysgolion arbennig | 42 | 12 |
| **Cyfanswm** | **1617** | **550** |

## Tabl 5: Maint yr ysgol

| Maint yr ysgol | Nifer gwirioneddol yn y boblogaeth | Nifer a gwblhawyd |
|---|---|---|
| Llai na 100 o ddysgwyr | 374 | 131 |
| 101-200 o ddysgwyr | 448 | 163 |
| 201-300 o ddysgwyr | 334 | 117 |
| 301-400 o ddysgwyr | 142 | 40 |
| 401-600 o ddysgwyr | 144 | 54 |
| 601-800 o ddysgwyr | 53 | 15 |
| 801-1,000 o ddysgwyr | 44 | 11 |
| 1,001-1,400 o ddysgwyr | 53 | 13 |
| 1,401-1,800 o ddysgwyr | 20 | 5 |
| 1,801-2,000 o ddysgwyr | 2 | 1 |
| Mwy na 2,000 o ddysgwyr | 2 | 0 |
| Dim yn hysbys | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1616** | **550** |

## Atodiad 2: Pwysoli

### Tabl 6: Seiliau sampl yr ysgolion wedi eu pwysoli a heb eu pwysoli yn ôl rhanbarth; NIFEROEDD

| Rhanbarth | Sail wedi ei phwysoli | Sail heb ei phwysoli |
|---|---|---|
| Gogledd Cymru | 150 | 138 |
| De-orllewin a'r Canolbarth | 200 | 205 |
| Canol De Cymru | 107 | 109 |
| De-ddwyrain | 94 | 98 |

### Tabl 7: Seiliau sampl yr ysgolion wedi eu pwysoli a heb eu pwysoli yn ôl cyfnod; NIFEROEDD

| Cyfnod | Sail wedi ei phwysoli | Sail heb ei phwysoli |
|---|---|---|
| Cynradd | 463 | 481 |
| Uwchradd | 73 | 57 |
| Ysgol arbennig | 14 | 12 |

### Tabl 8: Seiliau sampl yr ysgolion wedi eu pwysoli a heb eu pwysoli yn ôl cyfrwng iaith; NIFEROEDD

| Cyfrwng | Sail wedi ei phwysoli | Sail heb ei phwysoli |
|---|---|---|
| Cyfrwng Saesneg | 357 | 386 |
| Cyfrwng Cymraeg | 157 | 133 |
| Cyfrwng dwyieithog | 22 | 19 |
| Ysgol arbennig | 14 | 12 |

# Atodiad 3: Holiadur yr arolwg

**<u>NEWIDYNNAU'R GRONFA DDATA</u> (I GAEL EI PHOBLOGI YMLAEN LLAW AR SAIL CRONFA DDATA LLYWODRAETH CYMRU)**

**DB1a.** Enw'r ysgol

**DB1b.** Rhif yr ysgol

**DB2.** Cod post

**DB3.** Cyfnod yr ysgol

| | | |
|---|---|---|
| Cynradd | 1 | **PARHAU** |
| Canol | 2 | **PARHAU** |
| Uwchradd | 3 | **PARHAU** |
| Arbennig | 4 | **PARHAU** |

**DB4.** Math o ysgol

| | | |
|---|---|---|
| Cymunedol | 1 | **PARHAU** |
| Sylfaen | 2 | **PARHAU** |
| Gwirfoddol – a gynorthwyir | 3 | **PARHAU** |
| Gwirfoddol – a reolir | 4 | **PARHAU** |
| Arbennig | 5 | **PARHAU** |

**DB5.** Rhanbarth (yn seiliedig ar god post yn y gronfa ddata)

| | | |
|---|---|---|
| Gogledd Cymru | 1 | **PARHAU** |
| De-orllewin a'r Canolbarth | 2 | **PARHAU** |
| Canol De Cymru | 3 | **PARHAU** |
| De-ddwyrain | 4 | **PARHAU** |

**DB6.** Awdurdod Lleol

| | | |
|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 1 | **PARHAU** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2 | **PARHAU** |
| Caerffili | 3 | **PARHAU** |
| Caerdydd | 4 | **PARHAU** |
| Sir Gaerfyrddin | 5 | **PARHAU** |
| Ceredigion | 6 | **PARHAU** |
| Conwy | 7 | **PARHAU** |
| Sir Ddinbych | 8 | **PARHAU** |
| Sir y Fflint | 9 | **PARHAU** |
| Gwynedd | 10 | **PARHAU** |
| Ynys Môn | 11 | **PARHAU** |
| Merthyr Tudful | 12 | **PARHAU** |
| Sir Fynwy | 13 | **PARHAU** |
| Castell-nedd Port Talbot | 14 | **PARHAU** |
| Casnewydd | 15 | **PARHAU** |
| Sir Benfro | 16 | **PARHAU** |
| Powys | 17 | **PARHAU** |
| Rhondda Cynon Taf | 18 | **PARHAU** |
| Abertawe | 19 | **PARHAU** |
| Bro Morgannwg | 20 | **PARHAU** |
| Torfaen | 21 | **PARHAU** |
| Wrecsam | 22 | **PARHAU** |

**DB7:** Cyfrwng iaith a ddefnyddiwyd

| | | |
|---|---|---|
| Dwyieithog (Categori 2A) – AB | 1 | **PARHAU** |
| Dwyieithog (Categori 2B) – BB | 2 | **PARHAU** |
| Dwyieithog (Categori 2C) – CB | 3 | **PARHAU** |
| Cyfrwng Saesneg – EM | 4 | **PARHAU** |
| Saesneg (gyda chryn dipyn o Gymraeg) – EW | 5 | **PARHAU** |
| Cyfrwng Cymraeg – WM/DS/TR | 6 | **PARHAU** |

**DB8:** Maint yr ysgol

| | | |
|---|---|---|
| Llai na 100 o ddysgwyr | 1 | **PARHAU** |
| 101-200 o ddysgwyr | 2 | **PARHAU** |
| 201-300 o ddysgwyr | 3 | **PARHAU** |
| 301-400 o ddysgwyr | 4 | **PARHAU** |
| 401-600 o ddysgwyr | 5 | **PARHAU** |
| 601-800 o ddysgwyr | 6 | **PARHAU** |
| 801-1,000 o ddysgwyr | 7 | **PARHAU** |
| 1,001-1,400 o ddysgwyr | 8 | **PARHAU** |
| 1,401-1,800 o ddysgwyr | 9 | **PARHAU** |
| 1,801-2,000 o ddysgwyr | 10 | **PARHAU** |
| Mwy na 2,000 o ddysgwyr | 11 | **PARHAU** |

**CYFLWYNIAD**

Bore da/Prynhawn da/Noswaith dda. Fy enw i yw XXX ac rwy'n galw o BMG, asiantaeth ymchwil annibynnol ar ran Llywodraeth Cymru. A gaf i siarad â'r unigolyn a oedd yn gyfrifol am y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (PDRhCau) yn eich ysgol (y Dirprwy Bennaeth neu'r Pennaeth efallai)?

## WRTH SIARAD Â'R UNIGOLYN CYSWLLT CYWIR

Rydym yn gwneud gwaith ymchwil i weithrediad y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (PDRhCau) ar ran Llywodraeth Cymru. Mae hwn yn arolwg pwysig a fydd yn cyfrannu at brosesau a phenderfyniadau yn y dyfodol o ran sut y mae'r PDRhCau yn cael eu gweithredu a'u darparu.

Dylai'r arolwg gymryd tua 15 i 20 munud yn unig i'w gyflawni a bydd eich atebion yn gwbl ddienw.

A ydych chi'n hapus i barhau?

**Y CYFWELYDD I GOFNODI'R CANLYNIAD**

| | | |
|---|---|---|
| Ydw | 1 | **PARHAU** |
| Apwyntiad Pendant | 2 | **TREFNU APWYNTIAD PENDANT** |
| Apwyntiad meddal | 3 | **GWNEUD GALWAD MEDDAL YN ÔL** |
| Gwrthod | 4 | **DIOLCH A CHLOI** |
| EISIAU SICRWYDD | 5 | **ANFON SICRWYDD MEWN EBOST** |

**SICRWYDD I’W DDEFNYDDIO OS OES ANGEN**
Bydd y cyfweliad yn cymryd tua 15-20 munud i’w gwblhau.
Nodwch y bydd yr holl ddata yn cael ei adrodd ar ffurf gryno a bydd eich atebion yn parhau’n ddienw.
Os bydd yr ymatebwyr eisiau cadarnhau dilysrwydd yr arolwg neu gael mwy o wybodaeth am nodau ac amcanion, gallant ffonio:

- MRS: Market Research Society ar 0500 39 69 99
- BMG Research: Elizabeth Davies ar 0121 333 6006
- DIM OND OS YW’N GWBL ANGENRHEIDIOL: David Roberts yn Llywodraeth Cymru ar 0300 062 5485

**CWESTIYNAU'R AROLWG**

Cyn i ni ddechrau, a allwch chi roi eich enw a theitl eich swydd i mi?:

**CANLLAWIAU A PHARATOI**

I ddechrau, hoffwn ofyn rhai cwestiynau i chi am y canllawiau a’r hyfforddiant neu’r cymorth a dderbyniwyd gennych i baratoi ar gyfer y PDRhCau.

**1.** Cyn cyflwyno’r PDRhCau, pa rai o’r deunyddiau/ffynonellau canlynol y gwnaethoch chi eu defnyddio i ddarganfod mwy am broses a gweithrediad y profion?

| | |
|---|---|
| Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol/cynadleddau’r Rhaglen Gymorth Genedlaethol | 1 |
| Llawlyfr gweinyddu’r profion | 2 |
| Cwestiynau ac atebion PDRhCau’r Rhaglen Gymorth Genedlaethol | 3 |
| Datganiadau gweinidogol yn ymwneud â PDRhCau | 4 |
| Canllawiau ar drefniadau mynediad a datgymhwysiad PDRhC | 5 |
| Erthyglau yn egylchlythyr Dysg neu ar wefan Dysgu Cymru yn ymwneud â’r PDRhCau | 6 |
| Cysylltiadau a rhwydweithiau lleol e.e. awdurdodau lleol | 7 |
| Cysylltiadau a rhwydweithiau rhanbarthol e.e. Consortia Rhanbarthol | 8 |
| Cysylltiadau cenedlaethol e.e. cysylltu ag arweinwyr Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol | 9 |
| Cefnogwr/wyr Prawf | 10 |
| Deunyddiau sampl ar PDRhCau | 11 |
| Trefniadau Casglu Data ac Adrodd Cenedlaethol 2012/13 – Nodiadau Cwblhau Technegol ar gyfer Ysgolion ac Awdurdodau Lleol | 12 |
| Casglu Data Cenedlaethol (NDC) 2013 – Cwestiynau ac Atebion | 13 |
| **SR** Dim un o’r uchod | 14 |

**2. NID OES C2**

**3. NID OES C3**

**4.** Gan ystyried y deunyddiau prawf sampl a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, i ba raddau oedden nhw…?

| | Ddim o gwbl | Eithaf perthnasol | Perthnasol iawn | Ni chefais y deunyddiau hyn |
|---|---|---|---|---|
| Yn berthnasol i'r hyn yr oedd angen i chi ei wybod | 1 | 2 | 3 | 4 |
| Yn effeithiol o ran paratoi eich ysgol ar gyfer y PDRhCau | 1 | 2 | 3 | 4 |

**5.** Gan ystyried y canllawiau a'r llawlyfrau (gan gynnwys y Llawlyfr Gweinyddu'r Profion) a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, i ba raddau oedden nhw …?

| | Ddim o gwbl | Eithaf perthnasol | Perthnasol iawn | Ni chefais y deunyddiau hyn |
|---|---|---|---|---|
| Yn berthnasol i'r hyn roedd angen i chi ei wybod | 1 | 2 | 3 | 4 |
| Yn effeithiol o ran paratoi eich ysgol ar gyfer y PDRhCau | 1 | 2 | 3 | 4 |

**6.** Yn gyffredinol, cyn cyflwyno'r PDRhCau, i ba raddau oedd y negeseuon a'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru…?

| | Ddim o gwbl | Eithaf | Yn sicr |
|---|---|---|---|
| Yn brydlon | 1 | 2 | 3 |
| Yn eglur ac yn hawdd eu deall | 1 | 2 | 3 |
| Yn hawdd eu dilyn yn ymarferol | 1 | 2 | 3 |
| Yn berthnasol i'r hyn yr oeddech chi angen ei wybod | 1 | 2 | 3 |
| Yn effeithiol i'ch helpu i gyfathrebu'r PDRhCau yn yr ysgol | 1 | 2 | 3 |
| Yn effeithiol o ran paratoi eich ysgol ar gyfer y PDRhCau | 1 | 2 | 3 |

**7.** NID OES C7

**GWEITHREDIAD**

Hoffwn ofyn ychydig gwestiynau i chi nawr am sut mae eich ysgol wedi gweithredu'r PDRhCau.

**8.** I ba raddau yr oedd eich ysgol yn gallu cydymffurfio â'r canllawiau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Llawlyfr Gweinyddu'r Profion?

| | |
|---|---|
| Yn llawn | 1 |
| Yn rhannol | 2 |
| Ddim o gwbl | 3 |

**9.** Pa agwedd(au) ar y canllawiau oedd eich ysgol yn methu â chydymffurfio â nhw?

**10.** Sut y gwnaethoch chi gyfathrebu gwybodaeth am weithrediad y PDRhCau i rieni'r disgyblion yn eich ysgol?

| | |
|---|---|
| Ebyst | 1 |
| Llythyrau | 2 |
| Nosweithiau agored | 3 |
| Nosweithiau rhieni/athrawon | 4 |
| Dosbarthu 'Sut oedd yr ysgol heddiw?' Llywodraeth Cymru cyn y PDRhCau | 5 |
| Arall (nodwch) | 6 |
| Ni hysbyswyd rhieni am y profion | 7 |
| Ddim yn gwybod | 8 |

**11.** A fyddech chi wedi hoffi cael mwy o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru i'w roi i rieni?

| | |
|---|---|
| Byddwn | 1 |
| Na fyddwn | 2 |
| Ddim yn gwybod | 3 |

**12.** Sut y gwnaethoch chi gyfathrebu gwybodaeth am weithrediad y PDRhCau i ddisgyblion yn eich ysgol?

| | |
|---|---|
| Yn y gwasanaeth boreol | 1 |
| Trwy athrawon dosbarth | 2 |
| Arall (nodwch) | 3 |
| Ni hysbyswyd disgyblion am y profion | 4 |
| Ddim yn gwybod | 5 |

**13.** A gynhaliwyd y PDRhCau ar gyfer dosbarthiadau cyfan?

| | |
|---|---|
| Do | 1 |
| Naddo | 2 |
| Ddim yn gwybod | 3 |

**14.** Pa ddulliau eraill o gynnal y profion a ddefnyddiwyd a pham?

**15.** Sut y cynhaliwyd y profion yn eich ysgol?

| | |
|---|---|
| Yn yr ystafell ddosbarth | 1 |
| Mewn ystafell fwy i gynnwys nifer fwy o ddisgyblion e.e. grŵp blwyddyn cyfan | 2 |
| Cyfuniad o ystafelloedd dosbarth ac ystafelloedd mwy | 3 |
| Rhyw ffordd arall (nodwch) | 4 |

**16.** A wnaeth eich ysgol ddarparu'r PDRhCau i Flynyddoedd 2 a 3 mewn rhannau byrrach?

| | |
|---|---|
| Do | 1 |
| Naddo | 2 |
| Ddim yn gwybod | 3 |

**17.** Pwy gynhaliodd y profion ar gyfer y disgyblion? OS OES ANGEN: MAE 'CYNNAL' YN GOLYGU 'GORUCHWYLIO' YMA

| | |
|---|---|
| Athrawon cymwysedig a gyflogir i weithio yn yr ysgol yn rheolaidd | 1 |
| Aelodau staff eraill sy'n gweithio yn yr ysgol yn rheolaidd | 2 |
| Goruchwylwyr allanol a oedd yn athrawon cymwysedig | 3 |
| Goruchwylwyr allanol nad oeddent yn athrawon cymwysedig | 4 |
| Arall (nodwch) | 5 |
| Ddim yn gwybod | 6 |

**18.** A ddefnyddiodd eich ysgol unrhyw PDRhCau diwygiedig?

| | |
|---|---|
| Do | 1 |
| Naddo | 2 |
| Ddim yn gwybod | 3 |

**19.** Pam y gwnaeth eich ysgol ddefnyddio PDRhCau diwygiedig?

**20.** Sut y gwnaethoch chi benderfynu pa brofion diwygiedig i'w harchebu?

**21.** Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich defnydd o'r PDRhCau diwygiedig a archebwyd orau?

| | |
|---|---|
| Defnyddiwyd pob un ohonynt | 1 |
| Defnyddiwyd rhai ond nid pob un ohonynt | 2 |
| Ni ddefnyddiwyd yr un ohonynt | 3 |
| Ddim yn gwybod | 4 |

**22.** A ddefnyddiodd eich ysgol y trefniadau datgymhwyso ar gyfer y PDRhCau?

| | |
|---|---|
| Do | 1 |
| Naddo | 2 |
| Ddim yn gwybod | 3 |

**23.** Ym mha achosion y gwnaeth eich ysgol ddefnyddio'r trefniadau datgymhwyso ar gyfer PDRhCau?

**24.** A ddefnyddiodd eich ysgol y cwestiynau darllen ymateb estynedig?

| | |
|---|---|
| Do | 1 |
| Naddo | 2 |
| Ddim yn gwybod | 3 |

**25.** A wnaeth disgyblion yn eich ysgol sefyll y PDRhCau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg?

| | |
|---|---|
| Do | 1 |
| Naddo | 2 |
| Ddim yn gwybod | 3 |

**26.** Faint o amser a dreuliwyd ar y broses brofi (gan gynnwys paratoadau gweinyddol a gweithrediad ond heb gynnwys paratoi dysgwyr) gan aelodau staff eich ysgol?

**27.** Pa gyfran o'r amser hwn a dreuliwyd gan y mathau canlynol o aelodau staff?

| | |
|---|---|
| Uwch Dîm Rheoli e.e. Pennaeth, Pennaeth Cynorthwyol, Dirprwy Bennaeth | __% |
| Athrawon | __% |
| Aelodau staff cymorth yr ysgol | __% |
| Aelodau staff eraill | __% |

**28.** Pa effaith gafodd yr amser a dreuliwyd ar baratoi a gweithredu'r PDRhCau ar lwyth gwaith ehangach aelodau staff yn yr ysgol?

**29.** Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi'n teimlo ynglŷn â sut y gweithredwyd ac y gweinyddwyd y PDRhCau yn eich ysgol?

| | |
|---|---|
| Anfodlon iawn | 1 |
| Eithaf anfodlon | 2 |
| Ddim yn fodlon nac yn anfodlon | 3 |
| Eithaf bodlon | 4 |
| Bodlon iawn | 5 |
| Ddim yn gwybod | 6 |

**30.** Pa heriau, os oedd rhai o gwbl, oedd y prif rai a wynebwyd gan eich ysgol wrth weithredu'r profion?

| | |
|---|---|
| Diffyg adnoddau/amser staff | 1 |
| Deall sut i weithredu'r PDRhCau | 2 |
| Esbonio'r PDRhCau i ddisgyblion | 3 |
| Esbonio'r PDRhCau i rieni | 4 |
| Darparu adroddiadau disgyblion unigol i rieni | 5 |
| Arall (nodwch) | 6 |
| Dim heriau | 7 |
| Ddim yn gwybod | 8 |

**31.** NID OES C31

**MARCIO**

Hoffwn ofyn ychydig gwestiynau i chi nawr am y broses o farcio'r PDRhCau.

**32.** Pwy a ddefnyddiwyd i farcio'r PDRhCau?

| | |
|---|---|
| Athrawon cymwysedig a gyflogir sy'n gweithio yn yr ysgol yn rheolaidd | 1 |
| Aelodau staff eraill sy'n gweithio yn yr ysgol yn rheolaidd | 2 |
| Marcwyr allanol a oedd yn athrawon cymwysedig | 3 |
| Marcwyr allanol nad oeddent yn athrawon cymwysedig | 4 |
| Arall (nodwch) | 5 |
| Ddim yn gwybod | 6 |

**33.** Pam y gwnaethoch chi ddewis y dull hwn o farcio?

| | |
|---|---|
| Costau | 1 |
| Amser/adnoddau | 2 |
| Ansawdd y marcio | 3 |
| Arall (nodwch) | 4 |
| Ddim yn gwybod | 5 |

**34.** Ar gyfartaledd, faint o amser a dreuliwyd yn marcio..?

| | |
|---|---|
| 30 papurau Prawf Darllen Cenedlaethol | |
| 30 papurau Prawf Rhifedd Cenedlaethol trefniadol | |

**35.** Pa heriau, os oedd rhai o gwbl, oedd y prif rai a wynebwyd gan eich ysgol wrth farcio'r profion?

| | |
|---|---|
| Diffyg adnoddau/amser staff | 1 |
| Deall sut yr oedd y broses farcio yn gweithio | 2 |
| Arall (nodwch) | 3 |
| Dim heriau | 4 |
| Ddim yn gwybod | 5 |

**36.** Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi ynglŷn â'r ffordd y marciwyd y PDRhCau yn eich ysgol?

| | |
|---|---|
| Anfodlon iawn | 1 |
| Eithaf anfodlon | 2 |
| Ddim yn fodlon nac yn anfodlon | 3 |
| Eithaf bodlon | 4 |
| Bodlon iawn | 5 |
| Ddim yn gwybod | 6 |

**37.** NIS OES C37

**38.** Pwy a ddefnyddiwyd ar gyfer cofnodi canlyniadau'r PDRhC ar y pyrth/systemau canlynol?

| | MIS yr ysgol | Porth SCYA |
|---|---|---|
| Athrawon cymwysedig a gyflogir sy'n gweithio yn yr ysgol yn rheolaidd | 1 | 1 |
| Aelodau staff eraill sy'n gweithio yn yr ysgol yn rheolaidd | 2 | 2 |
| Marcwyr allanol a oedd yn athrawon cymwysedig | 3 | 3 |
| Marcwyr allanol nad oeddent yn athrawon cymwysedig | 4 | 4 |
| Arall (nodwch) | 5 | 5 |
| Ddim yn gwybod | 6 | 6 |

**39.** Faint o amser a dreuliodd y staff yn eich ysgol chi yn cofnodi canlyniadau'r PDRhC ar y pyrth/systemau canlynol?

| | |
|---|---|
| Systemau Gwybodaeth Reoli'r ysgol | |
| Porth yr ysgol ar gyfer y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg | |

**40.** Pa gyfran o'r amser hwn a dreuliwyd gan y mathau canlynol o aelodau staff?

| | MIS yr ysgol | Porth SCYA |
|---|---|---|
| Uwch Dîm Rheoli e.e. Pennaeth, Pennaeth Cynorthwyol, Dirprwy Bennaeth | __% | __% |
| Athrawon | __% | __% |
| Aelodau staff cymorth yr ysgol | __% | __% |
| Aelodau staff eraill | __% | __% |

**41.** NID OES C41

**42.** NID OES C42

**43.** NID OES C43

**44.** Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi ynglŷn â'r ffordd y cofnodwyd y canlyniadau ar y gwahanol systemau/pyrth gan eich ysgol?

| | MIS yr ysgol | Porth SCYA |
|---|---|---|
| Anfodlon iawn | 1 | 1 |
| Eithaf anfodlon | 2 | 2 |
| Ddim yn fodlon nac yn anfodlon | 3 | 3 |
| Eithaf bodlon | 4 | 4 |
| Bodlon iawn | 5 | 5 |
| Ddim yn gwybod | 6 | 6 |

**45.** Pa heriau, os oedd rhai o gwbl, oedd y prif rai a wynebwyd gan eich ysgol wrth gofnodi'r canlyniadau ar y gwahanol systemau/pyrth?

| | MIS yr ysgol | Porth SCYA |
|---|---|---|
| Diffyg adnoddau/amser staff | 1 | 1 |
| Deall sut i ddefnyddio'r pyrth | 2 | 2 |
| Problemau TG | 3 | 3 |
| Arall (nodwch) | 4 | 4 |
| Dim heriau | 5 | 5 |
| Ddim yn gwybod | 6 | 6 |

**46.** NID OES C46

**DEFNYDDIO CANLYNIADAU'R PROFION**

I gloi, hoffwn ofyn ychydig gwestiynau i chi am y ffordd mae eich ysgol wedi defnyddio canlyniadau'r PDRhCau

**47.** Sut y mae sgoriau disgyblion unigol (gan gynnwys sgoriau safonedig a sgoriau sy'n cyfateb i oedran) wedi eu defnyddio gan eich ysgol?

| | |
|---|---|
| Wedi eu defnyddio i gyfrannu at gynlluniau addysgu | 1 |
| Wedi eu defnyddio i gyfrannu at dargedau disgyblion (trwy nodi gwendidau disgyblion a chynllunio ymyriadau) | 2 |
| Wedi eu defnyddio i ddarparu cymorth wedi ei dargedu'n well i ddysgwyr | 3 |
| Wedi eu rhannu gydag ysgolion eraill (e.e. ysgolion newydd, ysgolion uwchradd) | 4 |
| Wedi eu hanfon at rieni | 5 |
| Arall (nodwch) | 6 |
| Ddim yn gwybod | 7 |

**48.** Sut mae eich ysgol yn bwriadu defnyddio data lefel cyfanredol/ysgol yn y dyfodol?

| | |
|---|---|
| Byddwn yn eu defnyddio i gyfrannu at gynlluniau addysgu | 1 |
| Byddwn yn eu defnyddio yn ein deunyddiau marchnata | 2 |
| Byddwn yn eu defnyddio i gyfrannu at ddatblygiad y cwricwlwm | 3 |
| Byddwn yn eu defnyddio i wella arfer yn yr ystafell ddosbarth | 4 |
| Byddwn yn eu defnyddio i nodi materion rheoli yn yr ysgol | 5 |
| Byddwn yn eu defnyddio i gyfrannu at gynllunio busnes | 6 |
| Byddwn yn eu defnyddio i fonitro perfformiad aelodau staff | 7 |
| Byddwn yn eu defnyddio i nodi meysydd ar gyfer datblygiad staff | 8 |
| Arall (nodwch) | 9 |
| Ddim yn gwybod | 10 |

**49.** Ym mha ffordd yr ydych chi'n meddwl y bydd canlyniadau'r PDRhC ar gyfer 2013 yn dylanwadu ar waith cynllunio'r cwricwlwm, ymarfer dysgu, a datblygiad y staff yn y dyfodol?

**50.** A oes unrhyw beth arall y gellid ei wneud i sicrhau bod y canlyniadau'n fwy 'defnyddiadwy' i ysgolion?

**51.** A oes unrhyw feysydd o'r broses PDRhC y byddech eisiau bod wedi cael mwy o wybodaeth amdanynt? Beth yw'r rhain?

| | |
|---|---|
| Hysbysu'r rhieni am y profion | 1 |
| Hysbysu'r disgyblion am y profion | 2 |
| Agor y profion | 3 |
| Sut i gynnal y profion | 4 |
| Sut i ddarparu'r profion mewn rhannau byrrach | 5 |
| PDRhC wedi'u haddasu | 6 |
| Y broses ddatgymhwyso | 7 |
| Cwestiynau darllen ag ymatebion estynedig | 8 |
| Marcio'r profion | 9 |
| Cofnodi'r profion ar systemau a phyrth gwahanol | 10 |
| Sut y gellir defnyddio canlyniadau'r profion er lles disgyblion unigol | 11 |
| Sut y gellir defnyddio canlyniadau'r profion er lles perfformiad cyffredinol yr ysgol | 12 |
| Arall (nodwch) | 13 |
| **SR** Dim un o'r uchod | 98 |
| **SR** Ddim yn gwybod | 99 |

**52.** Yn eich barn chi, oes yna unrhyw beth y gellid ei wneud yn wahanol yn y dyfodol o ran y broses o weithredu, marcio a chofnodi data'r PDRhCau? Beth yn eich barn chi, yw'r 2 flaenoriaeth uchaf?

**53.** A hoffech chi wneud unrhyw sylwadau eraill?

**54.** A fyddech chi'n hapus i ni gysylltu â chi ar gyfer cyfweliadau dilynol i gael dealltwriaeth fwy manwl ynglŷn â rhai o'r materion hyn? Os felly, a gawn ni eich cyfeiriad e-bost/rhif ffôn?

| | |
|---|---|
| Byddwn/Cewch | 1 |
| Na fyddwn/Na chewch | 2 |

**DIOLCH A CHLOI**

Diolch yn fawr. Rydych chi wedi bod yn sgwrsio â............ o BMG Research, yn gweithio ar ran Llywodraeth Cymru.

AILADRODDWCH Y SICRWYDD OS OES ANGEN

## Atodiad 4: Canllawiau pynciau ansoddol

## Arweinwyr PDRhC

**Nodiadau Ymchwilydd**

Nod yr ymchwil yw archwilio'r modd y mae'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (PDRhC) wedi eu cyflwyno a'u gweithredu ers eu cyflwyno ym mis Mai 2013, a'r effaith y bwriadwyd iddynt ei chael ar addysgu a dysgu.

Mae'r rhai a gyfwelir yn arweinwyr llythrennedd/rhifedd neu PDRhC yn yr ysgol, mae'n debygol y byddant yn staff lefel uwch yn yr ysgol gan gynnwys Penaethiaid, Dirprwy Benaethiaid a Phenaethiaid Cynorthwyol

Bydd y cyfweliad hwn yn edrych ar brofiad cyfan yr ymatebwyr o weithredu'r PDRhC, o'r wybodaeth a'r canllawiau cychwynnol a ddarparwyd hyd at y modd y defnyddiwyd ac y bwriedir defnyddio canlyniadau'r profion. Bydd hefyd yn nodi pa elfennau sydd wedi'u rhwystro a'u galluogi, gan effeithio ar eu profiadau.

Dylid cynnal y cyfweliad hwn mewn ffordd benagored er mwyn i'r ymchwilydd allu casglu gwybodaeth sy'n allweddol i amcanion yr ymchwil yn ogystal â chyfleu profiad yr ymatebwr a chaniatáu hyblygrwydd i fynd ar ôl pwyntiau ar sail ymateb y sawl sy'n cael ei gyfweld. Ni fydd gan bawb sy'n cael ei gyfweld yr un lefel o wybodaeth fanwl ynglŷn â'r PDRhC felly dylai'r cyfwelydd ganolbwyntio ar rannau gwahanol o'r canllaw pwnc hwn fel y bo'n briodol.

Cyn cynnal y cyfweliadau trylwyr, dylai'r holl gyfwelwyr ymgyfarwyddo â deunyddiau cefndir perthnasol gan gynnwys:

- Y llawlyfr gweinyddu profion
- Cwestiynau ac atebion PDRhC y Rhaglen Gymorth Genedlaethol
- Canllawiau ynglŷn â threfniadau mynediad a datgymhwyso'r PDRhC
- Cwestiynau Cyffredin Llywodraeth Cymru
- Y pecyn data a ddarperir i ysgolion
- Enghreifftiau o adroddiadau disgyblion unigol

Bydd ymatebion y cyfranogwyr i'r arolwg ar gael i'r cyfwelydd eu gweld cyn apwyntiadau.

**Cyflwyniad a chwestiynau cefndir**

*Cyflwynwch eich hun a BMG Research; rhowch wybod i'r ymatebwr ein bod wedi ein comisiynu gan Lywodraeth Cymru i edrych ar y ffordd y mae'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (PDRhC) wedi eu cyflwyno a'u rhoi ar waith ers eu cyflwyno ym mis Mai 2013, a'r effaith y bwriedir iddynt ei chael ar addysgu a dysgu. Eglurwch y byddem ni'n hoffi eu barn yn seiliedig ar eu profiadau er mwyn ein cynorthwyo i ddatblygu'r adroddiad terfynol ac, o bosibl, er mwyn llunio astudiaeth achos.*

*Dylai'r cyfwelydd bwysleisio bod y cyfweliadau'n cael eu cynnal yn unol â chod ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad ac o'r herwydd y bydd popeth y byddant yn ei ddweud yn anhysbys ac na fydd unigolion yn cael eu henwi yn yr adroddiad terfynol. Bydd y drafodaeth yn cymryd tua 30-45 munud.*

*Gofynnwch am gael recordio'r drafodaeth, gan roi sicrwydd i'r cyfranogwr ynglŷn â chyfrinachedd.*

1. Cyn inni gychwyn, a wnewch chi roi disgrifiad cyffredinol imi o'ch swydd os gwelwch yn dda, ac os yn berthnasol, sut mae hyn yn gysylltiedig â gweithrediad y PDRhC?

2. Sut y clywsoch chi am y PDRhC i ddechrau a sut cafodd y penderfyniad ei wneud mai chi fyddai'n arwain y PDRhC yn eich ysgol?

### Cyfarwyddyd a pharatoi

I ddechrau, byddwn yn hoffi gofyn rhywfaint o gwestiynau ichi ynglŷn â'r cyfarwyddyd a'r hyfforddiant neu'r cymorth a gawsoch chi i baratoi ar gyfer y PDRhC.

3. Cyn cyflwyno'r PDRhC pa ddeunyddiau/ffynonellau y gwnaethoch chi eu defnyddio i gael mwy o wybodaeth am y broses ac am weithredu'r profion a pham y gwnaethoch chi ddewis y deunyddiau/ffynonellau hynny? *Cyfwelydd i holi ar gyfer pob ffynhonnell/deunydd a ddefnyddiwyd:*
   - Ar ba adeg yn ystod y cylch paratoi ar gyfer y profion y gwnaethoch chi ddefnyddio'r rhain?
   - Pa mor effeithiol oedd y deunyddiau hyn ichi? Pam?
   - Ym mha ffyrdd yr oeddech chi'n gweld y deunyddiau/ffynonellau'n ddefnyddiol?
   - A oedd unrhyw wybodaeth arall y byddai wedi bod yn ddefnyddiol ei chynnwys ac ar ba adeg yn ystod y cylch paratoi ar gyfer y profion y byddech chi eisiau ei derbyn?

4. Pa mor eglur oedd y canllawiau ynglŷn â'r PDRhC wedi eu haddasu? A oedd unrhyw feysydd yr oeddech yn ei chael yn anodd eu dehongli? OS OEDD: Beth oedd y meysydd hyn ac ym mha ffordd yr oeddent yn anodd eu dehongli? Pa wybodaeth arall fyddai wedi bod yn ddefnyddiol ei chael?

5. Pa mor eglur oedd y canllawiau ynglŷn â datgymhwyso dysgwyr? A oedd unrhyw feysydd yr oeddech chi'n eu cael yn anodd eu dehongli? OS OEDD? Beth oedd y meysydd hyn ac ym mha ffordd yr oeddent yn anodd eu dehongli? Pa wybodaeth arall fyddai wedi bod yn ddefnyddiol ei chael?

6. Yn gyffredinol, i ba raddau rydych hi'n teimlo bod y deunyddiau a oedd ar gael ichi wedi eu cyflwyno ar lefel briodol i roi'r holl wybodaeth yr oedd arnoch chi ei hangen er mwyn gweithredu'r PDRhC? Pam?

7. OS NAD EDRYCHWYD AR HYN YN C3: Beth oedd swyddogaeth y consortia rhanbarthol, yr awdurdodau lleol a/neu Gefnogwyr Profion o ran cynorthwyo eich ysgol i baratoi ar gyfer y profion?

8. Pa gefnogaeth ychwanegol, os o gwbl, a fyddai wedi bod o werth i'ch ysgol wrth baratoi i weithredu'r PDRhC a phwy fyddech chi wedi hoffi eu gweld yn darparu'r cymorth?

9. A oedd y negeseuon cyffredinol gan Lywodraeth Cymru a ffynonellau eraill, yn eich barn chi, yn glir, yn ddealladwy ac yn gydlynol? Beth oedd y rheswm am hyn? *Cyfwelydd i brocio am agweddau cadarnhaol a negyddol penodol.*

10. I ba raddau roedd yr amserlenni ar gyfer cynnal y PDRhC mewn ysgolion yn ymarferol, yn eich barn chi? Pam? CYFWELYDD I SYLWI Y DYLID CYFYNGU'R YMATEB I YMARFEROLDEB AMSERLENNI'R YSGOL AR GYFER CYNNAL Y PROFION, NID CYFLWYNIAD A DATBLYGIAD CYFFREDINOL Y PDRhC.

11. Ym mha ffyrdd, os o gwbl, y gwnaeth eich barn ar ymarferoldeb yr amserlenni ar gyfer cynnal y PDRhC newid yn ystod y broses? Pam hynny?

## Gweithredu

Byddwn yn hoffi gofyn rhywfaint o gwestiynau ichi ynglŷn â'r ffordd y mae eich ysgol wedi gweithredu'r PDRhC.

12. I ba raddau, os o gwbl, y gwnaeth eich ysgol ei chael yn anodd/heriol cydymffurfio â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Llawlyfr Gweinyddu Profion? Beth oedd y rheswm am hyn a sut y gwnaethoch oresgyn yr anawsterau? *Cyfwelydd i chwilio am agweddau penodol y methodd yr ysgol â chydymffurfio â nhw a pha gamau a gymerwyd i ymdrin â'r sefyllfa.*

13. Sut y rhoddwyd gwybod i rieni a disgyblion yn eich ysgol am weithrediad y PDRhC? Pam y gwnaethoch chi ddewis y dull hwn a pha mor effeithiol oedd hynny?

14. Pa gymorth arall, os o gwbl, y byddech chi wedi hoffi ei gael wrth roi gwybod i ddisgyblion a rhieni am weithrediad y PDRhC? Pwy hoffech chi eu gweld yn darparu'r cymorth hwn?

15. CYFWELYDD I GYFEIRIO AT YR YMATEBION I'R AROLWG: Os na chafodd y PDRhC eu gweinyddu i ddosbarthiadau cyfan, pa ddulliau eraill y gwnaethoch chi eu defnyddio a pham y gwnaethoch chi ddewis y dull hwn?

16. CYFWELYDD I GYFEIRIO AT YR YMATEBION I'R AROLWG: Pam y gwnaethoch chi ddewis gweinyddu'r profion yn y ffordd a ddewiswyd? I ba raddau yr ydych chi'n hapus â'r dull a ddewiswyd a pham?

17. CYFWELYDD I GYFEIRIO AT YR YMATEBION I'R AROLWG, OS CYNRADD: Pam y gwnaeth eich ysgol ddewis/dewis peidio â gweinyddu'r PDRhC i ddisgyblion Blwyddyn 2 a 3 mewn talpiau byrrach? Pa mor effeithiol oedd y dull hwn yn eich barn chi a pham?

18. CYFWELYDD I GYFEIRIO AT YR YMATEBION I'R AROLWG: Pam y gwnaeth eich ysgol ddewis gweinyddu'r profion gyda'r aelodau staff a ddewiswyd? Pa mor effeithiol oedd y dull hwn yn eich barn chi a pham?

19. CYFWELYDD I GYFEIRIO AT YR YMATEBION I'R AROLWG, OS DEFNYDDIWYD Y PDRhC WEDI EU HADDASU: Pam y gwnaethoch chi ddewis defnyddio PDRhC wedi eu haddasu a pha mor effeithiol oeddech chi'n gweld y broses o'u harchebu? Pam hynny?

20. CYFWELYDD I GYFEIRIO AT YR YMATEBION I'R AROLWG, OS DEFNYDDIWYD Y PDRhC WEDI EU HADDASU: O edrych yn ôl, a fyddech chi'n dal i ddewis defnyddio PDRhC wedi eu haddasu? Pam?

21. CYFWELYDD I GYFEIRIO AT YR YMATEBION I'R AROLWG, OS DEFNYDDIWYD TREFNIADAU DATGYMHWYSO: Pam gwnaethoch chi ddewis defnyddio'r trefniadau datgymhwyso a pha mor effeithiol oeddech chi'n gweld y broses o wneud hyn? Pam hynny?

22. CYFWELYDD I GYFEIRIO AT YR YMATEBION I'R AROLWG: Pam y gwnaethoch chi ddewis/ dewis peidio â defnyddio'r cwestiynau darllen ymateb estynedig? OS DEFNYDDIWYD: Ym mha amgylchiadau y gwnaethoch chi ddefnyddio'r cwestiynau darllen ymateb estynedig a pham?

23. CYFWELYDD I GYFEIRIO AT YR YMATEBION I'R AROLWG: Pa drefniadau gwahanol neu ychwanegol, os o gwbl, a wnaed ar gyfer disgyblion Blwyddyn 4-9 yr oedd gofyn iddynt sefyll y PDRhC yn y Gymraeg a'r Saesneg? Beth oedd effaith hyn?

24. Pa effaith a gafwyd ar lwyth gwaith ehangach staff yn yr ysgol yn sgil yr amser a dreuliwyd ar baratoi a gweithredu'r PDRhC? Sut y penderfynwyd rheoli/mynd i'r afael â hyn yn fewnol? *Cyfwelydd i edrych ar y sefyllfa i athrawon, aelodau staff cymorth, aelodau staff eraill, dylai hyn gynnwys effaith y gwaith paratoi gweinyddol a'r gweithredu, ond nid paratoi'r dysgwyr. CYFWELYDD I SYLWI, GELLIR COFNODI'R AMSER A RODDWYD I BARATOI'R DYSGWYR OS CAIFF EI WIRFODDOLI GAN YR YMATEBWR*

25. Yn gyffredinol, pa ffactorau a hwylusodd neu, i'r gwrthwyneb, a fu'n rhwystr i weithrediad y profion yn eich barn chi?

### Marcio

Fe fyddwn i'n hoffi gofyn rhywfaint o gwestiynau ichi nawr ynglŷn â'r broses o farcio'r PDRhC.

26. CYFWELYDD I GYFEIRIO AT YR YMATEBION I'R AROLWG: Pam y gwnaethoch chi ddewis defnyddio'r adnoddau a wnaethoch ar gyfer marcio'r PDRhC? Pa mor effeithiol oedd y dull hwn o ran cywirdeb ac effeithlonrwydd a pham?

27. Sut y byddech chi'n disgrifio eich dull o ymdrin â'r gwaith marcio? A fyddech chi'n dweud eich bod wedi cynllunio unrhyw elfennau ar eich dull o ymdrin â'r gwaith marcio yn benodol ar gyfer y pwrpas, ac a wnewch chi'n eu disgrifio?

28. Beth oedd y prif heriau, os o gwbl, a wynebodd eich ysgol wrth farcio'r profion a sut yr ymdriniwyd â'r heriau hyn? A oedd unrhyw ffactorau wedi hwyluso'r gwaith marcio?

29. Sut y cafodd y profion eu safoni a pha mor effeithiol oeddech chi'n gweld y broses hon? Pam hynny?

30. CYFWELYDD I GYFEIRIO AT YR YMATEBION I'R AROLWG: Pam y gwnaethoch chi ddewis defnyddio'r adnoddau a wnaethoch ar gyfer cofnodi canlyniadau'r PDRhC ar system gwybodaeth reoli'r ysgol a'r porth SCYA? Pa mor effeithiol oedd y dull hwn o ran cywirdeb ac effeithlonrwydd a pham? *Cyfwelydd i brocio am wybodaeth ynglŷn â chofnodi ar system gwybodaeth reoli'r ysgol a'r porth SCYA.*

31. Pa effaith a gafwyd ar lwyth gwaith ehangach aelodau staff yr ysgol yn sgil yr amser a dreuliwyd ar farcio a chofnodi data'r PDRhC? Sut y penderfynwyd rheoli/mynd i'r afael â hyn yn fewnol? *Cyfwelydd i edrych ar y sefyllfa gydag athrawon, aelodau staff cymorth, aelodau staff eraill.*

32. Beth oedd y prif heriau, os o gwbl, a wynebodd eich ysgol wrth gofnodi'r canlyniadau ar y gwahanol systemau/pyrth a sut yr ymdriniwyd â'r heriau hyn? A oedd unrhyw ffactorau wedi hwyluso'r gwaith cofnodi data?

33. A ydych chi wedi cael unrhyw adborth neu sylwadau am y llwyth cyntaf o ganlyniadau ac unrhyw feysydd sy'n achosi pryder neu feysydd i'w gwella? Beth oedd yr adborth/sylwadau a phwy a'i rhoddodd?

## Defnyddio canlyniadau'r prawf

Byddwn yn hoffi gofyn rhywfaint o gwestiynau ichi ynglŷn â'r ffordd y mae eich ysgol wedi defnyddio canlyniadau'r PDRhC

34. Sut mae eich ysgol wedi defnyddio sgoriau unigol disgyblion (gan gynnwys sgoriau safonedig a sgoriau sy'n cyfateb i oedran) neu a ydych chi'n bwriadu eu defnyddio yn y dyfodol? *Cyfwelydd i ofyn y canlynol am bob defnydd:*
    - Sut cafodd hyn ei wneud?
    - Pa mor effeithiol a defnyddiol oeddech chi'n gweld hyn?
    - A oes unrhyw feysydd eraill yr hoffech chi eu datblygu/gwella??
35. Pa ffyrdd gwahanol o gyflwyno'r canfyddiadau, os o gwbl, sydd wedi eu defnyddio a pham? Pa mor effeithiol, eglur a defnyddiol oedd y ffyrdd gwahanol hyn?
36. Sut mae'r profion a'u deilliannau i ddysgwyr wedi eu cyflwyno i rieni a sut y gwnaethant ymateb? *Cyfwelydd i archwilio pa ddulliau cyflwyno a ddefnyddiwyd i rannu gwybodaeth gyda rhieni.*
37. Sut mae eich ysgol yn bwriadu defnyddio data cyfunol/ar lefel yr ysgol yn y dyfodol? *Cyfwelydd i ofyn y canlynol ar gyfer dibenion ffurfiannol ac unrhyw ddibenion ehangach.*
    - Sut bydd hyn yn cael ei wneud?
    - Sut bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i helpu eich ysgol i wella a datblygu’n gyffredinol?
    - A oes ffyrdd eraill yr hoffech chi ddefnyddio'r data nad yw'n ymarferol ar hyn o bryd? Beth yw'r rheswm am hyn?
38. I ba raddau rydych chi'n meddwl bod yr amserlen ar gyfer rhyddhau sgoriau'r PDRhC yn briodol? Pam hynny?
39. OS NA CHAFODD SYLW YN C36: Ym mha ffyrdd rydych chi'n meddwl y gallai canlyniadau PDRhC 2013 ddylanwadu yn y dyfodol ar ddulliau, neu newidiadau i ddulliau, addysgu ac asesu llythrennedd a rhifedd, cynllunio'r cwricwlwm, monitro disgyblion a thargedu cymorth, a chanfod gwendidau yn y cwricwlwm, ymarfer addysgu a datblygiad staff?
40. Sut mae canlyniadau'r PDRhC wedi eu cysylltu ag asesiadau athrawon ac asesiadau o dan y fframwaith llythrennedd a rhifedd, er mwyn dod i ddyfarniad cynhwysfawr ynglŷn â galluoedd y dysgwyr?
41. I ba raddau rydych chi wedi sylwi ar unrhyw gysylltiad rhwng canlyniadau'r PDRhC a dulliau eraill cynharach o asesu lefelau llythrennedd a rhifedd disgyblion (gan gynnwys profion ac asesiadau athrawon)? Pam rydych chi'n credu bod unrhyw wahaniaethau, os oes rhai?
42. A ydych chi'n credu bod gan y consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol swyddogaeth yn y gwaith o fonitro, herio a chefnogi ysgolion? Ym mha ffyrdd y gallent wneud hynny?

## Yn olaf,

43. Yn gyffredinol beth yn eich barn chi yw'r prif heriau yr ydych chi wedi eu hwynebu wrth weithredu'r PDRhC? Sut rydych chi wedi goresgyn yr heriau hyn, os o gwbl? I'r gwrthwyneb, beth sydd wedi hwyluso eu gweithrediad?
44. Beth yn eich barn chi y gellid ei wneud yn y dyfodol er mwyn gwella’r dull o weithredu, gweinyddu a defnyddio'r profion yn gyffredinol? *Cyfwelydd i holi ynglŷn â’r camau canlynol a phwy fyddai'n*

*gyfrifol am wneud y newidiadau e.e. Llywodraeth Cymru, ysgolion, consortia rhanbarthol, SCYA, Acumina ac ati:*

- Canllawiau a gwaith paratoi cychwynnol
- Gweithredu a gweinyddu’r profion
- Marcio'r profion
- Defnyddio canlyniadau'r profion

45. A fyddech chi'n hoffi gwneud unrhyw sylwadau ychwanegol ynglŷn ag unrhyw rai o'r materion rydym ni wedi eu trafod heddiw?

46. I gadarnhau, a fyddech chi'n fodlon inni ddefnyddio eich profiadau a'ch barn a drafodwyd heddiw fel astudiaeth achos pe byddai angen?

*Dylai'r ymchwilydd sicrhau bod ei fanylion/manylion cyswllt gan y sawl sy’n cael ei gyfweld os bydd ganddo/ganddi unrhyw wybodaeth ychwanegol i'w hanfon neu os bydd ganddo/ganddi unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ymchwil hwn yn y dyfodol.*

**Diolch a chloi**

## Rhanddeiliaid Ehangach

**Nodiadau'r Ymchwilydd**

Nod yr ymchwil yw archwilio'r modd y mae'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (PDRhC) wedi eu cyflwyno a'u gweithredu ers eu cyflwyno ym mis Mai 2013, a'r effaith y bwriadwyd iddynt ei chael ar addysgu a dysgu.

Mae'r rhai a gyfwelir yn Gefnogwyr Profion, yn gynrychiolwyr o SCYA ac Acumina, neu'n Swyddogion Monitro Profion y Consortia Rhanbarthol.

Bydd y cyfweliad hwn yn archwilio profiadau'r ymatebwyr o gefnogi'r PDRhC, o'r wybodaeth a'r canllawiau cychwynnol a ddarparwyd hyd at y modd y defnyddiwyd ac y bwriedir defnyddio canlyniadau'r profion. Bydd hefyd yn nodi pa elfennau sydd wedi'u rhwystro a'u galluogi, gan effeithio ar eu profiadau nhw a phrofiadau eu hysgol

Ym mhob Consortiwm Rhanbarthol, cyflawnodd y Swyddogion Monitro Profion rôl statudol gan fonitro'r modd y gweinyddwyd y profion ar ran awdurdodau lleol yn ardal eu Consortia Rhanbarthol a bydd modd iddynt gynnig safbwynt allanol, ar sail eu gwaith monitro eu hunain. Yn ogystal, cefnogwyd y broses o gyflwyno'r PDRhC gan rwydwaith o Gefnogwyr Profion (56 o unigolion) ac roeddent yn cysylltu ag ysgolion unigol i'w helpu i baratoi i gynnal y profion.

Dylid cynnal y cyfweliad hwn mewn ffordd benagored er mwyn i'r ymchwilydd allu casglu gwybodaeth sy'n allweddol i amcanion yr ymchwil yn ogystal â chyfleu profiad yr ymatebwr a chaniatáu hyblygrwydd i fynd ar ôl pwyntiau ar sail ymateb y sawl sy'n cael ei gyfweld. Ni fydd gan bawb sy'n cael ei gyfweld yr un lefel o wybodaeth fanwl ynglŷn â'r PDRhC felly dylai'r cyfwelydd ganolbwyntio ar rannau gwahanol o'r canllaw pwnc hwn fel y bo'n briodol.

Cyn cynnal y cyfweliadau trylwyr, dylai'r holl gyfwelwyr ymgyfarwyddo â deunyddiau cefndir perthnasol gan gynnwys:

- Y llawlyfr gweinyddu profion
- Cwestiynau ac atebion PDRhC y Rhaglen Gymorth Genedlaethol
- Canllawiau ynglŷn â threfniadau mynediad a datgymhwyso'r PDRhC
- Cwestiynau Cyffredin Llywodraeth Cymru
- Y pecyn data a ddarperir i ysgolion
- Enghreifftiau o adroddiadau disgyblion unigol

*Cyflwynwch eich hun a BMG Research; rhowch wybod i'r ymatebwr ein bod wedi ein comisiynu gan Lywodraeth Cymru i edrych ar y ffordd y mae'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (PDRhC) wedi eu cyflwyno a'u rhoi ar waith ers eu cyflwyno ym mis Mai 2013, a'r effaith y bwriedir iddynt ei chael ar addysgu a dysgu. Eglurwch y byddem ni'n hoffi eu barn yn seiliedig ar eu profiadau er mwyn ein cynorthwyo i ddatblygu'r adroddiad terfynol ac, o bosibl, er mwyn llunio astudiaeth achos.*

*Dylai'r cyfwelydd bwysleisio bod y cyfweliadau'n cael eu cynnal yn unol â chod ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad ac o'r herwydd y bydd popeth y byddant yn ei ddweud yn anhysbys ac na fydd unigolion yn cael eu henwi yn yr adroddiad terfynol. Bydd y drafodaeth yn cymryd tua 30-45 munud.*

*Gofynnwch am gael recordio'r drafodaeth, gan roi sicrwydd i'r cyfranogwr ynglŷn â chyfrinachedd.*

1. Cyn inni gychwyn, a wnewch chi roi disgrifiad cyffredinol imi o'ch swydd os gwelwch yn dda, ac os yn berthnasol, sut mae hyn yn gysylltiedig â gweithrediad y PDRhC?

2. Ym mha ffyrdd y gwnaethoch chi/eich sefydliad gefnogi gweithrediad y PDRhC?

3. Pa feysydd penodol, os o gwbl, oeddech chi'n eu gweld yn rhai a achosodd bryder i ysgolion wrth iddynt baratoi i weithredu'r PDRhC? Pam hynny? *Dylai'r cyfwelydd holi'n benodol ynglŷn â'r PDRhC wedi eu haddasu a datgymhwyso dysgwyr os na fyddant yn cael eu crybwyll.*

4. Yn eich barn chi, pa gymorth ychwanegol, os o gwbl, y gellid bod wedi ei ddarparu i'r ysgolion wrth iddynt baratoi i weithredu'r PDRhC? Pwy ddylai ddarparu'r cymorth hwn yn eich barn chi?

5. A oeddech chi o'r farn bod y negeseuon cyffredinol a gafodd eu darparu gennych chi, gan Lywodraeth Cymru a ffynonellau eraill yn glir, yn ddealladwy ac yn gydlynol? Beth oedd y rheswm am hyn? *Cyfwelydd i brocio am agweddau cadarnhaol a negyddol penodol.*

6. I ba raddau rydych chi'n meddwl bod yr amserlenni ar gyfer cynnal y PDRhC mewn ysgolion yn ymarferol? Pam hynny? CYFWELYDD I SYLWI Y DYLID CYFYNGU'R YMATEB I YMARFEROLDEB AMSERLENNI'R YSGOL AR GYFER CYNNAL Y PROFION, NID CYFLWYNIAD A DATBLYGIAD CYFFREDINOL Y PDRhC.

7. Ym mha ffyrdd, os o gwbl, y gwnaeth eich barn ar ymarferoldeb yr amserlenni ar gyfer cynnal y PDRhC newid yn ystod y broses? Pam hynny?

8. I ba raddau, yn eich barn chi, y llwyddodd ysgolion i gydymffurfio â'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Llawlyfr Gweinyddu Profion? Beth oedd y rheswm am hyn? *Cyfwelydd i holi ynglŷn ag agweddau penodol y methodd yr ysgol â chydymffurfio â nhw a pha gymorth a ddarparwyd i fynd i'r afael â hyn, os o gwbl.*

9. I ba raddau yr oedd ysgolion yn gweinyddu'r PDRhC i ddosbarthiadau cyfan a pham y cafodd dulliau gwahanol eu dewis?

10. I ba raddau y manteisiodd ysgolion ar yr opsiynau canlynol a pham bod hynny wedi digwydd yn eich barn chi?
    - Yr opsiwn o weinyddu'r PDRhC i Flynyddoedd 2 a 3 mewn talpiau byrrach?
    - Yr opsiwn o ddefnyddio PDRhC wedi eu haddasu
    - Yr opsiwn o ddefnyddio trefniadau datgymhwyso
    - Yr opsiwn o ddefnyddio cwestiynau ymateb estynedig (Blwyddyn 4 ac uwch, profion darllen yn unig)

11. Pa ddulliau o farcio a safoni a ddefnyddiodd yr ysgolion? Pa rai oedd y dulliau mwyaf cyffredin a pha rai oedd y dulliau mwyaf effeithiol? Pam hynny yn eich barn chi?

12. Pa mor effeithiol oedd dulliau'r ysgol o gofnodi data ar system gwybodaeth reoli'r ysgol a'r porth SCYA, o ran cywirdeb ac effeithiolrwydd, a pham hynny yn eich barn chi?

13. Sut y mae ysgolion wedi defnyddio sgoriau disgyblion unigol (gan gynnwys sgoriau safonedig a sgoriau sy'n cyfateb i oedran)? *Pa mor aml a pha mor gyson y defnyddiwyd y sgoriau?*

14. Pa ffyrdd gwahanol, os o gwbl, a ddefnyddiwyd i gyflwyno'r canfyddiadau a pham? Pa mor effeithiol, eglur a defnyddiol oedd y gwahanol ffyrdd?

15. Sut mae'r profion a'u deilliannau i ddysgwyr wedi eu cyflwyno i rieni a sut y gwnaethant ymateb? *Cyfwelydd i archwilio'r dulliau cyflwyno a ddefnyddiwyd i rannu gwybodaeth gyda rhieni.*

16. Sut mae'r ysgolion yn bwriadu defnyddio data cyfunol/ar lefel yr ysgol yn y dyfodol? *Cyfwelydd i holi ynglŷn â defnydd at ddibenion ffurfiannol ac unrhyw ddibenion ehangach, a pha mor aml a pha mor gyson y mae'r dulliau hyn wedi eu defnyddio?*
17. I ba raddau rydych chi'n meddwl bod yr amserlen ar gyfer rhyddhau sgoriau'r PDRhC yn briodol? Pam?
18. Ym mha ffyrdd rydych chi'n meddwl y gallai canlyniadau PDRhC 2013 ddylanwadu ar ddulliau gweithredu neu newidiadau i'r canlynol? *Dylai'r cyfwelydd edrych ar bob un o'r canlynol:*
    - addysgu ac asesu llythrennedd a rhifedd
    - cynllunio'r cwricwlwm
    - monitro disgyblion a thargedu cymorth
    - canfod gwendidau yn y cwricwlwm
    - ymarfer addysgu a datblygiad staff
19. Sut mae canlyniadau'r PDRhC wedi eu cysylltu ag asesiadau athrawon ac asesiadau o dan y fframwaith llythrennedd a rhifedd, er mwyn dod i ddyfarniad cynhwysfawr ynglŷn â galluoedd y dysgwyr?

20. I ba raddau rydych chi wedi sylwi ar unrhyw gysylltiadau rhwng canlyniadau'r PDRhC a dulliau eraill cynharach o asesu lefelau llythrennedd a rhifedd disgyblion (gan gynnwys profion ac asesiadau athrawon)? Pam rydych chi'n credu bod unrhyw wahaniaethau, os oes rhai?

21. A ydych chi'n credu bod gan y consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol swyddogaeth ehangach yn y gwaith o fonitro, herio a chefnogi ysgolion? Ym mha ffyrdd y gallent wneud hynny?

22. Yn gyffredinol beth yn eich barn chi yw'r prif heriau a wynebwyd wrth weithredu'r PDRhC? Sut mae'r heriau hyn wedi eu goresgyn, os o gwbl? I'r gwrthwyneb, beth sydd wedi hwyluso eu gweithrediad, os unrhyw beth?

23. Beth yn eich barn chi y gellid ei wneud yn y dyfodol er mwyn gwella’r dull o weithredu, gweinyddu a defnyddio'r profion yn gyffredinol? *Cyfwelydd i holi ynglŷn â’r camau canlynol a phwy fyddai'n gyfrifol am wneud y newidiadau e.e. Llywodraeth Cymru, ysgolion, consortia rhanbarthol, SCYA, Acumina ac ati:*
    - Canllawiau a gwaith paratoi cychwynnol
    - Gweithredu a gweinyddu’r profion
    - Marcio'r profion a chofnodi’r canlyniadau yn y gwahanol systemau/pyrth
    - Defnyddio canlyniadau'r profion

24. A fyddech chi'n hoffi gwneud unrhyw sylwadau ychwanegol ynglŷn ag unrhyw rai o'r materion rydym ni wedi eu trafod heddiw?

25. I gadarnhau, a fyddech chi'n fodlon inni ddefnyddio eich profiadau a'ch barn a drafodwyd heddiw fel astudiaeth achos os byddai angen?

*Dylai'r ymchwilydd sicrhau bod ei fanylion/manylion cyswllt gan y sawl sy'n cael ei gyfweld os bydd ganddo/ganddi unrhyw wybodaeth ychwanegol i'w hanfon neu os bydd ganddo/ganddi unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ymchwil hwn yn y dyfodol.*

**Diolch a chloi**